# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cygnor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 22AIN IONAWR, 2026**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**Noder: Cynhelir Sesiwn Briffio i'r Aelodau am 10:00yb**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor Caernarfon ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Linda Morgan
Beca Roberts
Berwyn Parry Jones
Delyth Lloyd Griffiths
Edgar Wyn Owen
Jina Gwyrfai
Elfed Williams
Annwen Hughes
Arwyn Herald Roberts
Beca Brown
Dafydd Davies

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels
Peter Thomas
Wendy Cleaver
Elfed Powell Roberts
Gruffydd Williams

## Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 06 Tachwedd 2025 fel rhai cywir.

**5. CAIS I GRAFFU GAN AELOD O'R CYHOEDD - MATERION ARIANNU'R CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR** 13 - 18

I ystyried:

- Cais gan aelod o'r cyhoedd
- Ymateb swyddogion i'r pwyntiau a godwyd yn y cais i graffu
- Os oes angen gwneud argymhelliad(ion) penodol

**6. ADOLYGIAD O'R CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR** 19 - 95

To review the Climate and Emergency Plan as part of the Cyngor Gwynedd Plan 2023-28, A Green Gwynedd.

**7. TEITHIAU LLESOL** 96 - 120

I graffu cynlluniau Teithiau Llesol fel rhan o Gynllun y Cyngor 2023/28 – Gwynedd Werdd.

**8. ADRODDIAD CYNNYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN** 121 - 135

I graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** 136 - 137

Mabwysiadu rhaglen waith dirprwyedig ar gyfer 2025/26.

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 06 TACHWEDD 2025**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes (Cadeirydd) a Delyth Lloyd Griffiths (Is-gadeirydd)

Beca Brown, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Jina Gwyrfai, Berwyn Parry Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed Powell Roberts, Peter Thomas, Elfed Williams a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Y Cynghorydd June Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg ac YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC), Meirion Williams (Pennaeth Cynorthwyol) a Nia Wyn Vaughan (Uwch Swyddog Gweithredol).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gerwyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol, Trafnidiaeth), Roland Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Gwastraff ac Ailgylchu) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Diolchwyd i'r Cynghorydd Elin Hywel, Cyn-gadeirydd y Pwyllgor hwn am ei chyfraniad gwerthfawr i waith y Pwyllgor dros y blynyddoedd diwethaf.

Croesawyd y Cynghorwyr Dafydd Davies a Wendy Cleaver i'w cyfarfod cyntaf.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Robert Glyn Daniels

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Medi 2025, fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET PRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC, ynghyd â Phennaeth a Phennaeth Cynorthwyol yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC.

Atgoffwyd bod yr Adran yn gyfrifol am dri o gynlluniau Cynllun y Cyngor 2023-28 a bod yr adroddiad hwn yn ddiweddariad ar eu datblygiad hyd at ddiwedd Medi 2025.

Cadarnhawyd bod yr Adran wedi derbyn cefnogaeth grant Cyfleoedd Chwarae drwy Lywodraeth Cymru i wella ansawdd a hygyrchedd meysydd chwarae. Eglurwyd bod y datblygiad hwn yn ddatblygiad mawr yn y prosiect 'Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y Sir' o fewn Cynllun y Cyngor. Ymhelaethwyd bod cydweithio effeithiol wedi bod ar y gweill gyda Chyngor Dinas Bangor wrth i'r broses o drosglwyddo maes chwarae Maes Tryfan iddynt barhau.

Darparwyd diweddariad ar y prosiect 'Gweithredu ar risgiau llifogydd' gan nodi bod y Strategaeth Llifogydd Leol wedi ei fabwysiadu ac yn weithredol.

Adroddwyd bod system optimeiddio cylchdeithiau glanhau wedi cael ei gyflwyno yn ardal Arfon fel rhan o brosiect 'Cymunedau Glân a Thaclus'. Eglurwyd bod y system hon yn rhan o gynllun peilot yn ardal Arfon gan nodi y gobeithir ehangu'r trefniadau i Bwllheli a Porthmadog yn ystod gwanwyn 2026. Ymhelaethwyd mai diben y system yw lleihau gorwariant presennol y gwasanaeth drwy sicrhau bod trefn gwaith effeithiol yn cael ei weithredu.

Tynnwyd sylw at 29 mesurydd perfformiad sydd yn weithredol o fewn yr Adran, megis 'Mesurau corfforaethol/adrannol', 'Cynnal Priffyrdd', 'Goleuo Stryd', 'Edrychiad Stryd', 'Toiledau Cyhoeddus' ac 'Ymgynghoriaeth Gwynedd' gan ymfalchïo bod 62.1% o'r mesuryddion hyn yn cael eu mesur yn wyrdd. Eglurwyd bod hyn yn gadarnhad o waith cadarnhaol y gwasanaeth a pherfformiad effeithiol gwasanaethau. Fodd bynnag, nodwyd bod 37.9% o'r  mesuryddion wedi eu cofnodi yn ambr, gan sicrhau bod y mesuryddion hyn yn derbyn sylw pellach fel rhan o'r broses herio perfformiad. Mynegwyd balchder nad oedd unrhyw fesurydd wedi ei gofnodi yn goch.

Cyfeiriwyd at gynlluniau Arbedion 2025-26 yr Adran, sydd gyfwerth â £533,500. Cadarnhawyd bod yr adran ar drac i gyflawni £212,500 o'r cynlluniau Arbedion yma gan gydnabod bod posibilrwydd na fydd £321,000 yn cael eu gwireddu. Amlygwyd hefyd bod rhai cyllidebau yn cael eu heffeithio gan y tywydd gan fod angen sicrhau cyllideb ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â unrhyw dywydd garw anrhagweladwy.

Diweddarwyd bod niferoedd y gweithlu sydd wedi cyflawni hyfforddiant mandadol wedi cynyddu, gan fanylu bod 77.4% o'r staff wedi cyflawni hyfforddiant craidd 'Camdrin', 72.4% wedi cyflawni'r teitl ' Diogelu', gan fynegi balchder bod dros 67% o staff yr adran wedi cyflawni holl deitlau hyfforddiant mandadol. Cydnabuwyd bod lle i wella er mwyn cynyddu'r niferoedd hyn i'r dyfodol ond bod heriau wedi dod i'r amlwg gan nad oes nifer o aelodau staff rheng flaen gyda mynediad i'r modiwlau gan nad oes ganddyn nhw gyfarpar electroneg. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod yr Adran yn cydweithio gyda'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i ddod i ganolfannau gwaith er mwyn rhoi cymorth i aelodau staff i gwblhau'r hyfforddiant yn ystod y diwrnod gwaith.

Cydnabuwyd bod niferoedd salwch staff yr Adran yn uchel, gyda cyfartaledd dyddiau salwch fesul person (Cyfwerth Llawn Amser) yn 4.62 diwrnod. Manylwyd bod nifer o aelodau staff i ffwrdd o'r gwaith am gyfnod hirdymor ond bod gwir sefyllfa salwch yn gwella erbyn hyn, gan obeithio bydd hyn yn parhau a bydd gwelliant pan fydd yr adran yn cyflwyno adroddiad herio perfformiad cyffelyb yn 2026.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

<u>Rheolaeth Fflyd</u>
Mewn ymateb i ymholiad ar niferoedd cerbydau gwyrdd a'r cynnydd mewn costau tanwydd, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod 88 o gerbydau a faniau trydan yn rhan o'r fflyd, gyda trefniadau mewn lle i gyflwyno mwy o gerbydau fel mae'r angen yn codi. Cydnabuwyd bod hyder y gweithlu i ddefnyddio ceir trydan wedi bod yn isel oherwydd nad ydynt wedi arfer gwefru ceir. Adroddwyd bod y dechnoleg cerbydau trydan yn un sydd yn datblygu'n

barhaus ond nid oes cefnogaeth effeithiol er mwyn prynu cerbydau trwm trydan a'u gwefru yn effeithiol ar hyn o bryd. Oherwydd hyn, cadarnhawyd bod costau tanwydd yn gallu cynyddu o bryd i'w gilydd os oes angen yn codi ar gyfer defnyddio mwy o gerbydau trwm, ond pwysleisiwyd bod y ffigwr cyfartalog ar gyfer ffioedd tanwydd yn lleihau yn flynyddol. Sicrhawyd bydd adroddiadau'r Adran i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol yn dangos data dros gyfnod o flynyddoedd er mwyn i Aelodau gymharu'r datblygiadau yn y maes hwn.

Mewn ymateb i ymholiad os byddai peidio adnewyddu cerbydau tanwydd am rhai trydan yn arwain at arbedion ariannol i'r Cyngor, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran nad oedd peidio adnewyddu'r fflyd yn ystyriaeth ar hyn o bryd gan fod cynllun dibrisio ar y gweill a bod opsiynau am y dull gorau i weithredu i'r dyfodol ar waith. Ymhelaethwyd na fydd modd prynu cerbydau gydag allyriadau carbon uchel yn y dyfodol agos ac felly rhaid i'r Cyngor ymchwilio i'r dulliau gorau o ddatblygu'r fflyd - boed yn hydrogen, trydan neu ddull arall.

<u>Gwasanaeth Goleuo</u>
Mewn ymateb i ymholiad am y cynnydd a welir mewn defnydd egni lampau stryd, eglurodd Pennaeth yr Adran bod hyn yn deillio o'r ffaith bod yr Adran wedi mabwysiadu mwy o oleuadau stryd yn y blynyddoedd diwethaf. Ymhelaethwyd bod tua 18,000 o oleuadau stryd ar draws y Sir a bod hynny wedi cynyddu yn ddiweddar yn dilyn datblygiad ffordd osgoi Caernarfon yn ogystal â phont Dyfi newydd ger Machynlleth, a'r angen i oleuo'r ffyrdd hynny.

<u>Toiledau Cyhoeddus</u>
Cyflwynwyd cais i dderbyn mwy o wybodaeth am hygyrchedd y toiledau cyhoeddus er mwyn dangos i'r cyhoedd bod safon y gwasanaeth yn gwella. Mewn ymateb, diolchodd Pennaeth yr Adran am y sylwadau gan nodi byddai'r wybodaeth yma yn cael ei ddatblygu erbyn i'r mater gael ei graffu gan y Pwyllgor hwn y tro nesaf.

<u>Cyfraddau Salwch</u>
Mewn ymateb i ymholiad os oedd salwch aelodau staff yn deillio o lwyth gwaith, straen neu o ffynhonnell arall, gydag ymholiad pellach ar ba fesurau sydd ar waith er mwyn sicrhau llesiant staff, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran eu bod yn cydweithio yn agos gyda'r gwasanaeth Adnoddau Dynol. Eglurwyd y cynhelir paneli dychwelyd i'r gwaith er mwyn sicrhau iechyd yr aelodau staff a derbyn arweiniad ar sut i'w cefnogi orau wrth ddychwelyd. Pwysleisiwyd bod lefelau salwch y gweithlu yn gymharol gyda chyfraddau awdurdodau lleol eraill yn genedlaethol

<u>Dŵr ac Amgylchedd</u>
Mewn ymateb i sylwadau bod oediad yng ngwaith partneriaid sy'n cydweithio gyda'r Cyngor i fynd i'r afael ag atal llifogydd, yn arwain at oedi pellach yn nhrefniadau'r Cyngor, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r holl bartneriaid. Fodd bynnag, nodwyd bod cyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru yn rhai sylweddol a bod risg parhaol bod oediad i drefniadau a strategaethau. Sicrhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod y risg hwn o oedi yn un sydd ar gofrestr risg swyddogol yr Adran.

<u>Mesuryddion</u>
Ystyriwyd bod nifer o fesuryddion herio perfformiad yr Adran yn adrodd yn ambr, gan nodi y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau'r Pwyllgor craffu hwn dderbyn gwybodaeth am y camau gweithredu ac amserlen realistig er mwyn gwella'r perfformiad. Ystyriwyd hefyd sut oedd yr Adran yn mynd ati i fesur os yw'r mesuryddion perfformiad yn adrodd yn goch, ambr neu wyrdd. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran y byddai ystyriaeth yn cael ei roi er mwyn datblygu dull o sgorio mesuryddion perfformiad er mwyn derbyn cadarnhad os ydynt yn adrodd yn goch, ambr neu wyrdd. Fodd bynnag, nodwyd mai ar sail tystiolaeth a thrafodaethau gyda swyddogion mae'r penderfyniadau ar sut mae

mesuryddion yn adrodd ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ychwanegu rhaglen waith i wella'r perfformiad yn yr adroddiad yn y dyfodol.

Tynnwyd sylw bod oddeutu traean o holl fesuryddion herio perfformiad yr Adran yn adrodd yn ambr, gan ofyn a yw hyn yn dderbyniol ac os byddai'r Adran yn gallu amlygu a dangos os yw perfformiad yn erbyn mesuryddion yn gwella, wedi aros yr un fath neu'n gwaethygu, wrth gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol. Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd yr edrychir ar sut y gellid amlygu a dangos tueddiadau yn yr adroddiad i'r dyfodol. Cydnabodd Pennaeth yr Adran bod lle i wella. Fodd bynnag, nodwyd bod rheolwyr a swyddogion yn gallu bod yn llym wrth adrodd ar fesuryddion gan nodi bod y gwir sefyllfa yn well na'r hyn ag adroddwyd. Rhannwyd enghraifft o hyn ble oedd niferoedd diffygion cynnal priffyrdd yn adrodd yn ambr, oherwydd amser datrys y diffygion. Adroddwyd mewn gwirionedd bod diffygion yn cael eu datrys yn gyflym iawn ond bod y gwaith gweinyddol cefndirol sydd yn cyd-fynd ag o yn arafu'r broses gan arwain at liw ambr wrth adrodd ar y mesuryddion.

<u>Cynlluniau Arbedion Ariannol</u>
Mynegwyd pryder bod yr Adran yn methu â gwireddu oddeutu 40% o'u cynlluniau arbedion ariannol eleni, gan ofyn sut mae'r Adran yn ymdopi gyda'i gyllideb gyflawn yn gyffredinol. Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Pennaeth yr Adran bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y targedau arbedion ariannol yn cael eu cyfarch. Cadarnhawyd os na fydd yr Adran yn llwyddo i'w cyfarch, bydd angen cyflwyno cynlluniau arbedion amgen i'r dyfodol ar gyfer eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol nesaf. Eglurwyd bod rhai sefyllfaoedd anrhagweladwy yn effeithio ar gyllideb yr adran, megis arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth cynnal gaeaf. Pwysleisiwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gyfarch y cynlluniau arbedion, ond nodwyd hefyd bod ystyriaeth ddwys yn cael ei roi i sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu cyflawni i drigolion Gwynedd.

<u>Cyflwr Ffyrdd</u>
Tynnwyd sylw bod 13.1% o ffyrdd dosbarth C y Sir wedi sgorio yn goch a olygir bod eu cyflwr yn wael ac y byddai'n debygol o fod angen gwaith cynnal arfaethedig yn y dyfodol agos. Mewn ymateb i'r sylw, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod pob ffordd Dosbarth A-C yn cael eu sganio ar gyfer eu cyflwr, ond nid oes modd gwneud hyn ar gyfer ffyrdd di-ddosbarth. Adroddwyd bod y Cyngor wedi derbyn grant o £8,000,000 i fuddsoddi mewn cyflwr ffyrdd dros y ddwy flynedd nesaf. Er hyn, nodwyd gall ystadegau aros yn debyg y tro nesaf mae'r Adran yn adrodd i'r Pwyllgor hwn, gan fod nifer o dasgau angen eu cwblhau cyn cyfarch diffygion newydd sydd yn cael eu hadnabod gan y sganiwr. Nodwyd bod yr Adran yn cydweithio gydag Awdurdodau Lleol eraill er mwyn cymharu cyflwr ffyrdd a chydweithio ar ffyrdd ymylon sirol. Ymhelaethodd y Pennaeth Adran bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn canfod os oes modd defnyddio meddalwedd deallusrwydd artiffisial er mwyn casglu data ar gyflwr ffyrdd di-ddosbarth yn y Sir, ond hyderwyd bod eu cyflwr yn debyg i'r hyn a adroddwyd ar gyfer Dosbarth C. Diolchwyd i'r Adran am gadw ffyrdd y Sir i safon uchel.

Mewn ymateb i sylw bod oedi yn dilyn datrys diffygion ffyrdd, cyn i linellau gwyn y ffordd gael eu hail-baentio, cadarnhaodd Pennaeth yr Adran bod hyn yn deillio o bwysau ar gyllidebau'r Adran. Ymhelaethwyd bod cwmni allanol yn cyflawni'r gwaith gosod llinellau gwyn i'r Cyngor a bod pwysau yn cael ei roi arnynt i weithredu'n amserol ac mae'r Adran yn asesu safon y gwaith hwnnw. Adroddwyd bod y Cyngor yn ymchwilio mewn i'r posibilrwydd o gyflawni'r gwaith hwn yn fewnol, gan gydnabod y byddai'n fuddsoddiad sylweddol mewn peiriannau, aelodau staff ac adnoddau. Cadarnhawyd bydd yr Adran yn cyflwyno bid ariannol i gyfarch y mater hwn gan y byddai hefyd yn fuddiol i adrannau eraill y Cyngor.

Tynnwyd sylw bod ystadegau a gyflwynwyd yn yr Adroddiad yn nodi bod mwy o ddiffygion critigol ar ffyrdd yn ardal Dwyfor nac sydd yn ardaloedd Meirionnydd ac Arfon yn gyffredinol. Mewn ymateb i ymholiad pam mai dyma oedd yr achos ac os yw'r Adran yn llwyddo i'w datrys o fewn eu cyfnod darged o ddwy awr, cydnabodd Pennaeth yr Adran bod ymateb i

ddiffygion critigol ar y ffyrdd yng Ngwynedd yn her. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod yr Adran yn llwyddo i fynd i'r safle a'i ddiogelu wrth gyflawni gwaith cychwynnol. Eglurwyd mewn rhai achosion bod angen i swyddogion ddod yn ôl ar gyfer cwblhau gwaith dilynol.

Diolchwyd i'r Adran am sicrhau bod unrhyw goed sydd yn syrthio ar draws ffyrdd yn cael eu clirio mor gyflym â phosib. Gofynnwyd i'r Adran ymchwilio i ddulliau o allu gweld pa goed sydd yn debygol o ddisgyn er mwyn sicrhau diogelwch i'r cyhoedd.

<u>Tîm Tacluso Ardal Ni</u>
Mewn ymateb i ymholiad a oedd yn nodi bod y Tîm Tacluso yn cyflawni gwaith yn arafach na'r amserlen darged o 7 diwrnod, nododd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran bod hyn yn deillio oherwydd heriau staffio yn ystod y misoedd diwethaf. Cadarnhawyd bod y materion hyn bellach wedi cael eu datrys gan fod trosiant staff wedi sefydlogi a bod niferoedd salwch wedi lleihau gan nodi bydd y gwasanaeth yn dychwelyd i'r safon ddisgwyliedig.

Mewn ymateb i ymholiad pellach os oedd y nifer o geisiadau i'r Tîm Tacluso wedi lleihau yn ddiweddar, pwysleisiodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran nad dyna'r sefyllfa. Eglurwyd bod y dull o gofnodi ceisiadau gwaith wedi addasu yn ddiweddar fel nad yw'r un gwaith yn cael ei nodi mwy nag un waith. Sicrhawyd bod y Tîm yr un mor brysur a maent wedi bod ond mae niferoedd y ceisiadau yn llai gan nad ydynt yn cael eu hailadrodd.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Amgylchedd, Pennaeth Adran Amgylchedd a Phenaethiaid Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

<u>Gwastraff ac Ailgylchu</u>
Mynegwyd pryder bod risg ariannol i'r Cyngor os nad yw'r Adran yn llwyddo i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o holl wastraff y Sir. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol Gwastraff ac Ailgylchu bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn ymrwymo i gyrraedd y targed hwn, gyda'r Cyngor yn cyrraedd cyfradd ailgylchu o 66.6% yn ystod 2025-26 hyd yma. Ymhelaethwyd bod y Cyngor yn cydweithio gydag cymdeithas dai ADRA er mwyn hyrwyddo buddion ailgylchu, gan eu bod yn gyfrifol am 7500 o anheddau yn y Sir a fyddai'n cael effaith fawr ar y gyfradd ailgylchu. Yn yr un modd, tynnwyd sylw bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod disgyblion mewn ysgolion yng Ngwynedd yn derbyn gwersi ar bwysigrwydd ailgylchu a bod taflenni yn cael eu paratoi i'w dosbarthu i bob tŷ yn y Sir ar gyfer atgoffa o sut i ailgylchu yn gywir. Cydnabuwyd mai dim ond 4 aelod o staff sydd yn rhan o'r tîm sydd yn addysgu o ran ailgylchu, sicrhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn ymdrechu i gyrraedd y targed ailgylchu ac i sicrhau bod unrhyw gosb ariannol am fethu cyrraedd y targed mor fychan â phosib.

Mewn ymateb i ymholiad pellach os oedd yr Adran yn hyderus bod modd i Wynedd ailgylchu 70% o'i wastraff, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Gwastraff ac Ailgylchu, eu bod yn ffyddiog bydd y targed yn cael ei gyfarch. Manylwyd bod ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus ar y Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu ar waith ar hyn o bryd a bod yr ymatebion sydd wedi dod i law hyd yma yn galonogol iawn. Ymhelaethwyd bod dros 700 o ymatebion wedi bod i'r ymgynghoriad hyd yma a bod 80% o'r ymatebwyr hynny yn ystyried ailgylchu i fod yn weithred bwysig ac yn cytuno gyda'r angen i leihau

gwastraff. Atgoffwyd bod y ddyletswydd i ailgylchu yn fater i bawb yng Ngwynedd ac mae pwysau mawr yn cael ei roi o fewn yr adran ar gyfer hyfforddi swyddogion a sicrhau bod y weithred o ailgylchu yn gywir yn cael ei hyrwyddo gyda'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod pawb yn ailgylchu cymaint â bod modd. Eglurwyd bod llawer o bethau a all gael ei ailgylchu yn parhau i gael ei gynnwys yn y biniau gwastraff gweddilliol a bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn addysgu'r cyhoedd bod modd ailgylchu'r eitemau hyn. Sicrhawyd byddai cyflawni'r gweithredoedd yma yn sicrhau byddai'r Cyngor yn ailgylchu 70% o'i wastraff yn unol â tharged Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i ymholiad os yw'r Adran wedi bod yn rhy hwyr yn datblygu'r Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu, anghytunodd y Pennaeth Adran gan nodi mai dim ond ers 3 mlynedd mae'r gwasanaeth wedi bod o dan reolaeth yr Adran ac mae gwaith estynedig wedi cael ei gwblhau er mwyn sicrhau bod y swyddogion yn ymgyfarwyddo gyda'r gwasanaeth a datblygu rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.. Eglurwyd nad oes unrhyw strategaeth wastraff wedi bod gan y Cyngor yn y gorffennol. Sicrhawyd bod y cyngor wedi bod yn ailgylchu oddeutu 64-65% yn flynyddol ac mae hyn ar gynnydd yn raddol, gan gadarnhau bod gwaith y gwasanaeth yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd yr Adran yn mynd i gyflwyno bagiau ailgylchu yn y dyfodol, yn hytrach na'r cartgylchu sydd yn cael ei ddefnyddio'n bresennol, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Gwastraff ac Ailgylchu bod treialon eisoes wedi cael eu cynnal mewn rhannau o Wynedd. Manylwyd bod 78% o bobl a oedd wedi cymryd rhan yn y treialon wedi dweud y buasent yn hapus i ddefnyddio'r bagiau ailgylchu yn y dyfodol yn hytrach na bocsys a'r cartgylchu. Nodwyd bod hyn oherwydd eu bod yn fagiau addas i bwrpas gydag ychydig o bwysau wedi eu cynnwys ar y gwaelod er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu chwythu yn y gwynt. Fodd bynnag, cydnabuwyd nad oedd y treialon wedi arwain at gynnydd yn y nifer o bethau a oedd yn cael eu hailgylchu. Sicrhawyd bod hwn yn opsiwn sydd yn cael ei ystyried gan yr Adran ar gyfer lleihau costau'r gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu i'r dyfodol.

Llongyfarchwyd yr Adran ar wella'r gwasanaeth hon yn dilyn cyfnod heriol pan ddaeth y gwasanaeth yn rhan o gyfrifoldebau'r Adran Amgylchedd.

<u>Trafnidiaeth Cyhoeddus</u>
Cyfeiriwyd at yr adolygiad presennol sydd ar waith ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gan ofyn a yw'n rhoi ystyriaeth i dlodi trafnidiaeth ac anghenion amrywiol cymunedau. Mewn ymateb i'r ymholiad, eglurodd y Pennaeth Cynorthwyol ar faterion Trafnidiaeth bod yr Adran wedi rhannu gwybodaeth gydag Aelodau'r Cyngor mewn cyfarfodydd diweddar o'r Fforymau Ardal, gan gynnwys rhannu nodyn briffio a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr adolygiad hwn. Eglurwyd bod y Llywodraeth yn y broses o fasnachfreinio'r system trafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2027-28 - a olygir bod system unffurf yn cael ei ddefnyddio yn genedlaethol yn lle diwygio'r trefniadau yn rhanbarthol. Nodwyd nad oes modd cadarnhau na fydd trefniadau yn addasu o gymuned i gymuned ar hyn o bryd ond mae'n debygol byddai cysondeb o fewn prisiau tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus yn genedlaethol. Cydnabuwyd yr ystyrir y byddai'n annhebygol byddai mwy o wasanaethau yn cael eu cynnal gyda'r hwyr ac ar benwythnosau na'r hyn sydd yn cael ei gynnig ar y cylchdeithiau presennol.

Yn debyg, amlygwyd bod rhai cymunedau yng Ngwynedd o dan anfantais gan nad ydynt yn derbyn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gyda'r hwyr ac ar benwythnosau. Mewn ymateb i ymholiad os yw'r Adran yn herio'r penderfyniad i dynnu'r gwasanaethau yma i ffwrdd o gymunedau, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Trafnidiaeth bod y Cyngor yn hyrwyddo'r gwasanaeth gorau posib yn unol â'r gyllideb sydd i'w hariannu. Sicrhawyd y dymunir i'r cymunedau hyn dderbyn pob gwasanaeth sydd eu hangen arnynt gan gydnabod nad oes unrhyw beth all y Cyngor ei wneud i ddatrys y sefyllfa ar hyn o bryd heb gyllideb ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth Trafnidiaeth Cymru.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet bod y rhwystredigaeth hon yn cael ei rannu mewn nifer o gyfarfodydd rhanbarthol ond ei fod yn anodd canfod atebolrwydd rhwng partneriaid er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ychwanegol yn cael eu hamserlennu.

Tynnwyd sylw bod Ysbyty Gwynedd yn gwasanaethu ardal eang iawn ac yn wasanaeth sydd o dan bwysau ar hyn o bryd. O ystyried y niferoedd o bobl sy'n defnyddio'r ysbyty, gofynnwyd a oes ystyriaethau yn cael ei roi fel bod ymwelwyr yr ysbyty yn gallu defnyddio gwasanaeth bws wennol yn y dyfodol. Mewn ymateb, cydnabodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Trafnidiaeth nad oes cynlluniau i gychwyn gwasanaeth bws wennol ar gyfer yr ysbyty ar hyn o bryd, ond y byddai modd edrych mewn i'r posibilrwydd o'i ddatblygu. Fodd bynnag, amlygwyd bod nifer o wasanaethau presennol y fframwaith drafnidiaeth gyhoeddus eisoes yn cludo pobl i'r ysbyty, gan nodi nad yw hyn yn gyfleus ar gyfer pob ymwelydd a chlaf ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd bod y cydbwysedd hwn rhwng cynnig gwasanaeth gwerthfawr a gwasanaethau sydd yn denu llawer o ddefnyddwyr yn allweddol, gan nodi bod gwaith angen cael ei wneud er mwyn sicrhau newid meddylfryd i ddenu mwy o ddefnyddwyr cludiant cyhoeddus.

Yn debyg, gofynnwyd i'r gwasanaeth ymchwilio mewn i ddulliau o hysbysebu'r amrywiol gwasanaethau bws sydd ar gael yn yr ysbyty. Ystyriwyd y byddai'n fuddiol i ddefnyddwyr gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus gael y cyfle i edrych ar amserlenni'r amrywiol gylchdeithiau tra maent yn yr ysbyty, heb orfod dibynnu ar yr angen i fynd ar lein neu i adael yr adeilad, gan nad oes sicrwydd eu bod yn gallu gwneud hynny yn ddiogel.

<u>Cefnogi'r Gweithlu</u>

Amlygwyd bod 214 o aelodau Staff yr Adran heb gyflawni hyfforddiant diogelu craidd ar hyn o bryd, gan ofyn pa waith mae'r Adran yn ei wneud er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cyflawni'r hyfforddiant. Mewn ymateb i'r ymholiad, cydnabodd Pennaeth yr Adran bod y diffyg hwn gyda'r hyfforddiant yn deillio o'r ffaith nad oes gan staff rheng flaen fynediad i'r hyfforddiant gan nad oes cyfarpar electroneg yn cael ei ddarparu iddynt yn rhinwedd eu swydd. Fodd bynnag, nodwyd bod yr Adran yn cynnal trafodaethau gyda'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol i fynd i'r afael gyda'r her hon a hefyd yn trafod gyda'r Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC i rannu eu harferion da o sut maent wedi llwyddo i sicrhau bod eu haelodau staff rheng flaen yn llwyddo i gyflawni'r hyfforddiant craidd. Cadarnhawyd mai un opsiwn sydd yn cael ei drafod ar hyn o bryd yw bod sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnal ar ddiwedd cyfnodau gwaith gan eu haddasu er mwyn sicrhau eu bod yn rhyngweithiol ac yn addas i bwrpas.

Tynnwyd sylw bod nifer o aelodau staff i ffwrdd o'r gwaith am gyfnod hir-dymor o fewn y gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu, gyda sicrwydd na fydd dau o'r aelodau staff hynny yn dychwelyd i'r gwaith. Gan gydnabod bod cyfraddau salwch yn uwch o fewn y gwasanaeth gan nad oes modd i staff weithio o adra os ydynt yn dioddef o salwch ysgafn, gofynnwyd pa gefnogaeth sydd ar gael i staff i ymdopi gyda natur gorfforol y gwaith wrth iddynt ddychwelyd i'r gwaith. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Gwastraff ac Ailgylchu bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth sydd ar gael i aelodau staff wrth iddynt fod i ffwrdd o'r gwaith, ac wrth ddychwelyd i'r gweithle yn ddigonol. Ychwanegwyd bod cyfathrebu clir yn cael ei wneud gyda'r unigolion hynny er mwyn deall natur y gefnogaeth sydd eu hangen arnynt ac i sicrhau trefniadau dychwelyd i'r gwaith effeithiol ac iach.

<u>Teithio Llesol</u>

Mewn ymateb i gwestiwn a oes unrhyw fanteision cymunedol neu amgylcheddol i'w weld yn dilyn datblygu nifer o lwybrau teithio llesol yn y Sir yn ddiweddar, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Trafnidiaeth ei fod yn anodd cadarnhau manteision penodol y cynllun. Ymhelaethwyd nad oes mesuryddion penodol yn asesu'r ffactorau hyn ar hyn o bryd, ond bod gwaith angen gael ei wneud er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r llwybrau o fewn cymunedau fel bod mwy o ddefnydd i'w weld ohonynt yn y dyfodol. Mewn ymateb i

ymholiad pellach i weld os byddai modd cyflwyno padiau sensitifrwydd ar y llwybrau er mwyn gallu nodi faint o ddefnydd sydd yn cael ei wneud o'r llwybrau, nododd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Trafnidiaeth bod hyn wedi bod yn ddull i fesur defnydd llwybrau yn y Parc Cenedlaethol yn y gorffennol ac y bwriedir ei ddefnyddio yn y dyfodol ar rannau o Lwybr yr Arfordir. Cadarnhawyd nad oes trefniadau i gyflwyno mesurau o'r fath ar y llwybrau teithio llesol ond mae modd ei ystyried er mwyn casglu ystadegau defnydd.

Mewn ymateb i sylwadau bod llwybrau teithio llesol ychwanegol yn parhau i gael eu datblygu heb gyllideb i'w cynnal, nododd Pennaeth Cynorthwyol yr adran ar faterion Trafnidiaeth bod hyn yn deillio o'r ffaith bod y llwybrau yn cael eu hariannu gan arian gyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Manylwyd nad oes arian ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau hynny ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ystyriwyd nad oedd yn gwneud synnwyr ariannol i wrthod unrhyw arian gan fod posibilrwydd bydd arian ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol ar gyfer materion cynnal a chadw'r llwybrau hynny. Sicrhawyd bod yr her o beidio gallu ariannu'r gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau yn her genedlaethol, gan gadarnhau bod trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn ymgyrchu i dderbyn cyllideb ar gyfer eu cynnal a chadw.

<u>Gwarchod y Cyhoedd – Safonau Masnach a Thrwyddedu</u>
Mynegwyd pryder mai dim ond 27% o archwiliadau Rheoliadau Safonau Masnach sydd wedi cael eu cyflawni o fewn y rhaglen waith ers dechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ofyn a yw'r adran yn hyderus bydd cynnydd ar y niferoedd hyn. Mewn ymateb, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr adran ar faterion Cynllunio bod y gwasanaeth ar drac i gyflawni 100% o'u harchwiliadau ar amser. Eglurwyd bod y ffigwr o archwiliadau sydd eisoes wedi cael eu cwblhau yn isel iawn ond mae hynny oherwydd eu natur dymhorol, gan bwysleisio bod y mwyafrif o archwiliadau yn cael eu cynnal o fewn yr ail hanner o'r flwyddyn er mwyn eu cynnal yn y dull mwyaf effeithiol ar gyfer materion megis storio tân gwyllt a lles anifeiliaid.

Mewn ymateb i ymholiad am weithlu'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i gwblhau archwiliadau Rheoliadau Safonau Masnach, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Cynllunio, bod niferoedd staff ar gynnydd. Atgoffwyd bod niferoedd y gweithlu wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf ond mynegwyd balchder bod yr Adran wedi denu swyddogion newydd, yn ogystal â hyfforddeion yn rhan o Gynllun Yfory y Cyngor a fyddai'n derbyn hyfforddiant arbenigol ar gyfer cynnal archwiliadau. Yn debyg, nodwyd bod yr Adran yn ymchwilio i dechnoleg newydd, megis iPads, a fyddai'n hwyluso'r gwaith i'r dyfodol.

<u>Rheolaeth Llety Gwyliau ac Ail-gartrefi</u>
Ystyriwyd bod nifer o drigolion Gwynedd yn talu premiwm ar ail-gartrefi gan eu bod yn y broses o adnewyddu cartref newydd cyn symud i mewn iddo a gwerthu eu cartref blaenorol, yn hytrach na bod yn berchen ar ddau dŷ. Mewn ymateb i ymholiad os oes modd cael goddefiad yn y premiwm yn y sefyllfa hon, cadarnhaodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Cynllunio bod rheolaeth y premiwm yn un sydd yn cael ei rannu gan nifer o adrannau'r Cyngor, gan nodi mai'r adran Gyllid yw'r un priodol i gysylltu â nhw mewn achosion cyffelyb i'r rhai a ddisgrifiwyd yn y drafodaeth hon.

<u>Gorfodaeth Cynllunio</u>
Mewn ymateb i sylwadau a oedd yn cydnabod bod niferoedd o drigolion sy'n torri amodau cynllunio ac yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth gorfodaeth ar gynnydd yn ddiweddar, cydnabodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran ar faterion Cynllunio bod hon yn heriol iawn. Eglurwyd bod niferoedd swyddogion o fewn y gwasanaeth wedi bod yn amrywiol yn ddiweddar a bod newid ymysg aelodau staff wedi bod. Cadarnhawyd bod trafodaethau ar waith er mwyn sicrhau bod prosesau'r Adran yn parhau i fod ar waith ac yn bod yn gadarn iawn i sicrhau bod pob amod cynllunio a osodwyd yn cael ei lynu ato.

Diolchwyd am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 7. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu.

Atgoffwyd bod Blaenraglen y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2025/26 wedi cael ei fabwysiadu gan y Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2025.

Esboniwyd bod eitem 'Adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' wedi cael ei amserlennu yn wreiddiol ar gyfer y cyfarfod hwn (06 Tachwedd 2025). Nodwyd y derbyniwyd cais i'w ail-raglennu i gyfarfod 22 Ionawr 2026 er mwyn sicrhau bod gwaith pellach yn cael ei gwblhau cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn.

Tynnwyd sylw y derbyniwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i'r Pwyllgor hwn graffu materion yn ymwneud â materion ariannu sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Cadarnhawyd bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi ystyried y cais hwn ac ystyriwyd ei fod yn amserol i'w ystyried yng nghyfarfod 22 Ionawr 2026 pan fyddai'r Pwyllgor yn ystyried Adolygiad o'r Cynllun. Amlygwyd byddai pedwar eitem i'w trafod yn y cyfarfod hwn petai'r Pwyllgor yn mabwysiadu'r Rhaglen Waith diwygiedig.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan yr Aelodau:-

Cytunwyd i estyn gwahoddiad i'r aelod o'r cyhoedd i fynychu cyfarfod y Pwyllgor ar 22 Ionawr 2026. Cadarnhawyd bydd yr aelod o'r cyhoedd yn cael cyfnod o hyd at 3 munud i ymhelaethu ar ei gais os ydyw'n dymuno gwneud hynny.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2025/26.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 1:15yp

________________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 22 Ionawr 2026 |
| **TEITL** | Cais i graffu gan aelod o'r cyhoedd - Materion Ariannu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I ystyried:<br>• Cais gan aelod o'r cyhoedd<br>• Ymateb swyddogion i'r pwyntiau a godwyd yn y cais i graffu<br>• Os oes angen gwneud argymhelliad(ion) penodol |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Sicrwydd o ran trefniadau ariannu |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Derbyniwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i'r Pwyllgor graffu materion ariannu yn gysylltiedig â'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ar 7 Hydref 2025. Gweler y cais ynghlwm (Atodiad 1).

2. Ystyriodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd y cais a daethpwyd i'r casgliad y byddai'n amserol i graffu'r materion dan sylw yn y cyfarfod yma gan ystyrir adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ogystal yn y cyfarfod.

3. Cytunodd y Pwyllgor gyda'r bwriad yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2025.

4. Estynnwyd gwahoddiad i'r unigolyn i gyfarfod y Pwyllgor er mwyn rhoi cyfle iddo ymhelaethu ar y cais pe byddai'n dymuno. Derbyniwyd cadarnhad o'i fwriad i fynychu'r cyfarfod er mwyn ymhelaethu ar ei gais i graffu. Bydd gan yr unigolyn dri munud i annerch y Pwyllgor.

5. Gofynnwyd i swyddogion ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r pwyntiau a godir yn y cais. Gweler yr ymateb ynghlwm (Atodiad 2). Bydd gan swyddogion yn yr un modd gyfle i ymhelaethu ymhellach ar yr ymateb yn y cyfarfod pe dymunent.

6. Bydd y Pwyllgor wedyn yn trafod y cais a'r ymateb cyn dod i gasgliad os oes angen gwneud argymhelliad(ion) penodol.

**<u>Cais i graffu gan aelod o'r cyhoedd</u>**

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf i wrthwynebu'n ffurfiol i'r penderfyniad a wnaed gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 12 Mawrth 2024 i ddirprwyo awdurdod dros y £1.14 miliwn sy'n weddill o'r Gronfa Cynllun Hinsawdd i'r Prif Weithredwr, Mr Dafydd Gibbard, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.

Rwy'n bryderus bod dirprwyo blaenoriaethu ariannol - heb ymgynghori â'r cyhoedd neu oruchwyliaeth pellach gan y Cabinet - yn arwain at y perygl o danseilio tryloywder, atebolrwydd a'r sail dystiolaethol ar gyfer budd y cyhoedd.

Rhesymau dros Wrthwynebu:

1. Diffyg Craffu Cyhoeddus

Mae'r penderfyniad yn osgoi'r broses graffu arferol ar gyfer gwariant cyhoeddus sylweddol. O ystyried graddfa a phwysigrwydd strategol y gronfa, credaf y dylai dyraniadau'r dyfodol fod yn destun cymeradwyaeth y Cabinet neu, fan leiaf, gael eu hadrodd yn gyfnodol i'r Pwyllgor Craffu.

2. Ymgysylltu Annigonol â'r Cyhoedd

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ymrwymo i "ymgynghori'n eang â chymunedau Gwynedd." Mae dirprwyo awdurdod heb fecanweithiau ar gyfer mewnbwn cyhoeddus ar brosiectau'r dyfodol yn gwrthddweud yr egwyddor hon.

3. Trothwyon Tystiolaethol Aneglur

Mae'r awdurdod dirprwyedig yn galluogi cynlluniau peilot ac arbrofol, gan gynnwys prydlesu cerbydau trydan a chymhellion cymudo staff. Gall y rhain gynnig buddion achlysurol ond mae angen tystiolaeth gref i gwrdd â'r prawf budd cyhoeddus dan Ddeddf Elusennau 2011. Rwy'n erfyn ar y Cyngor i gyhoeddi'r meini prawf fydd yn cael ei ddefnyddio i asesu prosiectau'r dyfodol.

4. Risg o Symudiad Strategol

Heb baramedrau clir, mae risg y gall penderfyniadau dirprwyedig ffafrio enillion gweithredol mewnol neu dymor byr dros wydnwch cymunedol hirdymor ac effaith hinsawdd.

Cais am Weithredu:

Gofynnaf yn barchus bod y Pwyllgor Craffu yn gwneud y canlynol:

- Adolygu'r fframwaith llywodraethu ynghylch yr awdurdod dirprwyedig
- Argymell cyhoeddi protocol gwneud penderfyniadau ar gyfer dyraniadau yn y dyfodol
- Sicrhau bod yr holl brosiectau sy'n cael eu cyllido yn destun adolygiad tystiolaethol ac asesiad budd cyhoeddus
- Ystyried ailosod cymeradwyaeth ar lefel y Cabinet ar gyfer dyraniadau sydd yn uwch na throthwy diffiniedig

**Cyflwynaf y gwrthwynebiad hwn mewn ysbryd o ymgysylltu adeiladol ac atebolrwydd democrataidd.**

**Yn gywir,**
**Philip Cook**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 22 Ionawr 2026 |
| **TEITL** | Cais i graffu gan aelod o'r cyhoedd - Materion Ariannu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I ystyried:<br>• Cais gan aelod o'r cyhoedd<br>• Ymateb swyddogion i'r pwyntiau a godwyd yn y cais i graffu<br>• Os oes angen gwneud argymhelliad(ion) penodol |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Sicrwydd o ran trefniadau ariannu |
| **AWDUR** | Bethan Richardson, Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd |

1. Derbyniwyd cais gan aelod o'r cyhoedd i'r Pwyllgor graffu materion ariannu yn gysylltiedig â'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ar 7 Hydref 2025. Gweler y cais ynghlwm (Atodiad 1).

2. Gofynnwyd i swyddogion ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r pwyntiau a godir yn y cais. Gweler yr ymatebion isod, gan ddilyn trefn yr ymholiadau yn Atodiad 1.

3. Diffyg Craffu Cyhoeddus

Yn dilyn penderfyniad gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 2 Mawrth 2024 (PORTFFOLIOS Y PWYLLGOR GWAITH ) mae gwariant allan o'r Gronfa Cynllun Hinsawdd wedi bod angen ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur. Mae aelodau'r Bwrdd hwnnw yn cynnwys 5 Aelod Cabinet a 2 aelod etholedig arall, sef y Pencampwr Bioamrywiaeth a chynrychiolydd o'r pwyllgorau craffu ynghyd â nifer o uwch swyddogion.
Mae angen cyflwyno cais gyda gwybodaeth drylwyr am yr angen am y cyllid, a'r budd a ddaw o gyflawni'r gwaith o dan sylw. Mae copi o'r ffurflen gais a ddefnyddir ar ddiwedd yr atodiad hwn.
Mae gwariant o'r Gronfa Cynllun Hinsawdd yn destun adolygiadau cyllidol rheolaidd drwy drefniadau mewnol y Cyngor, ac mae cyllidebau yn eu tro hefyd yn destun adolygiad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'r Cyngor.
Mae Adroddiad Blynyddol Cynllun Hinsawdd a Natur yn cael i graffu gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau cyn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, ac mae gwybodaeth am y prosiectau sy'n derbyn cyllid yn yr adroddiad hwnnw.

4. Ymgysylltu Annigonol â'r Cyhoedd

Rhwng 12 Mehefin a 31 Gorffennaf cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Mae'r canlyniadau yn cael eu rhannu yn y cyfarfod hwn (Pwyllgor Craffu Cymunedau 22 Ionawr 2026), ac mae'r canlyniadau

wedi bwydo'r adolygiad o'r Cynllun Hinsawdd a Natur: Fersiwn 2, sydd hefyd yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn.

5. Trothwyon Tystiolaethol Aneglur

Mae rhaid i bob cais am gyllid i gefnogi cynlluniau peilot ac arloesol ddilyn y broses a ddisgrifir yn 3 uchod, ac felly mae'n rhaid iddynt fod yn arwain at leihau allyriadau carbon Cyngor Gwynedd er mwyn derbyn cefnogaeth.

6. Risg o Symudiad Strategol

Gweler ateb i 3 a 5 uchod.

**Ffurflen cyflwyno cais am arian o gronfa'r Bwrdd Hinsawdd a Natur**

| | | |
|---|---|---|
| ***MANYLION Y CAIS*** | | |
| **1.** | **Teitl** | |
| **2.** | **Adran** | |
| **3.** | **Swyddog Prosiect (a rhif ffôn ac ebost)** | |
| **4.** | **Swm y cais (£)** | |
| **5.** | **Pa ffynonellau ariannu eraill sydd ar gael?** | |
| **6.** | **A oes cyllid cyfatebol?** (rhowch fanylion am y swm, os yw wedi ei sicrhau, neu amserlen unrhyw geisiadau cyllid eraill) | |
| ***ACHOS BUSNES*** | | |
| **7.** | **Amlinelliad o'r angen / prosiect** (pam ceisio am y gyllideb) | |
| **8.** | **Nodwch yr arbediad carbon blynyddol tebygol neu effaith tebygol ar fioamrywiaeth.** (cysylltwch â Bethan Richardson neu Nia Edwards Clarke os ydach chi angen help) | |
| **9.** | **Arbedion ariannol a amcangyfrifir** | |
| **10.** | **Beth yw'r risg o beidio ymateb** | |

<table>
<tr><td>11.</td><td>Ydi’r mater ar gofrestr risg yr Adran?</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>12.</td><td>Agweddau cydraddoldeb a chynaladwyedd o’r cais</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="4">** Rhan 1 – 13 fydd yn cael ei gyflwyno i’r Bwrdd Hinsawdd a Natur felly dylid sicrhau ei fod yn gryno, ond gellid cyflwyno Achos Busnes ar wahân i gyfiawnhau’r cais**<br><br>AWDURDODI</td></tr>
<tr><td>13.</td><td>Cymeradwyaeth y Bwrdd Hinsawdd a Natur</td><td>Dyddiad y cyfarfod</td><td></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 22 Ionawr 2026 |
| **TEITL** | Adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| **AWDUR** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol<br>Bethan Richardson, Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Craig ab Iago |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Craffwyd Adroddiad Blynyddol y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Ionawr 2025.
Adroddwyd yn y Pwyllgor bod bwriad i gynnal adolygiad o'r Cynllun. Rhan o benderfyniad y Pwyllgor oedd:
"Bod y pwyllgor yn craffu casgliadau adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur cyn i'r Cabinet ei ystyried."

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Yr addasiadau y bwriedir eu gwneud i'r Cynllun
- Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus
- Pa ffynonellau cyllido sydd wedi eu hadnabod?

**3. Crynodeb o'r Materion Allweddol**

Yn ystod 2025/26 mae'r Cyngor wedi bod yn adolygu ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i bwrpas.

Fel cam cyntaf fe gafodd y Cynllun ei adolygu gan swyddogion ac aelodau o'r Bwrdd Hinsawdd a Natur, ac fe awgrymwyd rhai diweddariadau.

Fel ail gam fe gynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun presennol a'r cynigion am ddiweddariadau, ac mae canlyniadau'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1.

Ar gais cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 18 Medi 2025, bu'r Aelod Cabinet Amgylchedd ac aelodau'r Bwrdd Hinsawdd a Natur yn ystyried argymhelliad y Pwyllgor – "bod angen ail-edrych ar uchelgais y Cyngor i fod yn garbon sero net erbyn 2030 a dylid ystyried gosod targed realistig ar gyfer lleihau allyriadau carbon".

Mae gwybodaeth bellach yn adran 4 isod sy'n esbonio sut mae'r adolygiad hwn o'r Cynllun wedi ystyried amserlen a chostau gwireddu prosiectau er mwyn cyrraedd yr uchelgais i fod yn gyngor sero net.

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi eu defnyddio, ynghyd â sylwadau pellach gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, er mwyn llunio drafft newydd o'r Cynllun – Fersiwn 2 – sydd i'w weld yn Atodiad 2. Mae'r drafft hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau er mwyn ei graffu ymhellach, cyn i ddrafft terfynol gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (llyw.cymru).

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun/CAHN) yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.

Daeth y Cynllun yn weithredol fis Ebrill 2022 ac mae'r 3 adroddiad blynyddol sy'n pwyso a mesur perfformiad y Cynllun i'w gweld yma.

Cydnabuwyd o'r dechrau bod y Cynllun presennol yn canolbwyntio ar weithrediadau mewnol y Cyngor, a hynny er mwyn cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru i'r sector gyhoeddus ar y cyd i fod yn sero net. Ond pan fabwysiadodd Cabinet Cyngor Gwynedd y Cynllun presennol ar 8 Mawrth 2022, fe nodwyd mai 'Cam 1' fyddai cynllunio sut i ddadgarboneiddio gweithrediadau'r Cyngor ei hun, ac mai 'Cam 2' fydd cynllunio sut i gefnogi cymunedau Gwynedd i leihau allyriadau carbon ar draws y sir yn ogystal a rhoi rhagor o wybodaeth am sut i ymateb i berygl llifogydd.

Mae Cam 1, sef gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur presennol wedi bod ar waith ers Ebrill 2022, a bydd yn waith parhaus hyd y gwelwn. Er mwyn cyrraedd Cam 2 fe benderfynodd Bwrdd Hinsawdd a Natur y Cyngor bod angen adolygu'r Cynllun ac ymgynghori â thrigolion Gwynedd ar ei gynnwys er mwyn llunio rhaglen waith newydd ar gyfer y blynyddoedd nesaf hyd at 2030.

Gan fod y Cynllun presennol wedi bod yn weithredol am 3 mlynedd erbyn Ebrill 2025, roedd y Bwrdd Hinsawdd a Natur (Bwrdd o aelodau etholedig a swyddogion) am edrych yn benodol ar y rhestr o brosiectau ym mhenodau 8-14 i weld a oedd angen ychwanegu, addasu neu ddileu rhai o'r prosiectau hynny.

Ystyriwyd gynnwys y Cynllun, ac fe gynigwyd newidiadau drafft i'r rhestr prosiectau. Ar sail y cynigion newydd fe gynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 12 Mehefin a 31 Gorffennaf 2025 i holi barn am:

- A ydi trigolion yn credu bod newid hinsawdd yn bwysig, ac a ddylai fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- Gynnwys y Cynllun presennol
- Cynigion ar newidiadau i'r prosiectau presennol ac ychwanegu prosiectau newydd

- Beth all Cyngor Gwynedd ei wneud er mwyn cefnogi trigolion Gwynedd i leihau allyriadau carbon?

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

Mae canlyniad yr ymgynghoriad i'w weld yn Atodiad 1, ond yn gryno mae'r canlyniadau yn dangos:

- Bod 84% o ymatebwyr yn credu bod newid hinsawdd yn bwysig iddyn nhw
- Bod 83% o ymatebwyr yn credu y dylai Cyngor Gwynedd fod yn gweithredu ar newid hinsawdd
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y Cynllun presennol yn ddealladwy, gyda gweledigaeth ac amserlen glir, a bod y nod yn ddigon uchelgeisiol (rhwng 56-75% yn cytuno gyda'r datganiadau)
- Roedd mwyafrif (52%) yn anghytuno bod y Cyngor yn gwneud digon i gefnogi trigolion i fabwysiadau arferion bywyd a gwaith cynaliadwy
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid ychwanegu 10 prosiect newydd at y Cynllun (cefnogaeth i brosiectau unigol yn amrywio rhwng 59% a 79%)
- Y prosiectau ble roedd y canrannau uchaf yn eu cefnogi oedd 'parhau i weithredu Strategaeth Llifogydd Cyngor Gwynedd' (79.5%), a 'cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy' (78.8%)
- Y prosiectau ble roedd y canrannau uchaf yn anghytuno â nhw oedd 'datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd er mwyn datblygu rhwydwaith gwefru cyhoeddus ac ar gyfer fflyd y Cyngor (21.2% yn anghytuno ond 71.2% yn cytuno) ac 'ymchwilio a mesur gwaith amsugno 'carbon glas' ar ein harfordir (20.5% yn anghytuno ond 59.6% yn cytuno)
- Y pwnc newid hinsawdd oedd uchaf ei flaenoriaeth oedd lleihau tlodi tanwydd cartrefi (63.3%)
- Y budd ychwanegol sy'n dilyn o weithredu ar newid hinsawdd oedd yn sgorio uchaf oedd 'mynediad at drafnidiaeth cyhoeddus'.

O ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, mae rhai negeseuon yn sefyll allan – mae cefnogaeth i Gyngor Gwynedd fod yn gweithredu yn y maes newid hinsawdd; mae cefnogaeth i'r newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r CAHN; mae angen i'r Cyngor fod yn gwneud mwy i helpu trigolion i fabwysiadu arferion bywyd a gwaith cynaliadwy.

**Yr addasiadau y bwriedir eu gwneud i'r Cynllun**

Ar 18 Medi 2025 bu i Bwyllgor Craffu Cymunedau'r Cyngor ystyried Adroddiad Blynyddol 2024/25 y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Yn dilyn trafodaeth eang am orffennol a dyfodol y Cynllun, argymhelliad y Pwyllgor i'r Aelod Cabinet Amgylchedd oedd – "bod angen ail-edrych ar uchelgais y Cyngor i fod yn garbon sero net erbyn 2030 a dylid ystyried gosod targed realistig ar gyfer lleihau allyriadau carbon".

Er mwyn gweithredu ar y cais yma bu'r Bwrdd Hinsawdd a Natur yn ail ystyried y CAHN yn ei gyfanrwydd unwaith eto, ond y tro yma gan herio uchelgais y Cynllun gwreiddiol, sef "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030".

Mae hwn yn uchelgais hynod heriol, yn enwedig oherwydd bod cymaint o ffactorau sy'n effeithio arno y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Un ffactor allweddol yw sut mae'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu drwy'r Grid Cenedlaethol yn cael ei gynhyrchu. Mae llywodraeth Prydain wedi cyhoeddi eu cynllun i sicrhau bod 95% o anghenion trydan Prydain yn cael eu cynhyrchu drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030 - Clean Power 2030 Action Plan - GOV.UK . Os fydd y cynllun yma'n cael ei wireddu yna bydd yn arwain yn uniongyrchol at ostyngiad sylweddol yn allyriadau carbon Cyngor Gwynedd, yn enwedig gan ein bod yn symud tuag at fflyd o gerbydau trydan ac yn trydaneiddio gwres. Yn wir, rydym yn ddibynol ar lywodraethau Prydain a Chymru yn gwireddu cynlluniau cenedlaethol o'r fath os ydym am wireddu uchelgais sero net.

Yn y cyfamser, drwy brosiectau presennol ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, rydym fel Cyngor yn paratoi er mwyn bod yn barod i fanteisio i'r eithaf ar ddarpariaeth ynni sero net. Rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn lleihau allyriadau Cwmpas 1, sef y meysydd y mae gennym reolaeth drostynt, ac wedi bod yn gwneud hynny ers dros 15 mlynedd. Bydd parhau i weithredu'r prosiectau sy'n cael eu disgrifio ym mhenodau 'Adeiladau ac Ynni' a 'Symud a Thrafnidiaeth' yn bennaf yn ein rhoi yn y sefyllfa gryfaf bosib i fanteisio ar drydan ynni adnewyddadwy pan ddaw.

**Cyllido**

Bydd gwireddu'r holl brosiectau hen a newydd sydd yng Nghynllun 2 yn galw am fuddsoddiad sylweddol uwch na'r hyn sydd ar gael i'r Cyngor ar hyn o bryd. Ein bwriad yw parhau i bwyso ar lywodraethau i gynyddu'r buddsoddiad presennol. Byddwn hefyd yn ymchwilio i bob ffynhonell bosib arall, gan gydweithio â'r sector gymunedol a sefydliadau cyhoeddus eraill er mwyn uchafu i'r eithaf yr hyn y gallwn ei gyflawni ar y cyd.

Mae grantiau Llywodraeth Cymru yn ffynhonell hanfodol i ariannu gwaith y CAHN. Grantiau cyfalaf yn hytrach na refeniw ydynt gan amlaf, ac felly mae'n haws ariannu gwaith is-adeiledd ac yn anoddach i ganfod cyllid i dalu costau rhedeg, cynnal a chadw, a chostau staffio.

Rhwng 2019/20 a 2024/25 buom yn llwyddiannus yn denu grantiau gwerth £13.5m i gefnogi gwaith y CAHN.

**Adolygu Prosiectau**

Fel y nodwyd uchod, y cam cyntaf a gymerwyd wrth adolygu'r Cynllun oedd i adolygu'r rhestrau o brosiectau ym mhenodau 8 i 14. Mae'n rhesymol bod angen addasu neu newid trywydd rhai prosiectau er mwyn ymateb i fyd sy'n newid, neu mae rhai prosiectau eraill wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac felly'n cael eu 'harchifo'.

**Prosiectau sy'n cael eu harchifo:**

1. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu
2. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon
3. Gosod ffaniau awyru EC mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol

4. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad
5. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni
6. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi
7. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol
8. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

Mae rhagor o fanylion am y rheswm dros archifo'r prosiectau yma i'w gweld yn adran 15 o'r Cynllun, ond yn gryno y rheswm mwyaf cyffredin ydi oherwydd bod nifer o brosiectau yn cael eu cyfuno gan eu bod yn gweithio tuag at yr un nod. Golyga hyn bod y gwaith yn parhau ond nad oes angen disgrifio'r gwaith fel dau brosiect ar wahân.

**Prosiectau newydd**

1. Adolygu'r potensial ar gyfer defnyddio rhwydweithiau gwres ar draws Gwynedd yn ddibynnol ar astudiaethau dichonoldeb
2. Cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy er budd cymunedau Gwynedd
3. Datblygu ac annog teithio llesol yn nalgylch ysgolion Gwynedd
4. Gweithredu Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd
5. Datblygu Strategaeth Addasu Hinsawdd a Natur
6. Staff Cyngor Gwynedd i weithredu'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy er mwyn lleihau allyriadau carbon drwy'r gadwyn gyflenwi
7. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i gymryd camau fydd yn lleihau eu allyriadau neu gynyddu lefelau amsugno carbon
8. Adnabod gwerth amsugno carbon ein safleoedd tirlenwi
9. Adnabod gwerth amsugno 'carbon glas' ar ein arfordir
10. Gweithredu Strategaeth Llifogydd Cyngor Gwynedd

Mae rhagor o fanylion am bob un o'r prosiectau uchod ym mhenodau 8-14 o'r Cynllun, gyda gwybodaeth am y rheswm dros eu cynnwys, costau, amserlen ac arbedion carbon posib.

**Mesur llwyddiant**

Byddwn yn parhau i gasglu data am allyriadau carbon blynyddol Cyngor Gwynedd a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol a'r drefn sydd yn ei lle ers 2021.

Mae'r canlyniadau hynny yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiadau blynyddol, sydd i'w gweld yma.

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus o Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd rhwng 12 Mehefin a 31 Gorffennaf 2025. Gweler ganlyniadau'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.

Defnyddiwyd ganlyniadau'r ymgynghoriad er mwyn adolygu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, fel sy'n cael ei ddisgrifio yn adran 4 uchod. Cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad a'r cynllun presennol yn ei gyfanrwydd eu hystyried gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, sef pwyllgor o swyddogion, Aelodau Cabinet, Pencampwr Bioamrywiaeth ac aelod etholedig yn cynrychioli'r pwyllgorau craffu.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Gweler 5 uchod.

A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

Mae penodau 12 ac 13 o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn adrodd ar waith sydd wedi ei gynnal yn rhannol gan Bartneriaeth Natur Gwynedd, sef consortiwm o fudiadau lleol sy'n cael eu harwain gan y Cyngor. Mae nifer o brosiectau eraill sydd yn y CAHN yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag eraill, megis prosiectau teithio llesol ar y cyd â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r adolygiad newydd o'r CAHN yn rhestru prosiectau newydd ble y bydd yn gwbl hanfodol i gydweithio â mudiadau cymunedol a trigolion er mwyn eu cyflawni – ee. 'cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy'.

Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

Un o egwyddorion sylfaenol y CAHN yw ceisio atal cynnydd pellach yn nhymheredd cyfartalog y blaned ac i gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2 oC" yn unol â Chytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig. Mae pob un o brosiectau'r cynllun yn ceisio sefydlogi neu hyd yn oed wrthdroi y siawns bod y sefyllfa bresennol yn arwain at ragor o broblemau yn y dyfodol.

Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Fel y nodwyd uchod, sail y CAHN yw ceisio atal problemau cynhesu byd eang rhag gwaethygu i'r dyfodol, ac er bod targed i'r Cyngor ei hun fod yn garbon sero net erbyn 2030 mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i Gymru gyfan fod yn sero net erbyn 2050. Mae'r CAHN felly hefyd yn cymryd i ystyriaeth y bydd newid arferion trigolion a busnesau Gwynedd yn waith hirdymor y tu hwnt i 2030.

Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Mae nifer fawr o brosiectau'r CAHN yn cael eu cynllunio neu eu gweithredu ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill neu gyda'r sector wirfoddol a chymunedau. Mae yna gydweithio parhaus gydag awdurdodau lleol eraill ar draws gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, a Trafnidiaeth i Gymru sydd wedi arwain at gynllunio a chomisiynu gwaith ar y cyd.

Mae nifer o gyrff cyhoeddus lleol gan gynnwys Cyngor Gwynedd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac un o dri Amcan Llesiant yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-2028 yw 'Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon'.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Lluniwyd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur pan y gafodd ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae'r asesiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r Adroddiad Blynyddol ar y CAHN yn ogystal.

## 8. Camau Nesaf

Ar ôl derbyn sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau bydd yr adroddiad yn cael ei ystyried gan Gabinet y Cyngor cyn i fersiwn derfynol gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 9. Atodiadau

Atodiad 1 – Canlyniadau Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Atodiad 2 – Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30 Cyngor Gwynedd: Fersiwn 2

# Canlyniadau Arolwg Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025

GWASANAETHAU CORFFORAETHOL
CYNGOR GWYNEDD

## 1. Cyflwyniad

Bydd yr adroddiad yma yn dadansoddi ymatebion i'r arolwg ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025. Lansiwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar 12 Mehefin ac roedd yn agored tan 31 Gorffennaf. Rhoddwyd yr holiadur ar wefan y Cyngor, gyda chopïau papur ar gael yn llyfrgelloedd y Sir. Cafwyd ei hyrwyddo drwy 'pop up' ar wefan y Cyngor.

## 2. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd 305 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf ohonynt (98.4%, N=300) gan unigolion, 1.3% gan sefydliad (N=4) ac 0.3% gan fusnes (N=1).

### 2.1 Ydych chi wedi darllen y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur neu wedi ymweld â'r wefan?

Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (47.9%, N=146) wedi darllen y Cynllun neu ymweld â'r wefan, tra roedd ychydig dros hanner (52.1%, N=159) ddim wedi darllen y Cynllun na ymweld â'r wefan.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi nodi eu bod wedi darllen y Cynllun neu ymweld â'r wefan ateb y cwestiwn yma:

### 2.2 Ydych chi'n cytuno neu anghytuno gyda'r isod?


Gweler o'r graff isod fod canran uwch o ymatebwyr yn cytuno gyda'r datganiadau:

- Mae'r cynllun yn hawdd i'w ddarllen;
- Mae'r cyngor yn esbonio'n glir pam fod angen cyrraedd sero net;
- Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid allanol; ac
- Mae'r weledigaeth yn ddigon uchelgeisiol.

Mae canran uwch o ymatebwyr yn anghytuno gyda'r datganiadau:

- Mae'r Cyngor yn cefnogi trigolion i fabwysiadu arferion bywyd a gwaith cynaliadwy;

- Mae gweledigaeth glir; ac
- Mae camau ac amserlen glir i gyrraedd y weledigaeth




Gweler ffigyrau manwl yn y tabl isod.

| | Cytuno | | Anghytuno | | Dim ateb | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| Mae'r cynllun yn hawdd i'w ddarllen | 110 | 75.3 | 36 | 24.7 | 0 | 0.0 |
| Mae'r Cyngor yn esbonio'n glir pam fod angen cyrraedd sero net | 108 | 74.0 | 38 | 26.0 | 0 | 0.0 |
| Mae gweledigaeth glir | 82 | 56.2 | 60 | 41.1 | 4 | 2.7 |
| Mae camau ac amserlen glir i gyrraedd y weledigaeth | 88 | 60.3 | 55 | 37.7 | 3 | 2.1 |
| Mae'r weledigaeth yn ddigon uchelgeisiol | 106 | 72.6 | 39 | 26.7 | 1 | 0.7 |
| Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid allanol | 107 | 73.3 | 37 | 25.3 | 2 | 1.4 |
| Mae'r Cyngor yn cefnogi trigolion i fabwysiadu arferion bywyd a gwaith cynaliadwy | 67 | 45.9 | 76 | 52.1 | 3 | 2.1 |

Gofynnwyd i'r ymatebwyr oedd wedi anghytuno efo unrhyw ddatganiad esbonio pam eu bod wedi anghytuno. Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 85 o'r ymatebwyr. Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion:

- Mae'r cynllun yn rhy amwys ac yn llawn geiriau

- Diffyg targedau mesuradwy a therfynau amser clir
- Cyfathrebu gwael gyda thrigolion
- Cefnogaeth gyfyngedig i drigolion fabwysiadu arferion cynaliadwy
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus ac isadeiledd beicio yn annigonol
- Gormod o ddeunydd pacio a systemau ailgylchu gwael
- Ymdrechion bioamrywiaeth yn rhy ganolog ar blannu coed
- Mae rhai ymatebwyr yn gwrthod cysyniad ar argyfwng hinsawdd
- Mae'r cynllun yn canolbwyntio gormod ar weithrediadau'r cyngor
- Mae'r ymatebwyr eisiau canllawiau cliriach a symlach


**2.3 Mae datblygiadau technoleg a llawer o newid wedi digwydd ers cychwyn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ym Mawrth 2022. Mae rhai prosiectau wedi eu cwblhau, a rhai wedi cael eu haddasu. Mae yna anghenion newydd wedi codi felly mae'r Cyngor yn cynnig ychwanegu'r prosiectau canlynol. Rhowch eich barn.**

Gweler o'r graff isod fod rhan helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynlluniau. Y cynlluniau ble roedd nifer isaf o ymatebwyr yn cytuno â nhw oedd:

- Ymchwilio a mesur gwaith amsugno 'carbon glas' ar ein harfordir (59.6%, N=87 yn cytuno); ac
- Ymchwilio i ddatblygu rhwydweithiau ar draws Gwynedd yn amodol ar gael cyllid ychwanegol (63.7%, N=93 yn cytuno).

Y cynlluniau ble roedd y nifer uchaf o ymatebwyr yn anghytuno â nhw oedd:

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd er mwyn datblygu rhwydwaith gwefru cyhoeddus ac ar gyfer fflyd y Cyngor (21.2%, N=31 yn anghytuno); ac
- Ymchwilio a mesur gwaith amsugno 'carbon glas' ar ein harfordir (20.5%, N=30 yn anghytuno)




Gweler y ffigyrau manwl yn y tabl isod.

| | Anghytuno | | Cytuno | | Dim Barn | | Dim ateb | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Ymchwilio i ddatblygu rhwydweithiau gwres ar draws Gwynedd yn amodol ar gael cyllid ychwanegol | 28 | 19.2 | 93 | 63.7 | 24 | 16.4 | 1 | 0.7 |
| Cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy | 22 | 15.1 | 115 | 78.8 | 8 | 5.5 | 1 | 0.7 |
| Datblygu ac annog teithio llesol yn nalgylch ysgolion Gwynedd | 25 | 17.7 | 105 | 71.9 | 16 | 11.0 | 0 | 0.0 |
| Datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd er mwyn datblygu rhwydwaith gwefru cyhoeddus ac ar gyfer fflyd y Cyngor | 31 | 21.2 | 104 | 71.2 | 10 | 6.8 | 1 | 0.7 |
| Datblygu Strategaeth Addasu Hinsawdd a Natur | 25 | 17.1 | 108 | 74.0 | 11 | 7.5 | 2 | 1.4 |
| Staff Cyngor Gwynedd i weithredu'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy er mwyn lleihau allyriadau carbon drwy'r gadwyn gyflenwi | 23 | 15.8 | 107 | 73.3 | 14 | 9.6 | 2 | 1.4 |
| Darparu cefnogaeth i fusnesau, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i gymryd camau fydd yn lleihau eu hallyriadau neu gynyddu lefelau amsugno carbon | 22 | 15.1 | 114 | 78.1 | 10 | 6.8 | 0 | 0.0 |
| Ymchwilio a mesur gwerth amsugno carbon ein safleoedd tirlenwi | 24 | 16.4 | 101 | 69.2 | 21 | 14.4 | 0 | 0.0 |
| Ymchwilio a mesur gwerth amsugno 'carbon glas' ar ein harfordir | 30 | 20.5 | 87 | 59.6 | 29 | 19.9 | 0 | 0.0 |
| Parhau i weithredu Strategaeth Llifogydd Cyngor Gwynedd | 16 | 11.0 | 116 | 79.5 | 13 | 8.9 | 1 | 0.7 |

Gofynnwyd i'r ymatebwyr oedd wedi anghytuno efo unrhyw un o'r cynlluniau esbonio pam eu bod wedi anghytuno. Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 61 o'r ymatebwyr. Y themâu mwyaf cyffredin yw pryderon cost, amheuaeth am newid hinsawdd, a beirniadaeth o isadeiledd cerbydau trydan. Mae yna lawer o blaid atebion ymarferol, lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus well dros brosiectau ar raddfa fawr.

Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion:

- Amheuaeth ynghylch newid hinsawdd
- Pryderon ynghylch cost / gwerth am arian
- Materion rheoli llifogydd
- Beirniadaeth ynghylch teithio llesol

- Pryderon ynghylch isadeiledd gwefru cerbydau trydan
- Amheuaeth ynghylch y rhwydwaith gwres
- Angen atebion lleol ymarferol
- Gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus
- Ymgynghoriad ar ymgysylltu cymunedol
- Gweithredu / cynllunio


**2.4 Oes prosiect neu dasg arall y dylai'r cyngor ei ychwanegu i'r cynllun?**

Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 77 o'r ymatebwyr. Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion.

- Bioamrywiaeth a chadwraeth natur – galwadau i ddiogelu bywyd gwyllt a phlannu coed
- Isadeiledd a thrafnidiaeth cerbydau trydan – yr angen am wefru cerbydau trydan dibynadwy a gwell trafnidiaeth gyhoeddus
- Gwastraff ac ailgylchu – pryderon ynghylch gwastraff plastig a systemau ailgylchu gwell
- Amheuaeth newid hinsawdd / beirniadaeth polisi – cwestiynau ynghylch polisïau net zero
- Tai a materion cymdeithasol – Datrysiadau tai fforddiadwy a digartrefedd
- Ymgysylltu â'r gymuned – mwy o gyfarfodydd cyhoeddus a chydweithio
- Ynni adnewyddadwy a thechnoleg – awgrymiadau ar gyfer prosiectau solar, gwynt, hydrogen
- Rheoli llifogydd a llygredd – gweithredu ar lygredd afonydd/môr a gwydnwch llifogydd.
- Addysg ac ymwybyddiaeth – addysg amgylcheddol ac ymgysylltu diwylliannol.
- Gweithredu / cynllunio – rhwystredigaeth gydag oedi; dewis gweithredu.

**2.5 Ydi newid hinsawdd yn bwysig i chi?**

Fel y gwelir o'r graff isod, roedd y rhan fwyaf (83.9%, N=256) o'r ymatebwyr yn nodi fod newid hinsawdd yn bwysig iddynt (pwysig iawn ac eithaf pwysig). Roedd 16.1% (N=49) o'r ymatebwyr yn nodi fod newid hinsawdd ddim yn bwysig iddynt (ddim yn bwysig iawn a ddim yn bwysig o gwbl).





Mae'r tabl isod yn manylu ar y canrannau a'r niferoedd.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Pwysig iawn | 187 | 61.3 |
| Eithaf pwysig | 69 | 22.6 |
| Ddim yn bwysig iawn | 21 | 6.9 |
| Ddim yn bwysig o gwbl | 28 | 9.2 |
| Dim barn | 0 | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

**2.6 A ddylai Cyngor Gwynedd fod yn gweithredu ar newid hinsawdd?**

Fel y gwelir o'r graff isod, roedd y rhan fwyaf (83.3%, N=254) o'r ymatebwyr yn meddwl y dylai Cyngor Gwynedd fod yn gweithredu ar newid hinsawdd, tra bod 13.4% (N=41) o'r ymatebwyr yn meddwl na ddylai fod yn gweithredu ar newid hinsawdd.





Mae'r tabl isod yn manylu ar y canrannau a'r niferoedd.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dylai | 254 | 83.3 |
| Na ddylai | 41 | 13.4 |
| Ddim yn gwybod | 7 | 2.3 |
| Dim ateb | 3 | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

**2.7 Rhowch y pynciau newid hinsawdd isod mewn trefn o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig i chi fel unigolyn.**


Roedd 229 o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn mewn ffordd oedd yn cyd-fynd â'r rheolau'r cwestiwn (e.e. dim ond wedi dewis 5 opsiwn ac wedi rhoi sgôr o 1 i 5 iddynt), felly mae'r adran nesaf yn dadansoddi'r atebion yma.

Yn gyntaf, edrychwn ar faint sydd wedi rhoi'r pynciau newid hinsawdd o fewn eu '5 uchaf' o gwbl. Gweler o'r 229 ymatebwyr, roedd 63.3% (N=145) ohonynt wedi rhoi 'Lleihau tlodi tanwydd cartrefi' o fewn eu 5 uchaf, 56.8% (N=130) wedi nodi 'Llygredd', ac 54.1% (N=124) wedi nodi 'Teithio cynaliadwy'.




| Pwnc | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Lleihau tlodi tanwydd cartrefi – e.e. gwell insiwleiddio, systemau gwresogi clyfar, offer clyfar (smart appliances), sicrhau cyflenwad ynni mwyaf fforddiadwy a chynllluniau effeithlonrwydd ynni y cartref | 145 | 63.3 |
| Llygredd (aer/plastig/gwastraff/dŵr) | 130 | 56.8 |
| Teithio cynaliadwy - trafnidiaeth gyhoeddus (bws, trên) | 124 | 54.1 |
| Gwastraff – ailgylchu a lleihau gwastraff cyffredinol | 112 | 48.9 |
| Defnydd tir cynaliadwy – cynnal cynefinoedd, gwella bioamrywiaeth, plannu coed | 109 | 47.6 |
| Amaethyddiaeth gynaliadwy (cynhyrchu cnydau ac anifeiliaid drwy ddulliau na fydd yn niweidio'r tir na'r hinsawdd i'r dyfodol | 91 | 39.7 |
| Llwybrau cerdded a beicio | 85 | 37.1 |
| Addasu i'n hinsawdd newidiol e.e. Rheoli llifogydd a thanau gwyllt | 85 | 37.1 |
| Datgarboneiddio adeiladau cyhoeddus - newid ffynhonnell ynni adeiladu o ffynhonnell tanwydd ffosil i ffynhonnell adnewyddadwy e.e. solar, gwynt, hydrobwer, a phympiau gwres | 83 | 36.2 |
| Cyfleoedd economi gylchol - caffis trwsio, ail-ddosbarthu bwyd | 58 | 25.3 |
| Rhwydweithiau gwres lleol ac ynni cymunedol | 54 | 23.6 |
| Pwyntiau gwefru i gerbydau trydan | 38 | 16.6 |
| Swyddi gwyrdd yng Ngwynedd | 28 | 12.2 |
| | | *Enwadur=229* |

Nesaf, awn i edrych ar y drefn roedd yr ymatebwyr yn rhoi'r pynciau o fewn eu 5 uchaf, ble roedd 1 yn golygu pwysicaf a 5 yn golygu lleiaf pwysig. Mae'r graff isod yn dangos fod pob categori yn dilyn y prif duedd, heblaw am 'Gwastraff', lle mae llai o bobl wedi nodi ei fod yn bwysig iddynt o gymharu â'r rhai eraill sydd wedi'u dewis fel un o'r 5 uchaf.




Roedd 76 o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn yma mewn ffordd oedd ddim yn cyd-fynd gyda rheolau'r cwestiwn (e.e. wedi dewis mwy na 5 ateb neu wedi rhoi mwy nag un o'r un sgôr), felly ni ellir eu dadansoddi gyda'r garfan uchod. Roeddem dal eisiau cynnwys eu barn, felly mae'r rhan nesaf yn nodi pa rhai o'r pynciau newid hinsawdd cafwyd eu dewis gan y 76 ymatebwyr, ond ddim yn cymryd i mewn i ystyriaeth eu sgôr.


Gweler fod trefn y pynciau yn dod allan yn eithaf tebyg i'r garfan flaenorol oedd wedi ateb y cwestiwn o fewn y rheolau, gydag eithriad o 'pwyntiau gwefru i gerbydau trydan' a 'swyddi gwyrdd yng Ngwynedd' yn uwch yn y rhestr y tro yma.

| Pwnc | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Lleihau tlodi tanwydd cartrefi - e.e. gwell insiwleiddio, systemau gwresogi clyfar, offer clyfar (smart appliances), sicrhau cyflenwad ynni mwyaf fforddiadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni'r cartref | 53 | 69.7 |
| Llygredd (aer/plastig/gwastraff/dŵr) | 56 | 73.7 |
| Teithio cynaliadwy - trafnidiaeth gyhoeddus (bws, trên) | 56 | 73.7 |
| Gwastraff – ailgylchu a lleihau gwastraff cyffredinol | 41 | 53.9 |
| Defnydd tir cynaliadwy – cynnal cynefinoedd, gwella bioamrywiaeth, plannu coed | 41 | 53.9 |
| Amaethyddiaeth gynaliadwy (cynhyrchu cnydau ac anifeiliaid drwy ddulliau na fydd yn niweidio'r tir na'r hinsawdd i'r dyfodol | 38 | 50.0 |
| Llwybrau cerdded a beicio | 44 | 57.9 |
| Addasu i'n hinsawdd newidiol e.e. Rheoli llifogydd a thanau gwyllt | 44 | 57.9 |
| Datgarboneiddio adeiladau cyhoeddus - newid ffynhonnell ynni adeiladu o ffynhonnell tanwydd ffosil i ffynhonnell adnewyddadwy e.e. solar, gwynt, hydrobwer, a phympiau gwres | 41 | 53.9 |
| Cyfleoedd economi gylchol - caffis trwsio, ail-ddosbarthu bwyd | 20 | 26.3 |
| Rhwydweithiau gwres lleol ac ynni cymunedol | 21 | 27.6 |
| Pwyntiau gwefru i gerbydau trydan | 31 | 40.8 |
| Swyddi gwyrdd yng Ngwynedd | 24 | 31.6 |
| | | *Enwadur=76* |

**2.8 Pa fuddion ychwanegol hoffech chi weld drwy weithredu ar newid hinsawdd? Rhowch y pynciau isod mewn trefn o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig i chi fel unigolyn.**


Roedd 225 o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn mewn ffordd oedd yn cyd-fynd â'r rheolau'r cwestiwn (e.e. dim ond wedi dewis 5 opsiwn ac wedi rhoi sgôr o 1 i 5 iddynt), felly mae'r adran nesaf yn dadansoddi'r atebion yma.

Yn gyntaf, edrychwn ar faint sydd wedi rhoi'r pynciau buddion ychwanegol o fewn eu '5 uchaf' o gwbl. Gweler o'r 225 ymatebwyr, roedd 73.8% (N=166) ohonynt wedi rhoi 'Mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus' o fewn eu 5 uchaf, 66.2% (N=149) wedi nodi 'Lleihau costau byw', ac 65.8% (N=148) wedi nodi 'Cefnogi'r economi leol'.




| Pwnc | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus | 166 | 73.8 |
| Lleihau costau byw | 149 | 66.2 |
| Cefnogi'r economi leol | 148 | 65.8 |
| Cydweithio cymunedol – y gallu i'r gymuned ymateb ac addasu i newid hinsawdd | 127 | 56.4 |
| Lleihau anghydraddoldeb ('Pontioteg'/just transition- fod opsiynau allyriadau isel ar gael i bawb yn gyfartal | 111 | 49.3 |
| Addysg hinsawdd ac ecoleg | 101 | 44.9 |
| Llygredd aer | 99 | 44.0 |
| Gwell mynediad at fyd natur | 94 | 41.8 |
| Gwella iechyd meddwl a lles | 87 | 38.7 |
| | | *Enwadur=225* |

Nesaf, awn i edrych ar y drefn roedd yr ymatebwyr yn rhoi'r pynciau o fewn eu 5 uchaf, ble roedd 1 yn golygu pwysicaf a 5 yn golygu lleiaf pwysig. Mae'r graff isod yn dangos bod y rhan fwyaf o'r categorïau yn dilyn yr un duedd, ond nid 'llygredd aer'. Er bod llai o bobl wedi'i ddewis yn eu 5 uchaf, mae mwy ohonynt wedi'i ddewis yn y categorïau pwysicaf (1 a 2) o gymharu â'r nifer a'i dewiswyd.




Roedd 80 o'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn yma mewn ffordd oedd ddim yn cyd-fynd gyda rheolau'r cwestiwn (e.e. wedi dewis mwy na 5 ateb neu wedi rhoi mwy nag un o'r un sgôr), felly ni ellir eu dadansoddi gyda'r garfan uchod. Roeddem dal eisiau cynnwys eu barn, felly mae'r rhan nesaf yn nodi pa rhai o'r pynciau newid hinsawdd cafwyd eu dewis gan y 80 ymatebwyr, ond ddim yn cymryd i mewn i ystyriaeth eu sgôr.

| **Pwnc** | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus | 64 | 80.0 |
| Lleihau costau byw | 68 | 85.0 |
| Cefnogi'r economi leol | 70 | 87.5 |
| Cydweithio cymunedol – y gallu i'r gymuned ymateb ac addasu i newid hinsawdd | 58 | 72.5 |
| Lleihau anghydraddoldeb ('Pontioteg'/just transition- fod opsiynau allyriadau isel ar gael i bawb yn gyfartal | 52 | 65.0 |
| Addysg hinsawdd ac ecoleg | 54 | 67.5 |
| Llygredd aer | 55 | 68.8 |
| Gwell mynediad at fyd natur | 52 | 65.0 |
| Gwella iechyd meddwl a lles | 52 | 65.0 |
| | | *Enwadur=80* |

**2.9 Unrhyw sylwadau pellach**

Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 97 o'r ymatebwyr. Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion.

- Cefnogaeth gyffredinol / blaenoriaethau lluosog
- Costau byw / pryder am fforddiadwyedd
- Amheuaeth am newid hinsawdd / gwrth net-zero
- Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni
- Teithio gweithredol (active travel) (cerdded / beicio)
- Cadwraeth natur a bioamrywiaeth
- Pryder am gostau

**2.10 Beth ydych chi'n credu bydd effaith y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w ddefnyddio a'i statws o fewn y gymuned?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (55.1%, N=168) yn meddwl y buasai'r Cynllun yn cael effaith niwtral ar y gymuned, gyda 29.2% (N=89) yn meddwl y byddai'n cael effaith gadarnhaol, ac 7.9% (N=24) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol.

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | 49 | 16.1 |
| Ychydig o effaith gadarnhaol | 40 | 13.1 |
| Niwtral | 168 | 55.1 |
| Ychydig o effaith negyddol | 5 | 1.6 |
| Effaith negyddol | 19 | 6.2 |
| Dim ateb | 24 | 7.9 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, oes yna gyfleoedd i addasu'r cynllun er mwyn cael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'i defnydd ohoni, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol?**

Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 101 o'r ymatebwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cwestiynu perthnasedd yr iaith Gymraeg i weithredu ar newid hinsawdd, neu yn amlygu cyfleoedd i gryfhau'r iaith drwy fentrau addysg, cymunedol ac economaidd. Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion.

- Amherthnasedd y Gymraeg i hinsawdd / natur

- Gwydnwch economaidd a swyddi – cynnal y Gymraeg
- Cyfleoedd i ddysgu / defnyddio'r Gymraeg – e.e. dosbarthiadau am ddim neu gysylltu dysgu'r Gymraeg â phrosiectau hinsawdd
- Pwysau tai a thwristiaeth - pryderon ynghylch ail gartrefi a thwristiaeth sy'n effeithio a chymunedau sy'n siarad Cymraeg
- Polisi addysg – materion ynghylch cau ysgolion, addysg cyfrwng Cymraeg a phynciau STEM
- Darpariaeth ddwyieithog – galwadau am adnoddau yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Mentrau cymunedol
- Gwrthwynebiad i bolisi hinsawdd.

**2.11 Beth ydych chi'n credu bydd effaith y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol?**

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (39.7%, N=121) yn meddwl byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol, 30.8% (N=94) yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral, ac 21.0% (N=64) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol.

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | 53 | 17.4 |
| Ychydig o effaith gadarnhaol | 68 | 22.3 |
| Niwtral | 94 | 30.8 |
| Ychydig o effaith negyddol | 36 | 11.8 |
| Effaith negyddol | 36 | 11.8 |
| Dim ateb | 26 | 8.5 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

**Oes gennych chi unrhyw sylwadau am eich dewis uchod?**

Roedd hwn yn gwestiwn testun rhydd. Cafwyd ymateb gan 85 o'r ymatebwyr. Dyma brif bwyntiau a themâu a godwyd o'r ymatebion.

- Costau ynni a thlodi tanwydd
- Optimistaidd / manteision
- Cludiant cyhoeddus a theithio llesol
- Amheuaeth / beirniadaeth net zero
- Cydraddoldeb a thegwch
- Natur ac iechyd
- Cartrefi ac inswleiddio

**3.0 Amdanoch chi**

Bydd yr adran yma yn edrych ar ganlyniadau 'Amdanoch chi' yr ymatebwyr, sy'n nodi eu nodweddion cydraddoldeb.

3.1 Rhyw

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dynes / Benyw | 157 | 51.5 |
| Dyn / Gwryw | 103 | 33.8 |
| Dim ateb | 26 | 8.5 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 18 | 5.9 |
| Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol | 1 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.2 Nodwch eich grŵp oedran

Roedd 54.4% (N=166) o'r ymatebwyr yn 55 oed neu drosodd.

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 15 oed neu'n iau | 0 | 0.0 |
| 16 – 24 oed | 11 | 3.6 |
| 25 – 34 oed | 17 | 5.6 |
| 35 – 44 oed | 26 | 8.5 |
| 45 – 54 oed | 42 | 13.8 |
| 55 – 64 oed | 70 | 23.0 |
| 65 – 74 oed | 72 | 23.6 |
| 75 – 84 oed | 23 | 7.5 |
| 85+ oed | 1 | 0.3 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 18 | 5.9 |
| Dim ateb | 25 | 8.2 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.3 Sut fyddech chi yn disgrifio eich sgiliau yn y Gymraeg?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl | 111 | 36.4 |

| | | |
|---|---|---|
| Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu | 45 | 14.8 |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn | 35 | 11.5 |
| Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg | 29 | 9.5 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 27 | 8.9 |
| Dim ateb | 25 | 8.2 |
| Arall | 19 | 6.2 |
| Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu | 14 | 4.6 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.4 Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymreig | 138 | 45.2 |
| Prydeinig | 79 | 25.9 |
| Seisnig | 33 | 10.8 |
| Dim ateb | 25 | 8.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 18 | 5.9 |
| Arall | 9 | 3.0 |
| Albanaidd | 3 | 1.0 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.5 Beth yw eich hil?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 245 | 80.3 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 28 | 9.2 |
| Dim ateb | 25 | 8.2 |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 5 | 1.6 |
| Arall | 2 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.6 Beth yw eich crefydd?

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dim crefydd | 128 | 42.0 |
| Cristion | 109 | 35.7 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 31 | 10.2 |
| Dim ateb | 27 | 8.9 |
| Arall | 8 | 2.6 |

| | | |
|---|---|---|
| Bwdhaidd | 1 | 0.3 |
| Iddewig | 1 | 0.3 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.7 Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau? (Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed).

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 210 | 68.9 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 44 | 14.4 |
| Dim ateb | 28 | 9.2 |
| Deurywiol (Bisexual) | 12 | 3.9 |
| Dynes hoyw / lesbiaidd | 5 | 1.6 |
| Arall | 4 | 1.3 |
| Dyn hoyw | 2 | 0.7 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.8 Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni (er enghraifft ydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb). (Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn yma os ydych o dan 16 oed).

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Nac ydi | 237 | 77.7 |
| Dim ateb | 31 | 10.2 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 30 | 9.8 |
| Ydi | 7 | 2.3 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

3.9 Mae Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod unigolyn yn anabl os:

a. Oes gan yr unigolyn hwnnw nam corfforol neu feddyliol, a
b. Bod gan y nam effaith sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Gan ddefnyddio'r diffiniad hwn, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

| | **Nifer** | **Canran** |
|---|---|---|
| Ydw | 48 | 15.7 |
| Nac ydw | 198 | 64.9 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 30 | 9.8 |
| Dim ateb | 29 | 9.5 |
| **Cyfanswm** | **305** | **100.0** |

# Canlyniadau Arolwg Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2025

Tim Ymchwil
Hydref 2025

GWASANAETHAU CORFFORAETHOL
CYNGOR GWYNEDD



# Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30

Cyngor Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Fersiwn 2

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 2
2. Adolygu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 3
3. Rhagair 4
4. Cyrraedd Sero Net 5
5. Beth yw Carbon Sero Net a Pham ei Fod yn Bwysig? 7
6. Ymateb i Effeithiau Newid Hinsawdd 9
7. Y Cynllun Hwn 11
    - Partneriaid 10
    - Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant? 11
    - Mesur ein allyriadau carbon 12
    - Cynllunio i gyrraedd carbon sero net 14
    - Cyllido 15
    - Amserlen 15
8. Adeiladau ac Ynni 17
9. Symud a Thrafnidiaeth 21
10. Gwastraff 26
11. Llywodraethu 30
12. Caffael 34
13. Defnydd Tir 37
14. Bioamrywiaeth 42
15. Prosiectau wedi eu Harchifo 45
16. Partneriaid 48
17. Strategaethau a Pholisïau 49


DRAFT

# 1. Cyflwyniad

Newid yn yr hinsawdd yw un o heriau mwyaf ein hoes, ac mae'n gofyn am weithredu ar y cyd gan bob un ohonom. O ganlyniad i'r cynnydd dramatig mewn tymheredd byd-eang a welir ers yr 1950au rydym yn gweld effeithiau difrifol megis encilio llen ia, lefelau'r môr yn codi, newid yn y tymhorau, ac mae tywydd eithafol sy'n arwain at sychder neu lifogydd yn dod yn ddigwyddiadau mwy rheolaidd. Un o'r prif gyfranwyr i'r cynnydd yma mewn tymheredd yw'r lefelau uchel o garbon a gaiff ei ryddhau i'r amgylchedd gan weithgareddau dynol.

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Cyngor Gwynedd ddatganiad ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd, gan ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon. Credwn bellach bod angen rhoi sylw cyfartal i'r argyfwng sy'n wynebu byd natur yn ogystal gan eu bod yn cyd-redeg mor agos â'i gilydd. Gall newidiadau i dymheredd a glawogydd yn sgil newid hinsawdd arwain at golli cynefinoedd byd natur, ac mae colli'r cynefinoedd hynny yn ei dro yn cynyddu'r lefelau o garbon yn yr amgylchedd. Mae'n gylch dieflig y mae'n rhaid ei dorri.

Rydym yn cydnabod mai'r nod tymor hir yw bod Cyngor Gwynedd yn cyrraedd y sefyllfa ddelfrydol o fod yn gyngor di-garbon. Er mwyn cyrraedd y fan honno, mae angen i ni gynllunio sut y byddwn yn ymateb i'r heriau o'n blaenau a sut y gallwn eu goresgyn.

Bwriad y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yw amlinellu pa gamau y byddwn yn eu cymryd er mwyn cyrraedd ein nod o fod yn gyngor carbon sero net.

DRAFT



## 2. Adolygu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Erbyn Mawrth 2026 bydd 4 mlynedd wedi pasio ers i Gyngor Gwynedd fabwysiadu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac ym mhob blwyddyn ers hynny rydym wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn pwyso a mesur ein llwyddiant yn cyflawni'r cynllun.

Yn ystod 2025/26 buom yn edrych yn fanylach ar bob agwedd o'r gwaith er mwyn gweld os ydym yn parhau ar y trywydd cywir, yntau oes angen gwneud newidiadau i'r cynllun. Yn ystod haf 2025 fe wnaethom hefyd ymgynghori'n gyhoeddus er mwyn deall beth yw blaenoriaethau trigolion Gwynedd yn y maes hinsawdd a natur, ac i holi barn am rai cynlluniau newydd i'w hystyried.

Mae amgylchiadau heddiw yn dra gwahanol i Fawrth 2022, ac mae gwleidyddiaeth rhyngwladol, datblygiadau technolegol a chostau wedi newid yn sylweddol mewn amser byr.

Mae hi'n amserol felly i ni fel Cyngor i adolygu ein cynllun er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu'n effeithiol, ac er mwyn pwyso a mesur os oes angen i ni newid yr hyn sy'n cael ei gyflawni.

Rydym wedi asesu pob un o'r prosiectau ym mhenodau 8 – 14 er mwyn gweld os ydynt yn dal yn berthnasol ac yn effeithiol. Mae'r rhan helaethaf ohonynt yn parhau yn weithredol; mae 8 ohonynt wedi eu symud i'r adran 'archif' oherwydd eu bod eisoes wedi eu gwireddu, neu maent yn dyblygu gwaith sy'n digwydd o dan brosiectau eraill; ac mae 10 cynllun wedi eu hychwanegu o'r newydd.

Mae gwaith wedi ei wneud hefyd er mwyn amcangyfrif mor gywir a phosib beth fyddai'r costau ariannol i gyflawni'r prosiectau, a faint o allyriadau carbon y byddent yn eu harbed. Mae'r wybodaeth wedi ei nodi ym mhenodau 8 i 14 ond mae gwaith pellach i'w wneud yn y dyfodol er mwyn parhau i gael ffigurau mor gywir a phosib.

Drwy ail-ymweld â chostau'r prosiectau hyn dros y flwyddyn nesaf, byddwn hefyd mewn safle llawer cryfach i fesur pryd y byddwn yn nesau at sero net.

DRAFT

# 3. Rhagair Aelod Cabinet Amgylchedd

I ddilyn yn derbyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

DRAFFT

# 4. Cyrraedd Sero Net

Rydym wedi llunio'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur er mwyn rhannu sut yr ydym am geisio cyrraedd sero net.

Mae'r uchelgais hon yn gyson â nod Llywodraeth Cymru i sector gyhoeddus Cymru ar y cyd i fod yn garbon sero net, a gellir darllen mwy am hyn yn eu dogfennau a gyhoeddwyd yn 2019 Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, ac yn 2021 Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-25).

Mae'r Llywodraeth wedi ymestyn y targed y tu hwnt i'r sector gyhoeddus gan fod Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf yr Amgylchedd) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau tŷ gwydr yng Nghymru gan o leiaf 80% erbyn 2050. Mae Deddf yr Amgylchedd hefyd yn gosod dyletswydd newydd mewn perthynas â lleihau'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, a'n gobaith yw y bydd y cynllun hwn hefyd yn cyfrannu at y nod o gynnal systemau ecolegol a bioamrywiaeth iach i'r dyfodol.

Fel pob sefydliad cyhoeddus arall yng Nghymru mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae sicrhau dyfodol iach carbon sero net am gyfrannu at bob un o'r nodau llesiant isod sy'n ganolbwynt i'r Ddeddf.




Un o'r 7 amcan llesiant yn Natganiad Llesiant Cyngor Gwynedd yw 'Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir', ac mae 'Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd' yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

DRAFT

Dylid cofio nad datganiad newydd yw ymrwymiad Cyngor Gwynedd i leihau ei ôl-troed carbon. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Rheoli Carbon cyntaf yn 2010, a’r Cynllun Rheoli Carbon 2 yn 2015. Esblygiad o’r ddau gynllun rheoli carbon felly yw’r cynllun hwn.

Dewiswyd blwyddyn 2005/6 fel blwyddyn waelodlin ar gyfer y ddau gynllun carbon, a bryd hynny roedd yr allyriadau carbon o adeiladau, goleuadau stryd, gwastraff, trafnidiaeth fflyd a busnes y cyngor yn 31,155 $tCO_2e$ (esboniad pellach ar ystyr $tCO_2e$ yn ‘Beth yw carbon sero net a pham ei fod yn bwysig’).


Ymrwymodd y cyngor i leihau allyriadau carbon o 40% erbyn 2021 o'i gymharu â data y flwyddyn waelodlin, ac yn wir fe lwyddwyd i fynd y tu hwnt i’r targed, ac i’w gyrraedd yn gynt. Erbyn 2020 roedd allyriadau’r cyngor yn 13,003 $tCO_2e$, sef gostyngiad o 58%. Mae’r fethodoleg gan Lywodraeth Cymru i fesur data y mae gofyn i ni ei dilyn bellach yn golygu bod y cyfanswm hwn wedi newid – mwy am hyn yn ‘Cynllunio i Gyrraedd Carbon Sero Net’.

Mae’r cyngor wedi ymrwymo i weithio tuag at wireddu’r uchelgais o fod yn gyngor carbon sero net ac mae’n eglur y byddwn wedi haneru ein allbwn ein hunan erbyn 2030 ac y byddwn yn parhau i leihau ein allyriadau dros y degawdau nesaf hyd nes ein bod yn cyrraedd y targed o sero net.



DRAFT

# 5. Beth yw Carbon Sero Net a Pham ei Fod yn Bwysig?




Mae'n anorfod y bydd rhywfaint o allyriadau carbon drwy weithgareddau na ellir eu hosgoi, ac felly os ydym am weld byd heb unrhyw garbon niweidiol yn yr atmosffer yna mae'n rhaid difa'r carbon hwnnw neu ei dynnu o'r atmosffer a'i storio'n ddiogel. Dyma a olygir wrth ddefnyddio'r term 'amsugno carbon' (*sequestration*). Mae gwaith ymchwil a thechnoleg newydd yn cael ei ddatblygu er mwyn ceisio storio carbon, ond y dulliau mwyaf effeithiol ar hyn o bryd yw'r dulliau naturiol ble mae'r carbon yn cael ei amsugno a'i storio mewn coed, planhigion, tiroedd a phlancton.

Os ydi cyfanswm y carbon sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer yn gyfwerth â'r carbon sy'n cael ei amsugno yn ôl i'r ddaear yna rydym wedi cyrraedd sefyllfa o fod yn 'garbon sero net' (gelwir hefyd yn 'carbon niwtral').

### Pam bod angen cyrraedd nod o garbon sero net?

Cynnydd yn y lefelau o nwyon tŷ gwydr (NTG) yn yr atmosffer yw'r prif reswm pam fod tymheredd cyfartalog y blaned wedi cynyddu, yn enwedig dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Mae'r ddau graff isod yn dangos tymheredd cyfartalog fesul blwyddyn er gyfer y byd yn gyfan, ac ar gyfer Cymru:

**Tymheredd cyfartalog y byd 1850 – 2020**




**Tymheredd cyfartalog Cymru 1884 – 2020**



(Graddfeydd o: glas – oer / coch – poeth)

Yn ei dro, mae cynnydd mewn tymheredd yn arwain at effeithiau pellgyrhaeddol sy'n hynod niweidiol i'r amgylchedd, byd natur ac i ni fel pobl. Mae'r tymheredd cyfartalog ym Mhrydain bellach 1°C yn uwch nag yr oedd ganrif yn ôl, ac mae lefelau'r môr yn codi 3mm bob blwyddyn (UK Climate Change Risk Assessment 2017: HMGovernment). Er nad yw'n ymddangos yn gynnydd mawr, dylid

DRAFT

cofio bod y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) yn datgan y bydd pryfed, sy'n hanfodol ar gyfer peillio cnydau a phlanhigion, yn colli hanner eu cynefinoedd gyda chynnydd o 1.5°C, ond mae hyn bron ddwywaith yn fwy tebygol gyda chynnydd o 2°C. Byddai cynnydd o 1.5°C yn arwain at gynnydd yn lefelau y môr fyddai'n effeithio ar 6 miliwn o bobl sy'n byw mewn ardaloedd arfordirol ar draws y byd, ond byddai cynnydd o 2°C yn effeithio ar 10 miliwn o bobl.

Cafodd y targed o gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2°C" o'i gymharu â lefelau cyn-ddiwydiannol ei osod fel rhan o Gytundeb Paris 2015 y Cenhedloedd Unedig, a'i atgyfnerthu ymhellach yng nghynhadledd COP26 fis Tachwedd 2021. Mae'r *COP26: The Glasgow Climate Pact* yn datgan:

"*The aim of the UK COP26 Presidency was to keep alive the hope of limiting the rise in global temperature to 1.5C, and the Glasgow Climate Pact does just that. Combined with increased ambition and action from countries, 1.5C remains in sight, but it will only be achieved if every country delivers on what they have pledged*".

Er bod amrywiaethau bychan rhwng y ddau ddarlun llinell amser o gynhesu'r byd a chynhesu Cymru uchod, maent yn dangos yn glir bod y tueddiad tuag at fyd cynhesach yn 2020 yr un mor wir yma yng Nghymru ag yr oedd ar gyfer gweddill y byd. Mae'r angen i gadw'r cynnydd mewn tymheredd i 1.5°C neu is, ac i leihau effaith newid hinsawdd sydd eisoes wedi digwydd felly yr un mor bwysig yma yng Nghymru ag ydyw yng nghoedwigoedd yr Amazon a sychdiroedd Awstralia.

Os mai cynnydd mewn nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer yw'r prif reswm dros y cynnydd mewn tymheredd, yna mae'n dilyn bod angen gostwng lefelau'r nwyon er mwyn rhwystro unrhyw gynnydd pellach mewn tymheredd. Y 3 nwy tŷ gwydr sy'n cael yr effaith fwyaf ar newid hinsawdd yw:

**Nwyon tŷ gwydr fwyaf niweidiol -**

- Carbon Deuocsid ($CO_2$)
- Methan ($CH_4$)
- Ocsid Nitrus ($N_2O$)

...gyda'i gilydd yn cael eu mesur fel un uned, a elwir $CO_2$e

**Dull o fesur allyriadau carbon –**

- Fesul kg – kg$CO_2$e
- Fesul tunnell – t$CO_2$e

Mae 'rhyddhau nwyon tŷ gwydr' fel arfer yn cael ei alw'n 'allyriadau carbon', ac felly wrth ddefnyddio geirfa fel 'lleihau carbon' yr hyn a olygir yw gostwng lefelau'r holl nwyon tŷ gwydr, ac nid carbon deuocsid yn unig.

Er mwyn bod yn gyson â dulliau mesur ac adrodd data Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Prydain a'r IPCC, bydd y cynllun hwn yn defnyddio'r termau 'allyriadau carbon', '$CO_2$e' a 'carbon sero net'.

DRAFT

# 6. Ymateb i Effeithiau Newid Hinsawdd

Hyd yma rydym wedi ystyried pwysigrwydd arafu neu stopio'r broses o gynhesu byd eang heddiw ac i'r dyfodol, ond beth am yr effaith y mae newid hinsawdd o'r gorffennol eisoes yn ei gael arnom ni yma yng Ngwynedd?

Mae **addasu** i effeithiau newid hinsawdd sydd eisoes mewn lle yn gwbl angenrheidiol, yn aml er mwyn diogelu pobl. Mae'r argraffiad newydd hwn o'r cynllun yn rhoi rhagor o bwyslais ar wneud gwaith i addasu i newid hinsawdd (*climate adaptation* yw'r term a ddefnyddir yn Saesneg fel arfer).

Mae'r consensws gwyddonol, wedi'i lywio'n bennaf gan Amcanestyniadau Newid Hinsawdd y DU 2018 (UKCP18), yn nodi dyfodol o hafau poethach, sychach a gaeafau cynhesach, gwlypach, ynghyd â mwy o amlder o ddigwyddiadau tywydd eithafol a lefelau'r môr yn codi. Gall hyn arwain at ganlyniadau dinistriol i bobl, cartrefi, natur a thir amaethyddol.

Un o gamau gweithredu 2026/27 yw llunio Asesiad Risg Newid Hinsawdd rhanbarthol i ogledd Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, a bydd yr asesiad terfynol yn rhoi disgrifiad i ni o'r risgiau pennaf sy'n wynebu pobl a thiroedd Gwynedd oherwydd effeithiau newid hinsawdd.

Y cam cyntaf yw adnabod y risg, a'r cam dilynol yw gweithredu i leihau'r effaith.

## Llifogydd

### Yr Arfordir

Mae arfordir Gwynedd yn un o'i hatyniadau mwyaf, ond mae oblygiadau mawr i warchod a chynnal yr 180 milltir hwn o arfordir. Mae'r cyfrifoldeb am warchod yr arfordir ac ymateb i lifogydd yn cael ei rannu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd. Yn hydref 2020 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (FCERM), a'i nod yw lleihau'r risgiau i bobl a chymunedau gan lifogydd ac erydu arfordirol. Mae hon yn strategaeth ddeg mlynedd ac rydym fel cyngor wedi ymrwymo i'w gweithredu, a dyma felly sy'n llywio ein gwaith i'r dyfodol.

DRAFT

## Y Mewndir

Fel Awdurdod Llifogydd Arweiniol Lleol, mae gennym fel cyngor gyfrifoldeb i reoli perygl llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear ac o nentydd llai a elwir yn gyrsiau dŵr cyffredin. Yn unol â'r cyfrifoldeb hwn, rydym wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol eraill er mwyn llunio Strategaeth Llifogydd Lleol i Wynedd.



DRAFT

# 7. Y Cynllun Hwn

Mae'r cynllun hwn yn gosod uchelgais carbon sero net ar gyfer y gweithgareddau yr ydym ni fel Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdanynt.

Rydym yn bwriadu gwella y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau ac yn rhedeg ein sefydliad, a byddwn yn gallu mesur hynny gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith o dan ein rheolaeth. Bydd y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur felly yn cynnwys y camau y bwriadwn eu cymryd er mwyn newid y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu'n uniongyrchol, ac i gydweithio neu gefnogi eraill i weithio tuag at yr un nod.

Mae'r gweithgareddau a'r prosiectau y byddwn yn eu gweithredu, os y cawn gyllid digonol, er mwyn ceisio dod yn gyngor carbon sero net wedi eu rhestru o dan y themâu: Adeiladau ac Ynni, Symud a Thrafnidiaeth, Gwastraff, Llywodraethu, Caffael, Defnydd Tir, Bioamrywiaeth, ac oll i'w gweld ym mhenodau 8-14.

Mae yna sialens sylweddol er mwyn cyrraedd ein uchelgais o garbon sero net, ac rydym yn onest wrth ddarogan nad ydi'r atebion i gyd gennym ni ar hyn o bryd. Bydd angen rhagor o waith gennym ni ac eraill er mwyn canfod y dulliau mwyaf effeithiol a llwyddiannus o weithredu mewn rhai meysydd. Mae'n hanfodol, felly, i fod â meddwl agored er mwyn dysgu am ddatblygiadau newydd yn y maes, ac i addasu'r cynllun a'n ffordd o weithio os y daw tystiolaeth gadarn i'r amlwg sy'n cyfiawnhau hynny.

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur felly'n ddogfen sy'n cael ei datblygu a'i haddasu'n rheolaidd. Hon yw'r ail fersiwn o'r cynllun yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fersiwn wreiddiol.

Mae yna nifer o weithgareddau yr ydym yn credu sydd angen eu cyflawni ond nad oes gennym fawr o reolaeth drostynt, neu nad oes gennym y cyllid ar hyn o bryd i'w gwireddu. Bydd angen adnoddau i gyfarch ein gweledigaeth, a gobeithio y daw mwy o gyfleon gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill i sicrhau adnodd digonol.

Fe wnawn gydweithio a chyfrannu at wireddu cynlluniau uchelgeisiol, ond fedrwn ni ddim eu cyflawni ar ein pen ein hunain.

## Partneriaid

Bydd hi'n amhosib i ni fel cyngor gyrraedd yr uchelgais heb weithio mewn partneriaeth gydag ystod eang o unigolion a sefydliadau. Rydym yn darparu gwasanaethau ar gyfer, ac ar y cyd, â chymaint o bobl eraill, felly mae'n gwbl angenrheidiol i ni gydweithio er lles pawb. Byddwn yn ceisio, hyd eithaf ein gallu, i ddylanwadu ar unigolion a sefydliadau eraill i ddod efo ni ar y daith. Byddwn yn ymgynghori â'n partneriaid ac â chymunedau Gwynedd er mwyn mesur llwyddiant y cynllun hwn ac er mwyn gweld sut y gallwn eu

DRAFT

cefnogi er mwyn iddynt hwythau weithredu mor 'garbon isel' a phosib.

Mae rhestr o'n partneriaid i'w weld yn Mhennod 16. Nid yw'n holl gynhwysfawr, nac mewn trefn blaenoriaeth, ac rydym yn agored i drafod gydag unrhyw bartner sydd hefyd yn rhannu ein uchelgais.

## Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant?

Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy drefniadau monitro perfformiad mewnol y Cyngor, a bydd gwybodaeth am ddatblygiad y cynllun yn cael ei rannu'n gyhoeddus drwy Adroddiadau Perfformiad Aelodau Cabinet ac Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur i gyfarfodydd Craffu.

Mae gennym Fwrdd Newid Hinsawdd sy'n rhoi arweiniad strategol i'r gwaith, ac mae'n cynnwys Arweinydd y Cyngor, Aelodau Cabinet, Prif Weithredwr, Prif Swyddogion, Pencampwr Bioamrywiaeth a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Un elfen o'r monitro rheolaidd yw casglu data ar lefelau allyriadau ac amsugno carbon, a byddwn yn gwneud hynny drwy ddilyn methodoleg Llywodraeth Cymru (Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-net). Bydd canlyniadau data blynyddol yn rhan o Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac yn dilyn eu cyhoeddi byddwn hefyd yn adolygu'r cynllun hwn er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd cywir neu i wneud newidiadau yn ôl yr angen.

Mae'r data ar allyriadau carbon yn cael ei gasglu i fesur gweithgarwch mewn 3 maes, neu 'gwmpas' (*scope* a ddefnyddir yn Saesneg):

**Cwmpas 1** – Allyriadau Uniongyrchol

ee. cynhyrchu trydan a gwres gydag offer sy'n berchen neu'n cael ei reoli gan y Cyngor megis boeleri; teithio mewn cerbydau sy'n berchen i'r Cyngor.

**Cwmpas 2** – Allyriadau Anuniongyrchol o Ynni

ee. trydan, gwres neu systemau oeri sydd wedi eu cynhyrchu gan drydydd parti ond sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor.

**Cwmpas 3** - Allyriadau Anuniongyrchol

ee. nwyddau sy'n cael eu creu gan drydydd parti a'u prynu gan y Cyngor; staff yn teithio i'r gwaith neu'n defnyddio eu ceir eu hunain i deithio ar fusnes.

Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cyd-redeg â nifer o strategaethau a pholisïau eraill y cyngor, ac yn wir mae'n hanfodol bod egwyddorion y cynllun hwn yn cael eu gwreiddio ar draws holl waith y cyngor. Bydd nifer o'r camau gweithredu ar gyfer y dyfodol, o bosib, yn eistedd hefyd mewn strategaethau neu gynlluniau gweithredu eraill. Mae rhestr gyfredol o'r rhain i'w gweld ym Mhennod 17, ond mae hi'n rhestr all newid yn gyson.

DRAFT

## Mesur allyriadau ac amsugno carbon

Fel y nodwyd eisoes, fyddwn ni ddim yn gwybod os ydym wedi lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu'r capasiti amsugno carbon heblaw ein bod yn mesur hynny'n rheolaidd a'i gymharu yn erbyn ein man cychwyn.

Nid tasg newydd yw hon i ni fel cyngor chwaith. Fel y nodwyd eisoes, bu gan y cyngor ddau Gynllun Rheoli Carbon ers 2010, a buont yn llwyddiannus iawn gan i ni ostwng ein allyriadau carbon o 58% rhwng 2005/06 a 2019/20, gan ddod a'r cyfanswm i lawr i 13,003 t$CO_2$e. Mae'r llwyddiannau yn cynnwys newid 90% hyd yma o oleuadau stryd i lanteri LED, insiwleiddio adeiladau neu gosod paneli solar PV.

Mae'r allyriadau carbon yr oeddem yn eu mesur o dan y ddau Gynllun Rheoli Carbon yn dod o'n adeiladau, goleuadau stryd, gwastraff yr oedd y cyngor yn ei gynhyrchu, fflyd y cyngor a theithio busnes gan staff. Erbyn heddiw mae gofyn i bob cyngor ddilyn methodoleg casglu data sydd wedi ei osod gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu bod gofyn i ni fesur llawer iawn mwy o weithgareddau yn ychwanegol i'r hyn yr oeddem yn ei fesur hyd at 2019 – ee. defnydd dŵr; biomas; allyriadau ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi (ffynnon i danc); cymudo staff; gweithio o gartref; allyriadau sy'n deillio o'r broses o greu cynnyrch neu wasanaeth yr ydym wedyn yn ei brynu (caffael); a chawn ni ddim hawlio credyd am ynni PV sy'n cael ei allforio i'r Grid Cenedlaethol.

Er mai nid y cyngor sy'n rheoli nifer o'r gweithgareddau ychwanegol yma, mae gofyn i ni bellach adrodd ar yr holl allyriadau carbon sy'n deillio ohonynt.

Mae allyriadau carbon ar gyfer y maes caffael yn cael eu mesur ar sail gwerth ariannol y cynnyrch neu'r gwasanaeth yr ydym wedi ei brynu. Yn syml, po fwyaf y byddwn yn ei wario po fwyaf fydd yr allyriadau carbon – heb ystyried beth ydyw na sut mae'r cynnyrch yn cael ei greu.

Mae'n anorfod y bydd y data newydd yr ydym yn ei gasglu felly lawer yn uwch na'r hyn a gasglwyd o dan y Cynlluniau Rheoli Carbon.

Mae'r tabl nesaf yn dangos y data a gasglwyd ar gyfer ein gwaelodlin yn 2019/20 a blwyddyn 2025/26 gan ddilyn methodoleg Llywodraeth Cymru:

DRAFT

## Cyfanswm Allyriadau Carbon Gweithredol:

| | 2019/20 Cyfanswm $tCO_2e$ | 2025/26 Cyfanswm $tCO_2e$ |
|---|---|---|
| Adeiladau a PV (ffotovoltaig) | 11,549 | 9,964 |
| Goleuo stryd | 1,101 | 704 |
| Fflyd | 5,145 | 5,225 |
| Gwastraff | 7,331 | |
| Teithio busnes | 1,944 | 1,283 |
| Cymudo staff | 5,623 | 3,723 |
| Gweithio o gartref | | 358 |
| **Cyfanswm** | **32,693** | **21,255** |
| Caffael | 40,639 | 54,726 |
| **Cyfanswm yn cynnwys caffael** | **73,332** | **75,980** |

## Mesur cyfanswm amsugno carbon

Rydym hefyd yn dilyn methodoleg Llywodraeth Cymru er mwyn mesur cyfanswm y carbon y gall y tiroedd sy'n berchen i'r cyngor ei amsugno. Mae'r siart isod yn dangos y mathau o diroedd gwahanol sy'n cael ei fesur, a chyfanswm y carbon y maent yn ei amsugno.

| **Tiroedd** | **2019/20 Cyfanswm $tCO_2e$** | **2024/25 Cyfanswm $tCO_2e$** |
|---|---|---|
| Coedlannau<br>Glaswelltiroedd<br>Gwlypdiroedd<br>Aneddiadau | **5,893*** | **3,123** |

*seiliedig ar ffigwr 2020/21.

**Bwlch sydd angen ei gau er mwyn cyrraedd carbon sero net**:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2019/20 | 32,693 – 5,893 = | **26,800 $tCO_2e$** | (67,439 $tCO_2e$ gydag effaith caffael) |
| 2024/25 | 21,255 – 3,123 = | **18,132 $tCO_2e$** | (72,857 $tCO_2e$ gydag effaith caffael) |

DRAFT

## Cynllunio i gyrraedd carbon sero net

Bydd angen, felly, i ni gau'r bwlch o oddeutu 18,132 t$CO_2$e drwy gyfuniad o leihau ein allyriadau a chynyddu'r capasiti amsugno.

Er bod potensial i gynyddu'r capasiti amsugno (mwy am hyn yn 13. **Defnydd Tir**) mae'n wir bod angen canolbwyntio ar leihau'n sylweddol ein allyriadau, ac mae'r gweithgareddau a'r prosiectau y byddwn yn eu rhedeg wedi eu disgrifio yn y penodau canlynol (cwmpasau 1 & 2 yn bennaf):

8. **Adeiladau ac Ynni**

9. **Symud a Thrafnidiaeth**

10. **Gwastraff**

Gallwn gefnogi'r holl waith yn y meysydd uchod drwy gryfhau ein trefniadau mewnol ein hunain, ac mae rhagor o wybodaeth am hyn yn y bennod 11. **Llywodraethu**.

Mae'r bennod 12. **Caffael** yn amlinellu ein cynlluniau i gychwyn mynd i'r afael â heriau sylweddol lleihau allyriadau carbon o fewn y gadwyn cyflenwi, sef y nwyddau neu'r gwasanaethau y mae angen i'r cyngor eu prynu i mewn (cwmpas 3).

Yn olaf, mae'r penodau 13. **Defnydd Tir** ac 14. **Bioamrywiaeth** yn amlinellu ein cyfrifoldeb i ddefnyddio ein tir i orau ein gallu er mwyn amsugno carbon allan o'r atmosffer, ac i gynnal byd natur a chynyddu bioamrywiaeth er mwyn creu Gwynedd werdd i'r dyfodol.



DRAFT

## Cyllido

Mae Adran 7. **Y Cynllun Hwn** eisoes wedi esbonio nad oes gennym ar hyn o bryd gyfanswm yr arian y bydd ei angen er mwyn gwireddu'r holl brosiectau yn y cynllun hwn yn llawn. Mae yna rai prosiectau sydd eisoes wedi cychwyn ac felly rydym wedi gallu cyfrifo costau, tra mae yna brosiectau eraill y gallwn eu datblygu'n rhannol, a cheisio am gyllid pellach i'w gwireddu'n llawn. Mae prosiectau eraill sy'n ddibynnol ar barhad cynlluniau grant.

Mae yna hefyd rai prosiectau nad ydym, am wahanol resymau, yn gwybod ar hyn o bryd beth fydd eu cost yn llawn. Bydd angen i ni wneud gwaith pellach, neu gydweithio ag eraill, er mwyn prisio'r prosiectau hynny.

Wedi dweud hynny, nid yw'n sefyllfa gyllido bresennol yn ein rhwystro rhag cychwyn gweithredu'r prosiectau sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun hwn. Mae yna wybodaeth am y cyllidebau tybiedig y bydd eu hangen ym mhenodau 8-14.

## Amserlen

Mae penodau 8-14 yn rhestru'r prosiectau yn byddwn am eu gweithredu ac yn gosod amserlen er mwyn gwneud hynny. Dyma esboniad:

| | | |
|---|---|---|
| Tymor byr | 2026/27 | Blwyddyn 1 |
| Tymor canolig | 2026/27 – 2028/29 | Blwyddyn 1 - 3 |
| Tymor hir | 2026/27 – 2029/30 | Blwyddyn 1 - 4 |

DRAFT

# 8. Adeiladau ac Ynni

Wrth i Gynllun Rheoli Carbon 2 ddod i'w ddiwedd yn 2020 fe benodwyd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) i asesu'r cyfleoedd allweddol i leihau carbon ar draws ystâd y cyngor. Cynhaliwyd adolygiad pen desg o'r arferion rheoli ynni presennol ynghyd â dadansoddiad meintiol o effeithlonrwydd yr adeiladau hynny sy'n eiddo i'r cyngor, a'r potensial pellach i arbed ynni/allyriadau carbon a chost.

Roedd ein allyriadau carbon o'n hadeiladau a PV yn 2019/20 yn 11,549 $tCO_2e$. Bydd y prosiectau canlynol yn cyfrannu at leihau'r ffigwr hwn, ond mae angen buddsoddiad ariannol sylweddol ym mhob maes er mwyn dod a'r ffigwr hwn i lawr i sero a thu hwnt.

### Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

### Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Amcangyfrif Costau £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.1 | Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau | Llunio polisi fydd yn rhoi arweiniad ar gyfer isafswm y safonau technegol ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau newydd neu wrth osod estyniad i adeilad. | Tymor byr, yna parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim effaith uniongyrchol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Byddwn yn prisio gwaith gan ddilyn 'cylch bywyd llawn' (gweler hefyd 7.6) | | | |
| 7.2 | Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE, a lleihau gwastraff ynni drwy ddefnyddio'r system Monitro a Thargedu | Cynllunio a gweithredu rhaglen waith i uwchraddio adeiladau a pharhau i ddefnyddio'r system monitro defnydd ynni – M&T – er mwyn adnabod achosion o wastraff ynni, gan arwain at arbedion ariannol a charbon | Tymor byr, yna parhaus | Arbediad -225,000 | 488 |
| 7.3 | Datgarboneiddio cyflenwad trydan y cyngor | Parhau i dderbyn cyflenwad trydan gan ddarparwr sy'n cynnig ynni wedi ei gynhyrchu drwy brosesau adnewyddadwy | Tymor byr | Cost niwtral | Arbedion carbon ddim yn cael eu cyfri fel rhan o ôl-troed carbon y Cyngor |
| 7.5 | Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o PV i greu ynni adnewyddadwy | Ymestyn ein rhaglen bresennol o osod systemau PV (neu baneli solar) ar ragor o asedau'r cyngor. Byddwn yn llunio achosion busnes fesul ased/adeilad, ond gallent gynnwys swyddfeydd, ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden a meysydd parcio | Tymor canolig | £££ | 7,234 |
| 7.6 | Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel *Passivhaus* wrth addasu un o adeiladau'r Cyngor | Prosiect peilot i addasu un o safleoedd y Cyngor (cartref gofal Plas Ogwen) gan ddefnyddio technegau *Passivhaus,* yna gwerthuso'r canlyniadau yn nhermau lleihau carbon a chostau rhedeg | Tymor byr | £££ | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 7.7 | Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am | Drwy ddarpariaeth 'siop un stop' ar gyfer materion tai ar wefan y cyngor byddwn yn | Tymor byr yna parhaus | £ | Dim effaith uniongyrchol |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref | hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i arbed ynni a chostau drwy ddefnyddio dulliau carbon isel o adeiladu a gwresogi cartrefi er mwyn ceisio osgoi tlodi tanwydd.<br>Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â mudiadau cymunedol sy'n darparu cefnogaeth debyg er mwyn lledaenu'r neges mor eang a phosibl | | | |
| 7.8 | Gwella ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl. | Mae llawer iawn o waith eisoes wedi ei gyflawni yn y maes hwn (ee. insiwleiddio, ffenestri triphlyg) ond mae angen parhau â'r gwaith, yn enwedig ar safleoedd ble mae bwriad gosod pympiau gwres | Parhaus | ££ | 4,120 |
| 7.12 | Uwchraddio goleuadau yn ein adeiladau i osodiadau LED | Gwerthuso prosiect peilot i osod goleuadau mewn canolfannau hamdden cyn ymestyn y dechnoleg i weddill ystad y Cyngor | Tymor canolig | ££££ | 254 |
| 7.14 | Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig | Gweithredu yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Diwygiedig a'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy neu garbon isel, cadwraeth dŵr, a gwarchod bioamrywiaeth | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dibynnol ar y ceisiadau a fyddai wedi eu cyflwyno |
| 7.16 | Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl | Gweithredu'r Polisi Ynni a'r Polisi Gwresogi a sicrhau bod 'nwyddau gwyn' a brynir o safon A+++. | Parhaus | ££ | Dibynnol ar faint o offer sy'n cael ei brynu/llogi |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Wrth logi offer trydanol bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i offer sydd yn cael ei ddiffodd pan nad yw'n cael ei ddefnyddio | | | |
| 7.17 | Cefnogi y Cynllun Ynni Ardal Leol er mwyn dadgarboneiddio'r systemau ynni yng Ngwynedd | | Tymor byr | £££££ | Dibynnol ar sawl prosiect fydd yn cael eu gwireddu |
| 7.18 | Adolygu’r potensial ar gyfer defnyddio rhwydweithiau gwres ar draws Gwynedd yn ddibynnol ar astudiaethau dichonoldeb | Mae’r prosiect hwn yn rhan o Gynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd ac yn ddibynnol ar dderbyn cyllid ychwanegol | Tymor hir | £ - £££££ | Dibynnol ar sawl prosiect fydd yn cael eu gwireddu |
| 7.19 | Cydweithio gyda mudiadau cymunedol er mwyn cynhyrchu a dosbarthu ynni adnewyddadwy er budd cymunedau Gwynedd | Mae’r prosiect hwn yn rhan o Gynllun Ynni Ardal Leol Gwynedd ac yn ddibynnol ar dderbyn cyllid ychwanegol | Tymor hir | £ - £££££ | Dibynnol ar sawl prosiect fydd yn cael eu gwireddu |

DRAFT

# 9. Symud a Thrafnidiaeth

Mae yna botensial mawr i'r cyngor leihau yr allyriadau carbon yr ydym yn ei greu drwy ein fflyd o gerbydau ein hunain, ac rydym wedi comisiynu astudiaethau er mwyn rhoi arweiniad i ni ar ba gerbydau i'w prynu, a hynny mewn byd ble mae technoleg yn newid mor gyflym. Rydym yn bwriadu symud tuag at fod â fflyd o gerbydau ULEV (Ultra-low Emission Vehicle).

Roedd ein allyriadau carbon o'n fflyd (sy'n cynnwys cerbydau casglu gwastraff ac ailgylchu) yn 2019/20 yn 5,145 $tCO_2e$, ac roedd yr allyriadau o deithiau busnes yn 1,944 $tCO_2e$. Mae'r ddau yma o fewn cwmpas mesur 2, ond mae cyfanswm yr allyriadau o deithiau cymudo staff (cwmpas 3) yn 5,623 $tCO_2e$.

Bydd y prosiectau canlynol yn cyfrannu'n helaeth at ostwng yr allyriadau hyn, ac mae nifer ohonynt yn cael eu rhedeg ochr yn ochr â chynlluniau ynni fydd yn cynyddu ein capasiti i gynhyrchu ynni ein hunain (ee. fferm solar) neu'n ddibynnol ar ehangu rhwydweithiau ynni rhanbarthol a chenedlaethol.

### Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

### Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Amcangyfrif Costau £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.1 | Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV | Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Werdd y Fflyd, gan brynu cerbydau newydd pan fydd cyflenwadau ar gael | Tymor byr | £££ | 877 |
| 8.2 | Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor | Parhau'r gyda'r rhaglen bresennol i osod pwyntiau gwefru er mwyn cynnal fflyd werdd y Cyngor<br>Datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd | Tymor byr | £££ | Arbedion i'w cael drwy'r fflyd |
| 8.3 | Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor | Rydym yn ddibynnol ar ddatblygiadau technoleg newydd a'r ddarpariaeth gan gynhyrchwyr cerbydau.<br>Yn y cyfamser byddwn yn treialu cerbydau ysgubo a cherbydau graeanu trwm trydan er mwyn symud oddi wrth ddefnyddio cerbydau tanwydd ffosil. Byddwn hefyd yn cydweithio ag Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n ymchwilio i ddatblygiad hydrogen fel ynni ar gyfer trafnidiaeth | Tymor hir | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.4 | Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd | Byddwn yn gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws Gwynedd at ddefnydd trigolion ac ymwelwyr, yn ddibynnol ar dderbyn cyllid ychwanegol<br>Datblygu a gweithredu Strategaeth Gwefru Cyngor Gwynedd | Tymor byr | ££ | Dim arbedion uniongyrchol i'r Cyngor oni bai eu bod yn cael eu defnyddio gan gerbydau fflyd |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.5 | Lleihau teithio busnes | Byddwn yn parhau i annog staff ac aelodau etholedig i flaenoriaethu cynnal cyfarfodydd yn rhithiol, ac i leihau i'r isafswm yr achlysuron ble mae angen teithio mewn car.<br><br>Byddwn hefyd yn gweithio tuag at sefyllfa ble bydd teithiau busnes yn cael eu cynnal drwy dduliau teithio llesol neu gan ddefnyddio fflyd cerbydau trydan y Cyngor, yn hytrach na defnydd o gerbydau personol | Tymor hir | Gall fod hyd at -550,000 o arbedion ariannol, ond angen cynnal gwaith pellach | Gall fod hyd at 445, ond angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.6 | Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff | Byddwn yn gweithredu ein Siarter Teithio Llesol.<br><br>Mae'r cyngor wedi creu partneriaeth gyda chwmni Tusker er mwyn cynnig cynllun 'ceir gwyrdd', gyda'r rhan fwyaf o staff y Cyngor yn gymwys i gymryd rhan. Mae'r cynllun yn caniatáu i staff yrru car trydan newydd sbon, gan gynnwys y gost o gynnal a chadw ac yswiriant am hyd at dair blynedd am swm misol sefydlog.<br><br>Byddwn yn hyrwyddo'r opsiwn hwn i ddod yn berchen ar gar trydan, yn enwedig pan fydd pwyntiau gwefru wedi eu lleoli ar stad y cyngor.<br><br>Byddwn hefyd yn annog staff i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu i gerdded neu feicio i'w lleoliad gwaith ble fo'n bosib | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.7 | Annog teithio llesol a chynaliadwy ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon | Byddwn yn gweithredu ein Siarter Teithio Llesol.<br><br>Mae'r cyngor wedi creu partneriaeth gyda 11 cwmni yng Ngwynedd i gynnig opsiwn i'r rhan fwyaf o staff fedru llogi beic, sy'n cynnwys beic trydan, ar yr amod bod y beic yn cael ei ddefnyddio 50% o'r amser at ddefnydd cymudo i'r gwaith. Byddai'r beic wedyn ar gael at ddefnydd hamdden yn ogystal gan ddod a budd iechyd a lles ychwanegol i'n staff | Parhaus | £ | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 8.8 | Annog teithio llesol a chynaliadwy ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr | Mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn nifer o lwybrau beicio newydd dros y blynyddoedd diwethaf, a byddwn yn hyrwyddo'r rhwydwaith yma o lwybrau er mwyn annog trigolion i'w defnyddio i feicio neu gerdded i'r gwaith, i siopa, neu i ymarfer corff.<br><br>Byddwn hefyd yn annog ac yn amlygu'r cyfleoedd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio wrth i ni ddatblygu strategaeth twristiaeth gynaliadwy | Parhaus | ££ | Dim arbedion uniongyrchol i'r Cyngor |
| 8.9 | Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr | Cydweithio â Pharc Cenedlaethol Eryri ar gynllun teithio ar gyfer mannau poblogaidd – ee. troed yr Wyddfa, Dyffryn Ogwen – er mwyn lleihau teithiau ceir ac annog defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus | Tymor byr | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Dim arbedion uniongyrchol i'r Cyngor |



DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.10 | Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu isadeiledd pwyntiau gwefru | Cefnogi a chydweithio gyda mudiadau cymunedol i ddarparu trafnidiaeth gymunedol allyriadau isel<br>Drwy ein cynllun Arloesi Gwynedd Wledig, byddwn yn cydweithio â mudiadau cymunedol unigol neu asiantaethau ambarél er mwyn cefnogi ceisiadau i arbrofi gyda thechnoleg newydd neu ddefnyddio cerbydau carbon isel | Parhaus | £ | Dim arbedion uniongyrchol i'r Cyngor |
| 8.11 | Datblygu ac annog teithio llesol yn nalgylch ysgolion Gwynedd | Datblygu Rhwydwaith Teithio Diogel | Tymor canolig | Ddim yn hysbys eto | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

DRAFT

# 10. Gwastraff

Esboniwyd eisoes ein bod yn cyfrifo allyriadau carbon ein gweithgareddau gan ddilyn penawdau a methodoleg Llywodraeth Cymru. Daw'r ffigwr o 7,331 $tCO_2e$ o allyriadau sy'n deillio o wastraff y cyngor yn 2019/20 o'r ffaith ein bod bryd hynny yn anfon gwastraff i'w dirlenwi. Erbyn 2020/21 does dim o'n gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, gyda'r cyfan yn cael ei anfon i gael ei losgi'n ddiogel, a dyma pam bod allyriadau carbon 'gwastraff' ar gyfer 2020/21 bellach yn sero. Mae'r allyriadau sy'n deillio o wastraff sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu neu ei losgi yn cael eu cyfri o dan y ffigurau allyriadau ar gyfer 'fflyd'.

Byddwn bob tro yn chwilio am gyfleoedd i symud y tu hwnt i'n targed o gyrraedd sero net, ac felly mae'r prosiectau canlynol wedi eu cynllunio er mwyn parhau i gynnal ein targed ac i hyrwyddo egwyddorion yr economi gylchol. Nod hynny yw lleihau gwastraff gymaint ag sy'n bosibl, tra'n hybu gweithgarwch economaidd ac adfywiad cymunedol yr un pryd.

### Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

### Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 9.1 | Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu | Mae'r prosiect hwn yn rhan o Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd | Parhaus | Dirwy posib o £200 y tunnell os | Angen cynnal gwaith pellach i |



DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | nad ydym yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Mae hyn gyfwerth â £750,000 yn seiliedig ar dunelli 2022/23. | fesur yr arbedion carbon |
| 9.2 | Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio | Mae'r prosiect hwn yn rhan o Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd | Tymor byr a chanolig | Dirwy posib o £200 y tunnell os nad ydym yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Mae hyn gyfwerth â £750,000 yn seiliedig ar dunelli 2022/23. | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |



DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9.3 | Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd | Mae'r prosiect hwn yn rhan o Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd | Tymor byr | Dirwy posib o £200 y tunnell os nad ydym yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Mae hyn gyfwerth â £750,000 yn seiliedig ar dunelli 2022/23. | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 9.4 | Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu | Parhau i gefnogi'r 11 hwb bwyd cymunedol sy'n weithredol eisoes gan ddarparu gwybodaeth a chyngor. | Parhaus | Dirwy posib o £200 y tunnell os nad ydym yn cyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Mae hyn gyfwerth â £750,000 yn seiliedig ar dunelli 2022/23. | Dim effaith uniongyrchol |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9.5 | Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu | Fel rhan o'n cynllun Cymunedau Glân a Thaclus, a'n trefniadau glanhau strydoedd, byddwn yn parhau â'n cynlluniau i osod rhagor o finiau ailgylchu cyhoeddus | Tymor byr | £ | Caiff ei fesur ar ddiwedd y cynllun peilot |
| 9.6 | Lleihau defnydd papur | Mae cytundeb newydd i ddarparu argraffyddion yn ei lle a bydd yn lleihau faint o bapur sy'n cael ei ddefnyddio yn ein swyddfeydd | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 9.7 | Gweithredu Strategaeth Wastraff Cyngor Gwynedd | | Parhaus | | |

DRAFT

# 11. Llywodraethu

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r newidiadau y credwn sydd angen eu gwneud er mwyn cynnal gweddill y gwaith sy'n y cynllun hwn. Drwy wneud newidiadau i'n arferion gweithredu mewnol fel cyngor, fe fyddwn yn cynnig yr amgylchiadau gorau i'n aelodau etholedig a'n staff i wneud penderfyniadau a gweithredu er lles ein planed.

Mae llawer o'r gwaith cynllunio y tu cefn i lunio'r cynllun hwn, a'i adolygu i'r dyfodol, yn digwydd mewn partneriaeth â sefydliadau eraill a chymunedau. Dylid cofio bod hyn yn egwyddor sylfaenol i'r prosiectau sydd wedi eu rhestru isod, ac i'r rhan fwyaf o brosiectau eraill sy'n cael eu disgrifio yn y cynllun.

### Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

### Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Amcangyfrif Costau £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 10.1 | Aelodau etholedig a staff sydd:<br>• yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd | Mae angen i'r cyngor fod â gweithlu gwybodus am y maes newid hinsawdd ac ecoleg er mwyn gallu cymryd penderfyniadau cyfrifol, ac i wybod sut i leihau allyriadau carbon. | Tymor byr a chanolig | Dim cost ychwanegol – ariannu o gyllidebau hyfforddiant canolog neu | Dim arbedion uniongyrchol |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau<br>• yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol | Byddwn yn cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant i aelodau etholedig a staff ar egwyddorion sylfaenol y cynllun hwn, ac yn ymchwilio i'r angen am hyfforddiant neu wybodaeth arbenigol mewn rhai meysydd penodol<br>Bydd yr hyfforddiant yn atgyfnerthu'r cymal sydd eisoes yn swydd ddisgrifiadau staff y cyngor i weithredu yn unol â'r Cynllun Rheoli Carbon | | ddarpariaeth drwy Lywodraeth Cymru | |
| 10.2 | Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy'n lleihau effaith newid hinsawdd neu'n ecolegol gadarnhaol | Byddwn yn defnyddio cynllun prentisiaethau a Chynllun Yfory llwyddiannus y cyngor i annog rhagor o brentisiaid a graddedigion newydd i fod yn dilyn gyrfa mewn meysydd megis bioamrywiaeth ac ynni | Parhaus | Dim cost ychwanegol – ariannu o gyllideb y Cynllun Prentisiaethau | Dim arbedion uniongyrchol |
| 10.3 | Adolygu polisïau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad | Gweithredu rhaglen barhaus o adolygu canllawiau polisïau a llunio penderfyniadau, gan roi arweiniad a chyngor ar ba amodau y gellir eu gosod | Tymor byr, yna parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 10.4 | Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i | Cynnal ein 'siop un stop' ar ein gwefan gyda gwybodaeth am holl waith y cyngor yn y maes | Sefydlu - Tymor byr | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion. | hwn, a chysylltiadau i wybodaeth ddefnyddiol yn allanol, ac yn ei ddiweddaru'n barhaus.<br><br>Byddwn yn rhannu gwybodaeth ac arferion da drwy sianelau cyfryngau cymdeithasol y cyngor er mwyn annog trigolion i newid eu harferion | Cynnal - parhaus | | |
| 10.5 | Datblygu Strategaeth Addasu Hinsawdd a Natur | Bydd asesiad risg newid hinsawdd yn cael ei gynnal yn 2026/27 o dan ofal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, ac yn sgil ei gyhoeddi byddwn wedyn yn datblygu Strategaeth Addasu Hinsawdd a Natur Gwynedd yn seiliedig arno | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |

DRAFT



DRAFT

# 12. Caffael

Mae gofynion adrodd data Llywodraeth Cymru yn ein harwain at gasglu data am wariant y cyngor ar adnoddau neu wasanaethau gan gyflenwyr allanol. Mae hyn yn amrywio'n eang iawn o wasanaethau archwilio ariannol neu gostau hysbysebu i brynu nwyddau megis bwydydd neu offer diogelwch personol i ysgolion a chartrefi gofal.

Mae ein allyriadau carbon o dan y pennawd caffael wedyn yn cael eu mesur ar sail cyfanswm y gwariant yn unig, ac nid ar sail unrhyw ymdrechion i leihau costau na allyriadau carbon gennym ni ein hunain neu ein cyflenwyr fel rhan o'r broses o osod contractau.

Roedd ein allyriadau carbon o'n holl weithgarwch caffael gan ddilyn y fethodoleg uchod yn 2019/20 yn 40,639 $tCO_2e$, sy'n dod o dan cwmpas 3.

Mae gan Gyngor Gwynedd Bolisi Caffael Cynaliadwy ers 2011 er mwyn i ni ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y cyngor, er lles y sir. Mae 'lleihau effaith amgylcheddol drwy gwell detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith' yn nod o fewn y polisi.

### Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

Byddwn yn parhau i weithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy, yn ogystal â datblygu'r prosiectau canlynol -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Amcangyfrif Costau £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 11.1 | Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl-troed carbon | Byddwn yn parhau i gydweithio â Busnes Cymru ac eraill er mwyn cyflwyno rhaglen o wybodaeth i gefnogi busnesau. Bydd hyn yn eu helpu i geisio lleihau eu allyriadau carbon heb niweidio eu gallu i gyflwyno ceisiadau am dendrau. | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 11.2 | Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael | Byddwn yn parhau i asesu ein prosesau ein hunain o osod meini prawf i fesur tendrau er mwyn sicrhau ein bod yn mesur effaith amgylcheddol contractau. | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 11.3 | Staff Cyngor Gwynedd i weithredu'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy er mwyn lleihau allyriadau carbon drwy'r gadwyn gyflenwi | Sicrhau bod staff y Cyngor yn derbyn cefnogaeth a hyfforddiant i weithredu'r Canllawiau Caffael Cynaliadwy newydd | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 11.4 | Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i gymryd camau fydd yn lleihau eu allyriadau neu gynyddu lefelau amsugno carbon | Fel cam dilynol o 11.1, byddwn yn cynnig cymorth ymarferol i leihau allyriadau fydd yn ei dro yn lleihau allyriadau'r Cyngor. Byddai'n rhaid asesu fesul achos unigol os fyddai angen cyfraniad ariannol tuag at y gwaith | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Dim arbedion uniongyrchol |

DRAFT



DRAFT

# 13. Defnydd Tir

Bydd rheolaeth gyfrifol o'r tiroedd sy'n berchen i'r cyngor yn talu ar ei ganfed. Nid yn unig y gall gynnig bywyd i rywogaethau natur gan eu gwarchod neu eu hachub hyd yn oed, ond bydd ein tiroedd hefyd yn beiriant amsugno carbon naturiol effeithiol y dylem wneud y mwyaf ohono.

Mae ein asesiad i fesur capasiti amsugno carbon yr holl diroedd oedd yn eiddo i'r cyngor yn 2020/21 yn dangos y gall amsugno gwerth 5,893 $tCO_2e$. Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar y mathau canlynol o diroedd –

| | |
|---|---|
| Coedlannau | Gyda chyfuniad o wahanol goed: cynhenid, bytholwyrdd ayb. Bydd rhai yn ddwys o ran nifer y coed, ac eraill wedi eu poblogi â llai o goed. |
| Glaswelltiroedd | Cyfuniad o diroedd sydd â gwair yn tyfu – rhai nad ydynt yn cael eu trin ac eraill yn cael eu torri'n rheolaidd, ee. caeau chwarae, tir ysgol neu gartref gofal, ymylon ffyrdd. |
| Gwlypdiroedd | Tir â mawn ynddo; tir sydd wedi ei orchuddio'n rheolaidd gan ddŵr; llynnoedd ac afonydd. |
| Aneddiadau | Unrhyw diroedd sydd wedi eu datblygu, ond nad ydynt eisoes wedi eu cyfri o dan gategori arall, ee. adeilad. Gallent gynnwys: meysydd chwaraeon amlbwrpas, isadeiledd trafnidiaeth, tir 'llwyd' cyn-ddiwydiannol. |

Rydym yn cydnabod bod yna waith pellach angen ei gyflawni er mwyn mesur yn gyflawn a chywir union gapasiti amsugno carbon ein tiroedd – ee. maint a'r math o goed, cyfansoddiad y pridd ayb. Mae hyn yn broblem gyffredin i nifer fawr o gynghorau a sefydliadau eraill ac felly fe fyddwn yn edrych tuag at gydweithio ag eraill er mwyn llunio rhaglen i gasglu data a rheoli ein tiroedd i'r dyfodol.

## Llifogydd

Un elfen arall o waith trin a gwarchod tiroedd yw'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn lliniaru effaith llifogydd. Mae'r cyngor eisoes yn rhedeg nifer o brosiectau ers blynyddoedd mewn ardaloedd arfordirol, ee. Fairbourne, ac wedi bod yn ymateb i nifer uchel o achosion o lifogydd mewn ardaloedd mewndirol. Newid hinsawdd sydd wrth gwrs yn cyfrannu at y rhan fwyaf o'r cynnydd



DRAFT

hwn mewn achosion o lifogydd ac felly, yn anffodus, mae'n debygol iawn y bydd yr achosion hyn yn parhau i gynyddu.

Rydym wedi cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol eraill er mwyn llunio Strategaeth Llifogydd Lleol. Ei brif nod fydd ceisio rhwystro achosion o lifogydd ac i ymateb yn effeithlon os fydd llifogydd yn digwydd, ond mae ganddo hefyd nod i gyfrannu'n bositif at hyrwyddo bioamrywiaeth a chreu mynediad i drigolion at fannau gwyrdd.

Bydd y gwaith o ymateb i lifogydd yn clymu'n agos gyda'r gwaith o gynnal tiroedd a bioamrywiaeth, gan y gallai newid mewn un gael effaith fawr ar y llall. Er enghraifft, gall cynnal tiroedd corsiog neu blannu coed yn uchel mewn dyffryn leihau'r dŵr fydd yn cyrraedd afonydd ac achosi llifogydd yn is lawr y dyffryn. Mae nifer o'r prosiectau sydd yn y bennod hon, a'r bennod ganlynol ar Fioamrywiaeth, felly yn mynd i gyfrannu at liniaru effaith llifogydd.

## Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Amcangyfrif Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.1 | Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd | Cyflymu ein rhaglen i fesur yn gywir y coed sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn casglu data cywir am eu llwyddiant, neu beidio, i amsugno carbon | Tymor byr a chanolig | £ | Mae pob hectar o goedwig yn amsugo 5.4 $tCO_2e$ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.2 | Datblygu Polisi Rheolaeth Tir fydd yn mesur gwerth carbon gwahanol diroedd ac yn gwneud y defnydd gorau ohonynt er mwyn gwarchod eu gwerth carbon | Cyflymu ein rhaglen i fesur yn gywir y tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn casglu data cywir am eu llwyddiant, neu beidio, i amsugno carbon.<br>Bydd y Polisi Rheolaeth Tir yn rhoi golygu bod gwerth carbon tir yn un ffactor i'w ystyried wrth brynu neu werthu | Tymor byr a chanolig | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | 3,612+ |
| 12.3 | Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu | Cydweithio â mudiadau eraill a sefydliadau addysg i sefydlu meithrinfeydd coed | Tymor canolig | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Mae pob hectar o goedwig yn amsugo 5.4 $tCO_2e$ |
| 12.4 | Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Cenedlaethol Cymru | Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ar eu cynllun Coedwig Cenedlaethol Cymru er mwyn cynyddu'r nifer o goed fydd yn cael eu plannu | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol | Mae pob hectar o goedwig yn amsugo 5.4 $tCO_2e$ |
| 12.5 | Datblygu a gweithredu Polisi Rheoli Coed (gan gynnwys rheoli Clwy yr Onnen) a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed | Parhau â'n rhaglen i adnabod y clwy mewn coed ac i'w drin.<br>Sicrhau, os oes angen torri neu ddifa coeden, bod coeden arall yn cael ei phlannu yn ei lle, a hynny mewn cydweithrediad â chynlluniau plannu coed eraill y cynllun hwn | Parhaus | Dim cost ychwanegol | Carbon niwtral |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 12.6 | Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur | Gwella ein rheolaeth o'r 4 goedlan bresennol, ac unrhyw goedlannau newydd y gall y cyngor eu plannu, er mwyn iddynt fod yn iach a gwydn i'r dyfodol | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Mae pob hectar o goedwig yn amsugno 5.4 $tCO_2e$ |
| 12.7 | Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo | Yn ei gyfarfod ar 2 Rhagfyr 2021 fe fabwysiadodd Cyngor Gwynedd y cynnig canlynol:<br>'Mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i:<br>• Newid ar fyrder y cymhwyster i dderbyn eu grant Glastir (GWC) fel mai dim ond ffermwyr gweithredol yng Nghymru sy'n gallu gwneud cais.<br>• Cyflwyno deddfwriaeth datblygu cynllunio i alluogi awdurdodau cynllunio lleol fel Gwynedd i reoli prosiectau coedwigo.<br>Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn symud i amddiffyn amgylchedd gwledig Cymru, a'i hadnoddau er budd economi Gwyrdd cylchol newydd gan gryfhau diwydiannau, cymunedau a gwasanaethau Cymru.' | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol | Dim arbedion uniongyrchol |
| 12.8 | Adnabod gwerth amsugno carbon ein safleoedd tirlenwi | Mae 2 o gyn-safleoedd tirlenwi'r Cyngor, sef Ffridd Rasus a Llwyn Isaf, wedi eu troi'n ddolydd | Tymor canolig | £ | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | blodau a safleoedd natur. Drwy fesur gwerth amsugno carbon y safleoedd byddwn wedyn yn cynllunio i'w datblygu ymhellach neu i werthuso os y gallwn ymestyn y ddarpariaeth i safleoedd eraill | | | |
| 12.9 | Adnabod gwerth amsugno 'carbon glas' ar ein arfordir | Nid yw'r carbon sy'n cael ei amsugno gan blanhigion ar ein arfodir (ee. morwellt) yn cael ei gyfri tuag at lefelau amsugno carbon y Cyngor, er mai'r Cyngor sy'n rheoli'r safleoedd tyfu. Byddwn yn edrych i gydweithio gyda sefydliadau eraill a Llywodraeth Cymru i gynyddu'r carbon sy'n cael ei amsugno ac i fesur hynny | Tymor canolig | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | |
| 12.10 | Gweithredu Strategaeth Llifogydd Cyngor Gwynedd | Gweithredu'r strategaeth yn unol â'n cyfrifoldeb fel awdurdod llifogydd | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | |

# 14. Bioamrywiaeth

Er mai datgan argyfwng newid hinsawdd a wnaeth Cyngor Gwynedd yn 2019, credwn bellach bod angen rhoi sylw cyfartal i'r argyfwng sy'n wynebu byd natur yn ogystal gan eu bod yn cyd-redeg mor agos at ei gilydd. Mae colli cynefinoedd i fyd natur yn gallu cynyddu'r lefelau o garbon yn yr amgylchedd, ac mae newidiadau i dymheredd a glawogydd yn dylanwadu ar ddosbarthiad cynefinoedd i natur.

Mae'n gwbl amlwg bod canlyniadau cynhesu byd eang yn cael effaith niweidiol ar fyd natur yma yng Nghymru hyd yn oed, a bod angen gweithredu bwriadol os ydym am ddiogelu ein systemau ecolegol brau i'r dyfodol.

Ein nod yw nid yn unig i warchod byd natur a bioamrywiaeth yn y sir rhag effeithiau niweidiol newid hinsawdd ond hefyd i'w gryfhau er mwyn i fyd natur gyfrannu'n gadarnhaol at y frwydr i amsugno carbon, fel yr esboniwyd yn y bennod **13. Defnydd Tir**.

Rydym am fod yn gyngor sy'n 'ecolegol gadarnhaol' nid yn unig yng nghyd-destun newid hinsawdd ond hefyd oherwydd ein bod yn credu bod gan fyd natur werth amhrisiadwy ynddo'i hun. Mae 'cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir' yn un o 7 amcan llesiant y cyngor, ac mae 'pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol' a 'hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor' yn 2 allan o 9 prif neges Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Fis Mehefin 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad Argyfwng Bioamrywiaeth gan nodi: "Mae gwerth cynhenid i fioamrywiaeth ac mae'n cynnig buddion i bobl drwy wasanaethau ecosystemau, megis atal llifogydd a chynhyrchu bwyd. Credir felly bod colledion bioamrywiaeth yn achosi risgiau i ddiogelwch a llesiant pobl".

## Allwedd Prosiectau

| | |
|---|---|
| Newydd | |
| Costau: | |
| £ | £0 - £100,000 |
| ££ | £100,000 - £500,000 |
| £££ | £500,000 - £2,000,000 |
| ££££ | £2,000,000 - £450,000,000 |
| £££££ | £450,000,000 - £750,000,000 |

DRAFT

## Prosiectau sydd wedi eu cynllunio -

| | Nod | Gweithredu | Amserlen | Costau tybiedig £ | Arbedion $tCO_2e$ – cyfanswm oes |
|---|---|---|---|---|---|
| 13.2 | Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer | Mabwysiadu a gweithredu Cynllun Adfer Natur Gwynedd yn seiliedig ar Gynllun Adfer Natur Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru | Tymor byr | Dim cost ychwanegol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 13.3 | Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod ac adfer cynefinoedd, yn arbennig drwy greu coridorau ar ymylon ffyrdd ac ar safleoedd tirlenwi | Defnyddio'r rhaglen Llefydd Lleol ar Gyfer Natur er mwyn gwneud y gorau o diroedd mewn ysgolion drwy blannu blodau a phlanhigion addas i ddenu peillwyr (pryfed/gwenyn).<br>Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen i gynnal ymylon ffyrdd sirol ac i reoli amlder a lleoliad torri gwair er mwyn cynnal cynefinoedd i fioamrywiaeth, ble mae hynny'n ddiogel i yrwyr a cherddwyr | Tymor canolig | £££ | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |
| 13.4 | Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur | Defnyddio'r rhaglen Llefydd Lleol ar Gyfer Natur er mwyn symbylu prosiectau newydd a pharhau a phrosiectau sydd eisoes ar y gweill – ee. gwaredu rhywogaethau estron yn ardal Ffestiniog; rheoli gwarchodfa natur Lôn Cob Bach, Pwllheli | Tymor canolig | Dim cost ychwanegol<br>Bydd angen denu cyllid grant i gynnal prosiectau | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 13.5 | Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur | Gwella ein rhaglenni ymgysylltu am faterion ecolegol a'r gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud yn y maes.<br>Cydweithio ag ysgolion er mwyn magu diddordeb ymysg disgyblion | Parhaus | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion neu gostau ariannol | Angen cynnal gwaith pellach i fesur yr arbedion carbon |

DRAFT

# 15. Archif Prosiectau

| Cod gwreiddiol | Nod | Gweithredu | Rheswm dros archifo |
|---|---|---|---|
| | **Adeiladau ac Ynni** | | |
| 7.4 | Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu | Ymchwilio ymhellach i'r safleoedd posib sydd wedi eu hadnabod er mwyn lleoli ffermydd solar, a llunio cynlluniau busnes ar sail y budd carbon ac ariannol mwyaf effeithlon | Dim cyfleoedd ar hyn o bryd i adeiladu fferm solar fedr fwydo un o safleoedd y cyngor yn uniongyrchol ac felly nid yw'r cynllun yn hyfyw yn ariannol ac ni fyddai'n lleihau allyriadau carbon y cyngor |
| 7.9 | Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon | Byddwn yn ymchwilio i'r dichonolrwydd o osod systemau trydaneiddio – neu pympiau gwres – mewn adeiladau. Gan fod angen buddsoddiad ariannol sylweddol er mwyn eu gosod, mae angen gwaith pellach cyn dewis os y byddant yn cael eu gosod a ble mae'r safleoedd fydd yn elwa fwyaf | Mae prosiectiau 7.9 a 7.10 wedi eu cyfuno gyda phrosiect 7.8 gan eu bod yn rhan o'r un broses |
| 7.10 | Gosod ffaniau awyru EC mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei | Mae ffaniau cymudo electronig yn rhedeg ar gerrynt DC yn hytrach na AC ac yn cael eu rheoli'n ddigidol sy'n golygu gweithrediad mwy effeithlon a thawelach. Byddwn yn ymchwilio i ba asedau y | Mae prosiectiau 7.9 a 7.10 wedi eu cyfuno gyda phrosiect 7.8 gan eu bod yn rhan o'r un broses |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol | byddant yn addas ar eu cyfer ac yn llunio rhaglen waith i'w gosod yn dilyn hynny | |
| 7.11 | Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad | Mae technoleg di-wifr yn caniatáu rheoli rheiddiaduron unigol heb gost drud gwifro. Bydd hyn yn galluogi i ystafelloedd gael eu gwresogi ar wahanol dymheredd a hefyd i ddiffodd y gwres pan fo'r ystafell yn wag.<br>Byddwn yn llunio rhaglen waith, gan flaenoriaethu gosod systemau mewn cartrefi gofal | Mae'r prosiect hwn wedi ei gyfuno gyda phrosiect 7.2 gan fod y system Monitro a Thargedu sy'n weithredol yn barod yn cyflawni'r un pwrpas â thechnoleg di-wifr gwresogi ystafelloedd unigol |
| 7.13 | Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni | Rydym wedi bod yn rhedeg rhaglen o gyfnewid goleuadau o hen lanteri golau SOX i lanteri LED ers 2015/16, gan arwain at bron i haneru allyriadau carbon y goleuadau hyn. Byddwn yn parhau i gwblhau'r rhaglen gyfnewid goleuadau ac hefyd yn ymchwilio i'r angen a'r fantais o bylu goleuadau ac effaith hynny ar fioamrywiaeth.<br>Yn olaf byddwn yn gwerthuso'r prosiect er mwyn dysgu gwersi i'r dyfodol ac i gynllunio rhaglen gynnal | Mae'r prosiect hwn wedi ei gwblhau. Os fydd lampau stryd newydd yn dod i ofal y Cyngor byddant yn cael eu amnewid i LED |
| 7.15 | Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisïau ynni a gwresogi | Drwy fonitro gweithredu'r polisïau gan ein staff, a monitro'r dechnoleg sy'n rhedeg | Mae'r gwaith hwn yn digwydd fel rhan o brosiectau 7.2, 7.5, 7.6, 7.8, 7.12, felly'n cael ei archifo oherwydd dyblygu |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | systemau, gallwn dargedu er mwyn sicrhau gwelliannau yn effeithiol.<br>Byddwn yn defnyddio Meddalwedd Rheoli Ynni er mwyn monitro ein data trydan, gan wneud gwelliannau yn ôl y gofyn.<br>Byddwn yn cynnig hyfforddiant i staff er mwyn gweithredu'r polisïau hyn | |
| 13.1 | Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol | Adolygu Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd erbyn diwedd 2022 | Mae hyn yn digwydd fel rhan o'r gwaith ar brosiect 13.2 |
| 13.6 | Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur | Cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru, cynghorau tref a chymuned a'r RSPB i gynnal 8 gwarchodfa natur ar draws Gwynedd | Mae hyn yn digwydd fel rhan o'r gwaith ar brosiectau 13.3 a 13.4 |

DRAFT

# 16. Partneriaid

Fel yr ydym wedi nodi sawl gwaith, all Cyngor Gwynedd ar ei ben ei hun ddim cyflawni'r holl waith sydd ei angen er dod yn gyngor sero net. Mae nifer o'r prosiectau y mae sôn amdanynt yn rai y dylid gael eu cynllunio ac/neu eu darparu ar y cyd â sefydliadau eraill. Rydym ni fel Cyngor hefyd yn barod i gyfrannu at ddatblygu syniadau neu weithredu prosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid eraill.

Isod mae yna rhestr isod o bartneriaid y byddwn yn cydweithio â hwy er mwyn gwireddu'r cynllun hwn. Dydi hi ddim yn restr mewn trefn blaenoriaeth, a byddwn yn ychwanegu ati ac yn ei newid yn aml -

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru)
- Cynghorau Tref a Chymuned Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Parc Cenedlaethol Eryri
- Partneriaeth Natur Gwynedd
- RSPB
- Mudiadau Ynni Cymunedol Gwynedd

DRAFT

# 17. Strategaethau a Pholisïau

Mae yna lawer mwy o wybodaeth am rai o'r camau gweithredu y mae sôn amdanynt yn y cynllun hwn mewn dogfennau eraill sydd eisoes wedi eu cyhoeddi. Yn hytrach nag ail-adrodd yr wybodaeth yn y ddogfen hon gallwch droi at y dogfennau isod i ganfod mwy o wybodaeth (nid ydynt i gyd wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan)



Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd

Strategaeth Tai Gwynedd 2019-24

Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 - 2026/27

Cynllun Fflyd Werdd 2023-29

Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (gwefan allanol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (y Cynllun newydd)

Polisi a Chanllaw Caffael Cynaliadwy

Gorchymyn Diogelu Coed

Polisi Ynni

Polisi Gwresogi

Polisi Goleuadau

Strategaeth Asedau Corfforaethol

DRAFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **DYDDIAD** | **22 Ionawr 2026** |
| **TEITL** | **Teithio Llesol** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | **Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd** |
| **AWDUR** | **Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Craig ab Iago** |

**1.0 Pam fod angen ei graffu?**

Mae'r prosiect blaenoriaeth yma yn golygu gwella llwybrau cerdded a beicio presennol y sir, a chyflwyno llwybrau teithio llesol o'r newydd er mwyn hwyluso mwy o gerdded a beicio yn ein cymunedau.

Derbyniwyd cais gan Bwyllgor Ardal Dwyfor i graffu'r maes. Nodwyd yr angen i dderbyn arian refeniw er mwyn eu cynnal mewn cyflwr diogel ac addas yn dilyn eu datblygu. Daethpwyd i'r casgliad yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor hwn ar 7 Hydref 2024 i'w ystyried fel eitem posib i'w graffu yn ystod 2025/26.

**2.0 Beth yn union sydd angen ei graffu?**

**2.1. Cynnydd y prosiect**

Mae prosiectau teithio llesol yn cael eu datblygu a gwireddu ar sail barhaus. Mae cyfres o gynlluniau teithio llesol wedi eu cwblhau yn y blynyddoedd diweddar neu yn y broses o gael eu cyflwyno dan arweiniad swyddogion yr Adran Amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ysgol Treferthyr, Criccieth – creu llwybr cerdded a beicio newydd i'r ysgol sy'n cynnwys cyflwyno croesfan o flaen yr ysgol a gosod lloches beics.
- Ysgol Rhostryfan – creu ramp a thacluso'r maes parcio i greu mynediad cefn, diogel i blant a rhieni.
- Ysgol Y Garnedd, Bangor – gosod llochesi beics a sgwteri yn yr ysgol.
- Ffordd Penrhos, Bangor – gwaith adeiladu llwybr aml ddefnydd a chroesfannau ar hyd ffordd Penrhos yn parhau.
- Llochesi Beics yn Ysgol Cymerau, Pwllheli.
- Ysgol Godre'r Berwyn, Bala – gwelliannau i lwybrau cerdded a seiclo.
- Llwybr Teithio Llesol Chwilog – Afonwen (Gwedd 1).
- Gwelliannau i Lôn Las Ogwen.
- Ysgol Foel Gron, Mynytho – cynllun Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau.

Yn ychwanegol i rain mae'r cynlluniau teithio llesol canlynol wedi eu cyflawni gan rhanddeiliaid eraill:

- Llwybr aml ddefnydd rhwng Zip World a Blaenau Ffestiniog.
- Llwybr aml ddefnydd fel rhan o Gynllun Atal Llifogydd Hirael.

- Llwybr aml ddefnydd at archfarchnad Aldi, Pwllheli.
- Llwybr aml ddefnydd A55 Abergwyngregyn i Dal y Bont

**2.2 Sut mae cynlluniau yn cael eu blaenoriaethu?**
Mae gwireddu cynlluniau teithio llesol sylweddol wedi bod yn ddibynnol i raddau helaeth ar sicrhau cefnogaeth ariannol trwy Lywodraeth Cymru a/neu Drafnidiaeth Cymru. Gyda hynny, mae'r cynlluniau i'w datblygu wedi eu blaenoriaethu ar sail pa mor gryf y maent yn cyfarch a chyrraedd y meini prawf sydd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru.

Yn symud ymlaen o 2026/27 fe fydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o ddatblygu a chyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (CTRh) 2025-30 a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

**2.3 Pa gynlluniau sy'n cael eu datblygu?**
Yn ogystal â'r cynlluniau a nodwyd eisoes uchod (**2.1**), mae gwaith datblygol yn mynd rhagddo ar y cynlluniau teithio llesol canlynol:

**Tymor Byr**
- Cob Crwn Porthmadog
- Tywyn i Aberdyfi
- Chwilog i Afonwen (Gwedd 2)
- Ffordd Penrhos, Bangor (Gwedd 4)
- Ysgol Maenofferen a Ffordd Glyndŵr
- Llanystumdwy i Gricieth
- Parhau gyda chynllun Llanbedr mewn ymgais i ddatrys problemau trafnidiaeth yr ardal sydd yn cynnwys gwella opsiynau teithiol llesol

**Tymor Canolig**
- Llanrug i Gaernarfon
- Bethel i Gaernarfon
- Y Ffor i Bwllheli

**Tymor Hir**
- Pistyll i Nefyn
- Caeathro i Caernarfon

**Parhaus**
- Seilwaith newydd mewn cymunedau
- Llochesi beics mewn ysgolion
- Gwelliannau i llwybrau teithio llesol presennol (i gynnwys Lonydd Las)

Mae cynlluniau pellach wedi ei gynnwys yn Cynllun Gweithredu y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

**2.4 Beth yw'r bwriad ar gyfer y dyfodol?**
Mae'r canlynol yn crynhoi'r bwriad ar gyfer y dyfodol:

- Parhau i uchafu'r cyfleoedd sydd ar gael i gyflawni prosiectau teithio llesol drwy ddatblygu a chyflwyno cynlluniau cryf a gwydn sydd yn cyfarch disgwyliadau a dyheadau strategol a'r criteria perthnasol (gweler y rhestr uchod - **2.3**). Mae hyn yn

cynnwys cael rhaglen o gynlluniau sydd ar wahanol lefelau o ddatblygiad ac aeddfedrwydd. Y bwriad yw cael cydbwysedd rhesymol a theg o ran lleoliadau, natur a math y prosiectau ar draws Gwynedd.

- Parhau yn yr ymdrechion i gael dylanwad ar yr her hanesyddol fod arian cyfalaf ar gael i ddatblygu ac adeiladu isadeiledd newydd ond ddim yr arian refeniw parhaus sydd ei angen i gynnal a chadw hynny.
- Lansio pecyn fydd yn cefnogi ac arfogi ysgolion i hyrwyddo ac annog defnydd dulliau teithio llesol i ac o'r ysgol. Fe fydd hyn yn helpu i sefydlu ymarferion iachus a chadarnhaol gydol oes ac yn ddatrysiad ymarferol i'r problemau a brofwyd yng nghyffiniau ysgolion yn ystod cyfnodau brig y bore a phnawn.
- Edrych i ddylanwadu yn gadarnhaol ar ddulliau teithio staff y Cyngor ar gyfer cymudo a theithiau ar gyfer gwaith/busnes fel rhan o waith y Gweithgor Teithio Llesol.
- Cydweithio gyda'r partneriaid eraill sydd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i hwyluso, hyrwyddo ac annog dulliau teithio llesol fel modd o gael mynediad i wasanaethau gan gynnwys iechyd. Esiampl amlwg o hyn yw yn ardal Penrhos, Bangor ble mae buddsoddiad sylweddol wedi bod yn gwella'r seilwaith. Y bwriad nawr yw gweld fod hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddulliau teithio yn yr ardal lle mae tagfeydd traffig a phroblemau parcio ar safle Ysbyty Gwynedd ynghyd a'r ardal leol.

**2.5 Sut mae modd sicrhau bod y llwybrau cerdded a beicio mewn cyflwr diogel ac addas?**

Mae'r mwyafrif o'r seilwaith sydd yn cael ei adeiladu/osod dan faner llwybrau teithio llesol yn cael ei fabwysiadu fel rhan o'r briffordd. Gyda hyn mae'n ddarostyngedig i'r trefniadau arolwg ac adfer perthnasol yn unol â'i statws yn y Cynllun Cynnal a Chadw Asedau Priffyrdd. Does dim arian refeniw ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw pan mae'r ased yn cael ei ehangu drwy gynlluniau cyfalaf teithio llesol.

Ar hyn o bryd does dim rhaglen, system nac adnodd penodol ar gyfer cyfarch a chyflawni hyn ar Lonydd Las. Rydym yn gweithio ar y mwyaf ar sail adweithiol pan fod materion yn cael ei adnabod gan swyddogion y Cyngor ac wedi derbyn adroddiadau wrth rhanddeiliaid all gynnwys gwleidyddion ar bob lefel a'r cyhoedd. Mae bid fewnol wedi ei baratoi a'i gyflwyno ar gyfer hyn ar gyfer 2026/27.

**3.0 Cwestiynau Ychwanegol**

**3.1 Oes modd darparu map yn dangos y llwybrau teithio llesol presennol?**

**Mapiau Teithio Llesol Gwynedd**

Mae'r Adran wedi bod yn gweithio ar gyflwyno newidiadau i fapiau Teithio Llesol Gwynedd ers 2021. Yn 2021, ymgynghorwyd gyda thrigolion Gwynedd i weld pa gynlluniau teithio llesol roedd aelodau o'r cyhoedd yn dymuno gweld o fewn eu cymunedau.


Derbyniwyd dros 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn 2022, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y rhwydwaith arfaethedig ac yna cyflwynwyd ein mapiau Teithio Llesol i'r Llywodraeth ym mis Medi 2022.

Yn ôl ein mapiau, mae yna oddeutu 120km o lwybrau aml ddefnydd eisoes wedi eu sefydlu yn y Sir, ac i gwblhau'r rhwydwaith rydym yn edrych i ddatblygu dros 200 o lwybrau cerdded a beicio newydd yn ogystal ag uwchraddio rhai llwybrau presennol.

Mae modd gweld haenen o'r trywydd ar Map Gwynedd.

**Mapiau Teithio Llesol**
Mae mapiau teithio llesol cynhwysfawr ar draws Cymru i'w gweld ar y wefan MapData Cymru.
[Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol | MapDataCymru]

Mae'r canlynol yn sgrin lun o'r ddarpariaeth. Mae modd edrych mewn a gweld fwy o fanylder lleol ar y wefan.




Gan fod y rhwydwaith yn datblygu ac ehangu yn gyson nid yw'r rhwydwaith teithio llesol llawn yn un mae modd hawdd darparu fersiynau cynhwysfawr papur ohonynt oherwydd eu bod yn newid yn barhaus.

**Mapiau Lonydd Las**
Mae gwybodaeth am y lonydd glas canlynol

- Lôn Las Ogwen
- Lôn Las Menai
- Lôn Las Peris
- Lôn Gwyrfai
- Lôn Eifion
- Llwybr Trawsfynydd
- Llwybr Mawddach

i gynnwys mapiau i'w chwilio drwy'r gwefan canlynol:
[Lonydd Glas Gwynedd | Eryri]

Mae map Lôn Eifion yn cael ei ddarparu fel esiampl isod.




**Pecyn Gwybodaeth Trafnidiaeth i Ysgolion Gwynedd**
Fel rhan o gynllun peilot ehangach mae mapiau teithio llesol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer:

- Ysgol Y Garnedd, Bangor
- Ysgol Treferthyr, Cricieth
- Ysgol Godre'r Berwyn, Bala.

Yn y dyfodol, bydd mapiau yn cael eu darparu i ysgolion lle'r ydym yn gosod isadeiledd newydd yn eu hardaloedd. Bydd hefyd yn fwriad creu pecyn gwybodaeth, i gynnwys mapiau, ar gyfer cynlluniau sydd wedi eu cyflawni yn y blynyddoedd diweddar. Fe fydd y sgôp i gyflawni hyn yn ddibynnol ar argaeledd adnoddau. Mae hyn yng nghyd-destun mae ffurfio rhan o ddyletswyddau ehangach ond dau swyddog yw datblygu a chyflawni'r mwyafrif llethol o'r gwaith yn y maes yma.

**3.2 Pa gynlluniau sydd ar y gweill?**
Gweler ymateb i gwestiwn **2.3** uchod a **3.5** isod.

**3.3 A yw'r adran wedi gwneud cais am refeniw i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnal a chadw'r llwybrau hyn? Os oes cais wedi ei wneud, pryd y disgwylir derbyn ymateb a faint o arian gofynnwyd amdano?**
Does dim ffrwd benodol i wneud cais ar gyfer cynnal a chadw'r seilwaith teithio llesol, gan gynnwys Lonydd Las, wrth Lywodraeth Cymru.

Unwaith yn ei lle mae'r cynnal a chadw yn fater i ystyriaeth a blaenoriaethu gan awdurdodau lleol.

**3.4 A oes asesiad risg wedi cael ei baratoi ar gyfer sefyllfa ble nad oes arian ar gyfer cynnal a chadw yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru?**
Nid oes asesiad risg penodol wedi ei gwblhau.

Nid oes arian penodol yn cael ei ddarparu ar gyfer cynnal a chadw. Mae hyn yn wendid cenedlaethol yn y trefniadau presennol ble mae arian cyfalaf ar gael i ddarparu a gwella isadeiledd ond ddim arian refeniw ychwanegol ar gyfer y cynnal a chadw parhaus. Er bod hyn yn achos pryder mae'r dyhead i barhau gydag adeiladu a gosod y fath yma o isadeiledd i weld yn gryf o safbwynt rhanddeiliaid.

Mae hyn yn fater sydd wedi, ac yn parhau, i gael ei godi gyda Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn stormydd sydd eisoes wedi ei brofi'r gaeaf yma mae swyddogion yn chwilio am ffyrdd o ariannu gwaith adfer i ddifrod ar Lôn Eifion rhwng Penygroes a chroesfan Inigo Jones ger Groeslon.

**3.5 A yw'r adran yn cyflwyno ceisiadau ar gyfer grantiau o fewn y maes hwn?**
Yn hanesyddol rydym wedi datblygu cynlluniau a cheisiadau gyda'r bwriad o ennill arian o raglenni blynyddol Grant Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cronfa Teithio Llesol, Cronfa Trafnidiaeth Leol
- Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau

Mae crynodeb o'r sefyllfa ar gyfer 2025/26 wedi ei ddarparu yn y Tabl isod.

| **Grant** | **Prosiect** | **£** |
|---|---|---|
| **Cronfa Teithio Llesol** | | |
| | Cronfa Craidd<br>• Afonwen i Olchdy Afonwen<br>• Tywyn i Aberdyfi<br>• Llanrug i Gaernarfon<br>• Llanystumdwy i Gricieth<br>• Parcio beics<br><br>Angen gwybodaeth bellach*:<br>• Pwllheli to Y Ffor<br>• Man Waith | 500,000 |
| | | |
| | Penrhos/Ffordd Penchwintan Gwedd 3 | 1,400,000 |
| | | **1,900,000** |
| | | |
| **Llwybrau Diogel yn y Gymuned** | | |
| | Ysgol Foel Gron, Mynytho | 160,000 |
| | | **160,000** |
| | | |

*Bydd cyswllt pellach mewn perthynas â'r prosiectau y ceisiwyd rhagor o wybodaeth amdanynt er mwyn sicrhau y gellir sicrhau a defnyddio'r uchafswm o £500,000 o Gyllid Teithio Llesol 'Craidd' yn llawn.

Ar gyfer 2026/27 mae'r broses yma yn newid gan fydd cynlluniau yn cael eu hariannu ar sail Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a drwy'r Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol.

**3.6 Oes gan gynghorau tref a chymuned gyfrifoldeb i gynnal a chadw'r llwybrau teithio llesol?**
Ar y cyfryw mae cyfrifoldeb cynnal a chadw'r llwybrau teithio llesol yn eistedd gyda'r Cyngor Sir. Mae yna rhai eithriadau ble mae cymunedau wedi datblygu a chyflawni llwybrau ei hunain neu ble mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol.

Mae angen gwahaniaethu rhwng y llwybrau teithio llesol, Lonydd Las a hawliau tramwy cyhoeddus gan fod y trefniadau a chyfrifoldebau dros gynnal a chadw'r rhain yn wahanol. Mae trefniadau yn amrywio mewn gwahanol leoliadau a sefyllfaoedd a ma' nifer o ffactorau yn dylanwadu ar hyn.

Mae rhai Cynghorau Cymuned a /neu aelodau o'r cymunedau lleol yn ymgymryd â pheth gwaith cynnal a chadw. All hyn gynnwys symud rhwystrau (e.e. brigau man) neu gasglu sbwriel. Mae hyn yn aml ddigwydd ar sail organig anffurfiol wrth i bobl ddefnyddio'r llwybrau yn ogystal â digwyddiadau mwy ffurfiol neu wedi ei trefni.

**3.7 Pa gynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer ardal Dwyfor?**
Mae'r cynlluniau ar y trywydd canlynol ar waith a/neu gyda gwaith datblygol yn mynd rhagddo yn Nwyfor:

- Afonwen i Chwilog
- Ysgol Foel Gron, Mynytho
- Cob Crwn, Porthmadog
- Llanystumdwy i Gricieth
- Pwllheli i Y Ffor

Y bwriad yw cyflawni'r rhain yn y tymor byr/canolig gyda Pistyll i Nefyn yn yr hir dymor.

Mae rhestr gynhwysfawr o'r holl gynlluniau wedi ei gynnwys yng Nghynllun Gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**3.8 Pa waith ymgysylltu sydd yn cael ei wneud gyda defnyddwyr y llwybrau er mwyn derbyn adborth?**
Rydym yn derbyn adborth wrth rhanddeiliaid ar sail barhaus. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar flaenoriaethau a chynlluniau a gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

Fel nodir yn yr ateb i gwestiwn **3.1** fe fu ymgysylltu ac ymgynghori sylweddol wrth ddatblygu'r mapiau Teithio Llesol. Fel nodir nes blaen yn yr adroddiad yma (**6**.), fe fu ymgynghori cyffredinol wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn ystod 2025.

Mae gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn rhan greiddiol o ddatblygiad cynlluniau penodol.

## 4. Crynodeb a'r Materion Allweddol

### 4.1 Galw, Dyhead a Disgwyliad

Yn anffodus mae'r galw, dyhead a disgwyliad am welliannau i seilwaith teithio llesol yn bell iawn tu hwnt i'r cyllid sydd ar gael i'w cyflawni. Amcangyfrifir, ar sail y cynlluniau sydd eisoes wedi cael eu hadnabod yn dilyn ymgysylltu cyhoeddus a'r grantiau blynyddol a ddyrannir yn bresennol y byddai, erbyn hyn, yn cymryd dros 250 mlynedd i gyflawni'r cynlluniau teithio llesol yng Ngwynedd!

### 4.2 Cynnal a Chadw

Mae'r diffyg arian refeniw parhaus ar gyfer cynnal a chadw'r isadeiledd unwaith yn ei le yn gonsyrn mawr a chynyddol. Mae hyn o ystyried fod sgil effaith cyfnodau mwy anwadal, eithriadol ac aml o dywydd garw yn achosi difrod sylweddol a chostus iawn i'w hadfer.

Mae hyn yn ymestyn a chynnwys lefelau cynnal a chadw o safbwynt torri gwair/tyfiant a sgubo a disgwyliadau ynglŷn â hyn. Mae hyn yn ei dro yn medru dylanwadu ar ddefnydd llwybrau.

### 4.3 Blaenoriaethau

Er y gwariant sylweddol sydd wedi bod, yn anffodus, nid yw hyn i weld wedi cael dylanwad sylweddol a pharhaus ar y dulliau teithio mae pobl yn dewis ar gyfer ei siwrneiau bob dydd gan gynnwys i fynychu'r ysgol, gwaith a mynediad i wasanaethau.

Mae hyn yn anochel yn codi cwestiynau o safbwynt ad-daliad ar fuddsoddiad a gwerth am arian sydd yn ei dro yn medru dylanwadu ar a newid blaenoriaethau gwariant cyhoeddus mewn hinsawdd ariannol hynod heriol. Mae nifer gynyddol ymddengys yn teimlo dylid fod fwy o ffocws a gwariant fod ar wella, cynnal a chadw ffyrdd yn gyffredinol yn hytrach na seilwaith teithio llesol yn benodol.

## 5. Cefndir / Cyd-destun

### 5.1 Cyflwyniad

Mae'r term teithio llesol yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol ac yn ei ffurf ehangaf i gyfeirio at deithio mewn dulliau yn hytrach na'r car gydag ond un person ynddo. Yn y cyd-destun yma rydym yn ystyried teithio llesol i olygu llwybrau sydd yn galluogi cerdded, seiclo ac erbyn hyn olwyno.

Mae teithio llesol yn anelu i sicrhau fod cerdded, beicio ac olwyno, yn dod yn ddewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd, gan helpu i wella iechyd personol, ansawdd aer a gwneud cymunedau yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt. Gwelir hyn fel ffordd ymarferol o ymateb i broblemau fel tagfeydd traffig a rhai yn ymwneud â pharcio.

Yn hanesyddol, fe fydd y cynlluniau sydd wedi ei gweithredu i ddarparu ac adeiladu'r fath isadeiledd fel arfer wedi ei ariannu drwy grantiau 'Teithio Llesol' a 'Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau' Llywodraeth Cymru.

Yn ychwanegol i'r isadeiledd sydd wedi ei osod drwy gynlluniau Teithio Llesol a Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau, yng Ngwynedd, mae gennym ni rwydwaith o Lonydd Las fel nodir yn **3.1**.

Mae'r Lonydd Glas canlynol hefyd wedi'u dynodi fel llwybrau teithio llesol gan eu bod yn cysylltu cymunedau:

• Lôn Las Ogwen - Bangor - Glasinfryn - Tregarth - Bethesda
• Lôn Las Menai - Caernarfon - Y Felinheli
• Lôn Eifion - Caernarfon - Groeslon - Penygroes - Bryncir

**5.2 Cyswllt gyda Chynllun y Cyngor 2023-28**
Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd, a'n nod yw bod yn gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Gyda hyn, mae Teithio Llesol yn brosiect sydd wedi ei adnabod fel rhan un o brosiectau Gwynedd Werdd, Cynllun y Cyngor 2023-28.

Ein huchelgais, o safbwynt teithio llesol yw sicrhau rhwydwaith rhagorol o lwybrau i drigolion gael y dewis o deithio llesol i'w man gwaith, addysg neu hamdden.

Mae teithio llesol yn anelu i sicrhau fod cerdded a beicio yn dod y dewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd, er mwyn gwella iechyd personol, ansawdd yr aer ac yn gwneud lleoedd yn fwy dymunol i fyw a gweithio ynddynt.

Byddwn yn gwella llwybrau cerdded a beicio presennol y sir, a chyflwyno llwybrau teithio llesol o'r newydd er mwyn hwyluso mwy o gerdded a beicio yn ein cymunedau.

**5.3 Ystyriaethau Ffordd Gwynedd**
Mae materion teithio llesol yn cyffwrdd yn uniongyrchol ac anuniongyrchol ar nifer o'r egwyddorion sydd yn tanategu Ffordd Gwynedd.

Mae darparu isadeiledd sydd yn annog, hyrwyddo a hwyluso teithio llesol yn medru cael budd mawr o safbwynt:

- iechyd cyhoeddus (meddyliol a ffisegol) a lleihau gordewdra a chyflyrau eraill
- ymateb yn gadarnhaol i newid hinsawdd
- lleihau problemau yn gysylltiedig â thagfeydd traffig a pharcio
- lleihau ymdeimlad o unigrwydd a gymdeithasol
- lleihau costau teithio

Mae'r rhain i gyd yn medru cael dylanwad cadarnhaol ar brofiad byw cymunedau a thrigolion Gwynedd.

Mae'r canlynol yn adlewyrchu sylwadau'r swyddogion sydd yn gweithio ar gynlluniau swyddogion teithio llesol:

> "*Mae'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni yn gwireddu'n ymarferol uchelgais ac amcanion sydd wedi ei nodi mewn amryw o strategaethau. Mae hwyluso a hyrwyddo dulliau llesol o deithio yn fuddiol i'n cymunedau mewn sawl ffordd ac mae'n braf medru chwarae rhan yn datblygu a gweithredu prosiectau sy'n cael ei croesawi ar draws Gwynedd*".

> "*Dwi wrth fy modd yn gweithio ar brosiectau sydd yn galluogi'r gymuned i deithio o ddydd i ddydd ar droed neu feic/sgwter, sydd o ganlyniad yn helpu'r amgylchedd a chadw'r trigolion yn iach. Er hyn, mae'n her i gyflawni'r gwaith mewn amserlen gyfyng, fel rhan o dîm mor fychain ac wrth gael gymaint o wrthwynebiad gan fodurwyr*".

**5.4 Y cyd-destun deddfwriaethol**
**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Mae'r Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ('y Ddeddf') yn gwneud darpariaeth—

- ar gyfer mapiau a gymeradwyir o lwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig mewn ardal awdurdod lleol,
- ar gyfer mapiau rhwydwaith integredig a gymeradwyir o'r llwybrau teithio llesol newydd a gwell a'r cyfleusterau cysylltiedig y mae eu hangen i greu rhwydweithiau integredig o lwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig mewn ardal awdurdod lleol,
- sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i fapiau rhwydwaith integredig wrth lunio polisïau trafnidiaeth ac i sicrhau bod llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell,
- sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar deithio llesol yng Nghymru,
- sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, wrth gyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerddwyr a beicwyr a rhoi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol eraill, ac
- sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf er mwyn hyrwyddo teithiau teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell.

**5.5 Opsiynau posib ar gyfer y dyfodol**
Mae'n opsiwn i weithio yn ymarferol gadarnhaol gyda chymunedau. Gall hyn olygu cymunedau yn dod a chynlluniau ei hunain ymlaen ac yn edrych ar ffyrdd amgen o ddatblygu, darparu a chynnal a chadw'r rhain.

Er mwyn sicrhau grantiau yn y maes mae gofyn am safonau uchel sydd yn cael ei adlewyrchu mewn costau uchel. Mae'n bosib mewn rhai senarios y byddai isadeiledd o safon is/llai yn hollol resymol, ymarferol, derbyniol a defnyddiol a medru ei gyflawni am ffracsiwn o'r gost.

**5.6 Risgiau**
Mae amryw o risgiau yn gysylltiedig â'r maes gwaith yma sydd yn cynnwys:

- Gwariant cyfalaf ar ddarparu isadeiledd newydd ond ddim refeniw i'w gynnal a chadw. Mae'n ased sylweddol sydd yn parhau i ehangu wrth i gynlluniau newydd gael ei chyflawni. Mae amryw o risgiau yn berthnasol a hyn sydd yn cynnwys hawliadau am ddifrod ac anafiadau yn deillio o systemau cynnal a chadw annigonol.

- Fod y niferoedd sydd yn defnyddio'r ddarpariaeth ddim yn ddigonol ac adlewyrchu digon o newid mewn modd teithio i ffwrdd o'r car. Hyn yn uchelgais strategol o safbwynt materion newid hinsawdd, iechyd cyhoeddus (meddylio a ffisegol) ond hefyd ar faterion ymarferol fel tagfeydd traffig a phroblemau parcio yn enwedig yn ganol pentrefi/trefi, cyffiniau ysgolion, ysbytai ayyb. Sector cyhoeddus yn colli crediniaeth a chefnogaeth y cyhoedd yn sgil hyn.

- Blaenoriaethau cyhoeddus a gwleidyddol yn newid. Rhai yn teimlo fod angen mwy o fuddsoddiad yn gwella a chynnal a chadw priffyrdd yn hytrach na darpariaeth teithio lesol.

- Fod rhaid cau Lonydd Las os nad ydynt wedi ei tybio yn ddiogel i'w defnyddio a fydd yn amddifadu'r cyhoedd o'i defnydd.

**5.7 Sefyllfa gyllidol y maes**

Mae'n debygol mai'r prif fecanwaith i gyflawni prosiectau sydd wedi ei cychwyn a/neu newydd yn y maes dros y cyfnod 2025-30 fydd drwy Gynllun Gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd lefel y ddarpariaeth a buddsoddiad yn adlewyrchiad o'r cyllid drwy'r ffynhonnell yma bydd modd ei ennill/sicrhau.

Mae'r tablau yn **Atodiad 1** yn dangos y sefyllfa bresennol yn ôl dyraniadau'r Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru gan roi cymhariaeth o hyn gyda'r dyraniadau hanesyddol er gwybodaeth a chyd-destun.

O'r cyfanswm o £5,700,000 sydd wedi ei ddyrannu i Wynedd ar gyfer 2026/27 mae £2,440,000 wedi ei neilltuo ar gyfer cynlluniau teithio llesol. Mae hyn o'i gymharu gyda £2,060,000 yn 2025/26.

Dyma sut mae cyllid 2026/27 wedi ei ddyrannu:

| **Cynllun** | **£** |
|---|---|
| Ffordd Penrhos, Bangor | 650,000 |
| Cob Crwn Porthmadog | 150,000 |
| Chwilog i Afonwen Gwedd 2 | 900,000 |
| Arian craidd Teithio Llesol | 500,000 |
| Ysgol Maenofferen, Blaenau Ffestiniog | 240,000 |
| | **2,440,000** |

Fe fydd gwaith nawr yn mynd rhagddo i raglenni defnydd y £500,000 arian craidd Teithio Llesol ar gyfer 2026/27.

Yn anochel gyda chynlluniau o'r math yma mae eu datblygiad yn cael ei fonitro ar sail barhaus ac mae hyn yn cynnwys o safbwynt cyllidol. Gyda hyn mae'n bosib fydd y rhaglenni a gwariant yn newid dros amser. Mae swyddogion mewn cyswllt parhaus gyda chymheiriaid yn Nhrafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i fonitro a rheoli hyn.

**5.8 Arfer da yn y maes**

Mae'r canlynol yn esiamplau o gynlluniau yng Ngwynedd sydd wedi bod yn destun astudiaethau achos ar y sail y tybir i fod yn adlewyrchu ymarfer da**.**

**5.8.1 Ysgol Rhostryfan – Astudiaeth Achos gan Sustrans**

Llywodraeth Cymru yn cynnig i Sustrans ein cais Llwybrau Diogel mewn Cymunedau fel enghraifft dda o gydweithio gyda Sustrans:

> "*Mae Sustrans yn edrych ar sut mae cynlluniau teithio llesol ysgolion yn cefnogi ceisiadau SRIC……..roeddem o'r farn bod eich cais Ysgol Rhostryfan yn enghraifft wych o ble roedd gan yr ysgol gynllun, roedd yr ysgol yn amlwg wedi'i ymgysylltu â'r broses ac roedd llais y disgyblion wedi bwydo i mewn i'r cais, ac felly wedi ei gryfhau*." (Llywodraeth Cymru)

Yr astudiaeth achos ar wefan Sustrans:
Resources for your active travel school plan - Walk Wheel Cycle Trust - **Download the case study: Active Journeys**
case-study_active-journeys.pdf
astudiaeth-achos_teithiau-llesol.pdf

**5.8.2 Ysgol Cymerau, Pwllheli - Astudiaeth achos gan Drafnidiaeth Cymru**
Gosod llochesi i 30 beic a 20 sgwter yn yr ysgol:
Lle diogel i feiciau yn yr ysgol | Trafnidiaeth Cymru
A safe place for bikes at school | Transport for Wales

**5.8.3 Ysgol Treferthyr, Criccieth - astudiaeth achos gan Lywodraeth Cymru**

> "*Rydym wedi derbyn cais brys am enghreifftiau o astudiaeth achos o gymorth Llywodraeth Cymru i brosiectau sy'n cefnogi'r economi wledig ac wedi meddwl tybed a allwn ddefnyddio cynllun SRIC Ysgol Treferthyr, Criccieth o 24-25" (Llywodraeth Cymru)*
>
> Yr Astudiaeth Achos gan Lywodraeth Cymru:
> *Mae'r lôn dawel a ddarperir gan Gyngor Gwynedd fel rhan o gynllun 2024–25 a ariennir gan SRIC ar gyfer Ysgol Treferthyr yng Nghricieth, yn cynnig enghraifft wledig gymhellol o deithio hygyrch a chynaliadwy wedi'i gynllunio gyda phlant wrth ei galon. Roedd adleoli'r ysgol i gyrion y dref yn peri heriau i deithio llesol i ddechrau, ond roedd craffu cynnar ar y cynigion - drwy gydweithio rhwng tîm Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, cydweithwyr Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, yr awdurdod lleol, Trafnidiaeth Cymru, a gyda chefnogaeth Swyddog Teithiau Llesol yr Ymddiriedolaeth Beicio Olwynion Cerdded - yn galluogi datblygu taith gerdded bwrpasol, olwynion, a llwybr beicio sy'n cysylltu'r safle newydd ag ystâd breswyl fawr, llyfrgell Criccieth a'r stryd fawr. Un o nodweddion allweddol y cynllun oedd dynodi ffordd wledig leol fel lôn dawel, gyda mynediad i gerbydau modur wedi'i gyfyngu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol i flaenoriaethu diogelwch ac annog teithio llesol.*
>
> *Roedd gwelliannau seilwaith cyflenwol yn cynnwys croesfannau newydd, troedffyrdd ehangu, cyffyrdd cul, cyrbiau wedi'u gollwng, a lloches beiciau a rac sgwteri - pob elfen wedi'i gynllunio'n ofalus i gefnogi teithiau diogel a chynhwysol i blant a gwella hygyrchedd i bob defnyddiwr. Mae'r cynllun eisoes wedi derbyn adborth cadarnhaol ynglŷn â nifer y dysgwyr sy'n teithio'n weithredol i'r ysgol. Mae menter lôn dawel Cyngor Gwynedd yn dangos sut y gall cynllunio meddylgar, cydweithredu traws-sector, a dylunio cynhwysol gyflawni gwelliannau ystyrlon mewn trafnidiaeth wledig, gan osod meincnod ar gyfer seilwaith sy'n gyfeillgar i blant a theithio cynaliadwy mewn cymunedau llai trefol.*

**5.9 Datblygiadau Rhanbarthol a Chenedlaethol**
Fel rhan o newid ehangach i weithio ar sail rhanbarthol fe fydd cynlluniau teithio llesol y dyfodol yn cael ei datblygu a gwireddi dan faner Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol.

Mae etholiadau Senedd Cymru yn ystod 2026, a gallai hynny olygu newid mewn ffocws a blaenoriaethau gwleidyddol, ac yn sgil hynny cyllidebau. Yn amlwg does dim modd

rhagolygu beth fydd dylanwad hyn yn gyffredinol a/neu mewn perthnasedd a'r maes gwaith yma ond byddwn yn monitro ac ymateb i'r sefyllfa mewn modd amserol.

**5.10 Data perfformiad**
Fel rhan o ofynion y ddeddf Teithio Llesol mae angen i awdurdodau lleol adrodd ar berfformiad i Lywodraeth Cymru.

Mae diweddariad cynhwysfawr o safbwynt data perfformiad wedi ei gyflwyno yn **Atodiad 2.** Mae hyn yn dangos y cynnydd sydd wedi bod a'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn ystod y blynyddoedd diweddar.

**5.11 Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol**
Mae'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol wedi ei nodi a blaenoriaethu yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae angen nodi mai fframwaith yw'r Cynllun Gweithredu a bod nifer o ffactorau all ddylanwadu ar bryd/os yw cynlluniau penodol yn cael ei gyflawni. Mae'r ffactorau yma yn cynnwys argaeledd tir, sicrhau'r gyllideb a chost y cynllun mewn perthynas â lefel y gyllideb sydd ar gael.

Yn unol â nifer o wasanaethau eraill y Cyngor nid yw wastad yn bosib cwrdd â dyheadau a dymuniadau rhanddeiliaid. Mae hyn oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau sydd yn cynnwys yr arian sydd ar gael i wireddu cynlluniau ag amser staff sydd ei angen i hwyluso a gwireddu prosiectau.

Rhagolygir pe bae argaeledd cyllid yn parhau yn debyg i'r hyn rydym wedi ei dderbyn yn y blynyddoedd diweddar yna fyddai'n cymryd dros 250 mlynedd i wireddi cynlluniau teithio llesol sydd eisoes wedi ei adnabod yng Ngwynedd.

Ta waeth yr heriau a cydnabod y rhwystredigaeth mae'r tîm bach iawn yn parhau i weithio'n galed er mwyn uchafu'r prosiectau y gellir ei cyflawni er budd cymunedau Gwynedd.

**6. Ymgynghori**
Fe fu prosesau ymgynghori yn gysylltiedig â datblygu:

- Y map rhwydwaith teithio llesol yng Ngwynedd
- Y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Roedd yr adborth yn amrywio o'r strategol ac egwyddorol i faterion a galwadau plwyfol a/neu leol iawn. Cafodd y wybodaeth yma ei fwydo a dylanwadu ar ddatblygiad y dogfennau a chynlluniau. Rhaid cydnabod wrth gwrs:

- na fydd modd ymateb yn gadarnhaol i bob sylwad neu gais
- fod rhaid blaenoriaethu
- ystyried lefel o degwch daearyddol ar draws y Sir a hefyd o safbwynt cymunedau gwledig/trefol
- tebygolrwydd fod cynllun yn cwrdd â'r criteria er mwyn bod yn llwyddiannus yn ennill/sicrhau'r cyllid i'w cyflawni

Yn ystod 2026 fe fydd proses ymgynghori pellach yn ennyn barn trigolion ar y llwybrau teithio llesol presennol yn ogystal â chynlluniau teithio llesol ar gyfer y dyfodol. Fydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn Rhagfyr 2026.

**7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**7.1 A ydych wedi cynnwys trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?**

Mae trigolion yn ymgysylltu a'r Cyngor ar sail barhaus ar faterion yn ymwneud a'r maes yma.

Cafodd gwaith ymgynghori cyhoeddus ei ymgymryd wrth ddatblygu'r map teithio llesol a'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Yn ystod 2026 fe fydd proses ymgynghori pellach yn ennyn barn trigolion ar y llwybrau teithio llesol presennol yn ogystal a cynlluniau teithio llesol ar gyfer y dyfodol. Fydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o adroddiad i'w gyflwyno i Llywodraeth Cymru erbyn Rhagfyr 2026.

**7.2 A ydych wedi ystyried cydweithio?**

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi ei ddatblygu gan Uchelgais Gogledd Cymru - fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y rhanbarth, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol arall Gogledd Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cafodd y CTRh ei gymeradwyo gan Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, ar 28 Hydref 2025 a fydd y gwaith o gychwyn gweithredu'r cynlluniau yn cychwyn yn ystod 2026-27.

Rydym yn cyd-weithio yn agos ac ar sail barhaus gyda rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Ymddiriedolaeth Cerdded, Seiclo ac Olwyno (Sustrans)
- Trafnidiaeth Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Asiantaeth Cefnffyrdd
- Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cynghorau Cymuned
- Adrannau arall y Cyngor
- Parc Cenedlaethol Eryri

**7.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i atal problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?**

Rydym yn edrych i gyflawni cynlluniau yn unol â'r fframwaith sydd wedi ei osod yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac edrych am ffyrdd o sicrhau arian refeniw i gynnal a chadw yn ogystal ag arian cyfalaf i adeiladu a gosod seilwaith teithio llesol newydd.

**7.4 Sut ydych wedi ystyried yr <u>hirdymor</u> a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?**
Mae darparu isadeiledd sydd yn galluogi a hwyluso dulliau amgen o deithio yn hytrach na'r car yn medru:

- Lliniaru effaith newid hinsawdd
- Gwella iechyd y boblogaeth
- Sefydlu tueddiadau ac ymarferiad iach gydol bywyd
- Lliniaru problemau yn gysylltiedig â thagfeydd traffig a pharcio

**7.5 Er mwyn sicrhau <u>integreiddio</u>, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?**
Mae'r cynlluniau teithio llesol wedi ei ystyried a chynnwys fel rhan o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol sydd wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda 5 awdurdod lleol arall Gogledd Cymru.

Fe fu ymgysylltu ac ymgynghori estynedig yn gysylltiedig â hyn.

Fel rhan o ymrwymiadau yn gysylltiedig â arwyddo'r Siarter Teithio Llesol mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid eraill ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**8. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol**
Mae hyn yn rhan o'r broses ymgynghori ac asesiad yn gysylltiedig â datblygu pob cynllun yn unigol.

**9. Camau Nesaf**
Y camau nesaf fydd:

1. Cyflawni'r cynlluniau yn unol â'r Cynllun Gweithredu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.
2. Bod yn fyw i gyfleoedd i ennill a sicrhau cyllid o ffynonellau eraill fydd yn galluogi cyflawni prosiectau yn y maes.
3. Diweddaru rhanddeiliaid os/pan fod datblygiadau a neu newid i raglenni cyflawni.
4. Yn ystod 2026 ymgynghori ar y llwybrau teithio llesol presennol yn ogystal â chynlluniau teithio llesol ar gyfer y dyfodol a chyflwyno adroddiad i'r Llywodraeth erbyn Rhagfyr 2026.

**10.0 Gwybodaeth Cefndir**
**1. Adroddiad i Cabinet Cyngor Gwynedd (11.03.2025) Eitem 9 tud. 47-80**
**Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol - Diweddariad**
[(Pecyn Cyhoeddus)Rhaglen Dogfen for Y Cabinet, 11/03/2025 13:00]

**2. Uchelgais Gogledd Cymru – Trafnidiaeth Strategol**
[Uchelgais Gogledd Cymru | Trafnidiaeth Strategol]

**2.1 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
**2.2 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Hawdd ei Ddeall**
Hawdd ei ddeall Ein cynllun ar gyfer trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru
**2.3 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Cynllun Gweithredu**
regional-transport-delivery-plan-cymraeg-appendix-a-unredacted.pdf
**2.4 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Arfarniad Llesiant Integredig Crynodeb Annhechnegol**
integrated-well-being-appraisal-non-technical-summary-cymraeg.pdf
**2.5 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Cynllun Monitro ac Arfarni**
monitoring-evaluation-plan-cymraeg.pdf
**2.6 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru: Adroddiad Ymgynghori**
consultation-report-cymraeg.pdf

**3. Deddf Teithio Llesol Cymru**
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 | Cyfraith Cymru

**4. Nabod Ni: Prosiectau**
Nabod Ni - Tim Prosiectau

**Atodiad 1**

Mae **Tabl 1** yn nodi y dyraniadau arfaethedig, cyfalaf a refeniw, fesul awdurdod lleol rhanbarth y Gogledd ar gyfer 2026/27. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid ar gyfer ystod eang o gynlluniau a gwasanaethau trafnidiaeth sydd yn cynnwys rhai teithio llesol.

**Tabl 1**

**Crynodeb**

| | **CTRh Blwyddyn 1 BA 2026-27** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyfalaf** | **Refeniw** | **CYFANSWM** |
| **Awdurdod Lleol** | | | |
| Conwy | £5.21M | £0.06M | £5.27M |
| Dinbych | £3.95M | £0.06M | £4.01M |
| Fflint | £3.57M | £0.08M | £3.65M |
| Gwynedd | £5.70M | £0.15M | £5.85M |
| Ynys Môn | £3.78M | £0.00M | £3.78M |
| Wrecsam | £5.32M | £0.07M | £5.39M |
| Cydbwyllgor Corfforaethol ar y Cyd Gogledd Cymru | £0.85M | £0.00M | £0.00M |
| **Cyfanswm** | **£28.37M** | **£0.43M** | **£27.95M** |

Mae **Tabl 2** yn dangos y canran o'r gyllideb cyfalaf a refeniw fesul awdurdod lleol ar gyfer 2026/27.

**Tabl 2**

| | **CTRh Blw 1** | | |
|---|---|---|---|
| *Rhaniad Canran* | **BA2026-27** | | |
| | **Cyfalaf** | **Refeniw** | **CYFANSWM** |
| **Awdurdod Lleol** | | | |
| Conwy | 18% | 15% | 19% |
| Dinbych | 14% | 13% | 14% |
| Fflint | 13% | 19% | 13% |
| Gwynedd | 20% | 36% | 21% |
| Ynys Môn | 13% | 0% | 14% |
| Wrecsam | 19% | 16% | 19% |
| Cydbwyllgor Corfforaethol ar y Cyd Gogledd Cymru | 3% | 0% | 0% |
| **Cyfanswm** | 100% | 100% | 100% |


Mae **Tabl 3** yn dangos rhaniad y canran fesul awdurdod lleol ar gyfer 2026/27 wedi ei gymharu â chyfartaledd y chwe blynedd flaenorol.

**Tabl 3**


| *Rhaniad Canran - Cymharu â chyfartaledd chwe blynedd flaenorol* | **Cyfalaf %** | |
|---|---|---|
| | **CTRh Bl1: BA 2026-27** | **Cyfartaledd 2020-2026** |
| Conwy | 18.3% | 25.9% |
| Dinbych | 13.9% | 11.0% |
| Fflint | 10.8% | 20.0% |
| Gwynedd | 20.3% | 14.1% |
| Ynys Môn | 16.3% | 11.1% |
| Wrecsam | 17.5% | 18.0% |
| Cydbwyllgor Corfforaethol ar y Cyd Gogledd Cymru | 3.0% | |
| **Cyfanswm** | 100.0% | 100.0% |

## Atodiad 2

### Data Perfformiad Teithio Llesol

| | |
|---|---|
| Lôn Las Ogwen, Bangor | • Gwnaed gwelliannau i ran o lwybr aml ddefnydd o **650 metr**<br>• Ailosod **3 phont** ym Mhorth Penrhyn<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>Ailosod pontydd ger Porth Penrhyn ar Lon Las Ogwen<br>Cegin Viaduct restoration, Porth Penrhyn, Bangor \| YGC - Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy |
| Ffordd Penrhos, Bangor | Rhaglen adeiladu dros fwy nag un flwyddyn i uwchraddio'r llwybr troed presennol i lwybr teithio llesol aml ddefnydd ar Ffordd Penrhos rhwng cylchfan Treborth a chylchfan Ffordd Belmont ym Mangor.<br><br>• Tua **2km o lwybr troed** wedi'i uwchraddio i lwybr aml ddefnydd<br>• Gosodwyd **4 croesfan** ar hyd y 2km o ffordd ger:<br>Coed Mawr<br>Ysgol Y Garnedd<br>Ysbyty Gwynedd<br>Ysgol Faenol<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>Teithio Llesol<br>Ymgynghoriad Darpariaethau Teithio Llesol ar Ffordd Penrhos<br>Cynllun Teithio Llesol Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd \| YGC - Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy<br><br>   |
| Ysgol Y Garnedd, Bangor | Yng Nghysylltiad Ysgol y Garnedd â Ffordd Penrhos, gosodwyd:<br><br>• Lloches beics ar gyfer **10 beic**<br>• Lloches sgwteri ar gyfer **20 sgwter**<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br><br> |

| | |
|---|---|
| Lôn Las Menai, Caernarfon | Ehangu'r llwybr aml ddefnydd i safonau teithio llesol ger Porth Waterloo:<br>• **120 metr o hyd**<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>[Cynllun Teithio Llesol – Porth Waterloo, Caernarfon \| YGC - Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy]<br><br>   |
| Ysgol Treferthyr, Criccieth | Gwella ac ymestyn y seilwaith teithio llesol presennol yn cysylltu â'r ysgol newydd, gan wella hygyrchedd a diogelwch i gerddwyr a beicwyr.<br>• Uwchraddio **388 metr** o lwybr troed i lwybr aml ddefnydd<br>• **1 groesfan twcan** (cerddwyr a beicwyr)<br>• **1 groesfan wedi'i chodi**<br>• **Lôn Ddistaw**<br>• **Lloches beics ar gyfer 10 beic** yn Ysgol Treferthyr<br>• **Rac sgwteri ar gyfer 10 sgwter** yn Ysgol Treferthyr<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>[Llwybr Teithio Llesol i ysgol gynradd newydd Ysgol Treferthyr Cricieth ac at ddefnydd y cyhoedd \| YGC - Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy]<br><br>  <br>  |
| Ysgol Rhostryfan, Rhostryfan | Gosodwyd ramp hygyrch yn cysylltu maes parcio cymunedol â'r fynedfa gefn i'r ysgol gynradd, gan wella mynediad diogel a chyfleus i ddisgyblion a rhieni. Dyluniwyd strwythur y ramp gan ddefnyddio blociau concrit a waliau concrit wedi'u cynhyrchu ymlaen llaw, gan greu cysylltiad hanfodol rhwng y maes parcio, yr ysgol a'r caeau chwarae cyfagos, gan sicrhau mynediad cynhwysol i bob defnyddiwr.<br><br>• **1 ramp – 60m o hyd**<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:* |

| | |
|---|---|
| |   |
| Bala | Cwblhawyd llwybr i hwyluso cerdded a beicio i gyrraedd Ysgol Godre'r Berwyn yn ddiogel ac yn llesol.<br>• **650 metr** o lwybr cerdded wedi'i wella ar gyfer mynediad gwell i Ysgol Godre'r Berwyn<br>• Symud **man croesi** presennol<br>• Newidiadau i reoli traffig i wella diogelwch cerddwyr<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>[Ysgol Godre'r Berwyn sees benefit of active travel improvements \| YGC - Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy]<br><br>   |
| Ysgol Cymerau, Pwllheli | Gosodwyd llochesi beiciau a sgwteri yn yr ysgol ar gyfer:<br>• **30 beic**<br>• **20 sgwter**<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>[Lle diogel i feiciau yn yr ysgol \| Trafnidiaeth Cymru]<br><br>*Cyn y gwaith:*<br>  <br><br>*Ar ôl y gwaith:* |

| | |
|---|---|
| |    |
| Abergwyngregyn | Darparu llwybr aml ddefnydd newydd yn cysylltu Abergwyngregyn a Thal-y-bont, Llanfairfechan a Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol 5.<br><br>• **4 cilometr** o lwybr aml ddefnydd newydd<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>Gwelliannau A55 Abergwyngregyn i Tai'r Meibion \| YGC - Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy<br><br> |
| Blaenau Ffestiniog | Fel rhan o ddatblygiad Asiantaeth Ffyrdd Trunk Gogledd a Chanolbarth Cymru ar yr A470(T), uwchraddiwyd y llwybrau troed i lwybr aml ddefnydd.<br><br>• **1.05 cilometr** o lwybr aml ddefnydd<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>Llwybr Cysylltiol Blaenau Ffestiniog i Chwarel Llechwedd \| YGC - Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy<br><br> |
| Hirael, Bangor | Roedd cynllun atal llifogydd Hirael yn cynnwys llwybr troed a llwybr beicio newydd.<br><br>• Llwybr troed a llwybr beicio newydd, tua **400 metr o hyd**<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>Cynllun Atal Llifogydd Hirael \| YGC - Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy<br><br>Hirael \| |

| | |
|---|---|
| |  |
| Aldi, Pwllheli | Fel rhan o'r gwaith adeiladu ar gyfer Aldi ym Mhwllheli, sicrhaodd Cyngor Gwynedd lwybr aml ddefnydd o flaen yr archfarchnad bresennol yn ogystal â thir a chyllid i adeiladu llwybr aml ddefnydd ychwanegol tuag at Y Ffôr ar yr A499.<br><br>• Llwybr amlbwrpas newydd, **260 metr o hyd** |
| Cynllun Beiciau Trydan Byw'n Iach | Yn darparu cyfle i'r gymuned leol brofi defnyddio beic trydan am y tro cyntaf. Mae'r beiciau trydan ar gael i'w llogi, neu gall y cyhoedd fynychu sesiynau dan arweiniad a chymryd rhan mewn taith o'r ardaloedd cyfagos.<br><br>• Byw'n Iach Bangor<br>• Byw'n Iach Arfon, Caernarfon<br>• Byw'n Iach Plas Silyn<br>• Byw'n Iach Penllyn, Y Bala<br>• Byw'n Iach Plas Ffrancon, Bethesda<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>Beics Trydan - Byw'n Iach |
| Uned Diogelwch Ffyrdd | 2024-25<br><br>Cydweithiodd swyddogion o'r Uned Diogelwch Ffyrdd â swyddogion yn Living Streets i ddechrau'r cynllun WAW:<br>• Enwebwyd cyfanswm o 12 ysgol (2 ysgol uwchradd a 10 ysgol gynradd)<br><br>*Gwybodaeth ychwanegol:*<br>Uned Diogelwch Ffyrdd Gwynedd Road Safety Unit \| Facebook<br><br>Lansiodd swyddogion o'r Uned Diogelwch Ffyrdd y llyfr "Carys Ofalus – Teithio Llesol" mewn **3 ysgol gynradd** (Chwilog, Cae Top Bangor a Phen-y-bryn Tywyn). Cynhaliwyd amser stori a chrefft ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a sesiwn sgwteri ar gyfer Cyfnod Allweddol 2.<br><br>Ymwelodd Swyddog Living Streets ag Ysgol Friars ar noson agored rhieni Blwyddyn 6 i siarad â rhieni am opsiynau teithio llesol i'r ysgol (ni chasglwyd data yn y digwyddiad hwn). Roedd yr ysgol i fod i gymryd rhan mewn Her Gerdded y flwyddyn academaidd nesaf, lle byddai data'n cael ei gasglu ar sut mae disgyblion Blwyddyn 7 yn teithio i'r ysgol cyn ac ar ôl yr her.<br><br>Living Streets Cymru 01/07/23 – 31/03/25<br><br>**11 ysgol gynradd** yn cymryd rhan yn yr Her Gerdded i'r Ysgol WOW |

- **63.3%** o'r 197,000 o deithiau a gofnodwyd oedd yn teithio llesol
- Cynnydd o **15.8%** mewn teithio llesol
- Gostyngiad o **13.1%** mewn gyrru'r daith gyfan

2 **ysgol wedi'u recriwtio ar gyfer Cam Nesaf i'r Ysgolion Uwchradd**

- Y ddwy wedi cwblhau digwyddiad Trawsnewid ac 1 wedi cwblhau wythnos her
- **48%** yn adrodd eu bod yn **cerdded mwy** a chynnydd o **17.4%** mewn disgyblion **yn teithio'n llesol** i'r ysgol oherwydd yr her

**1 ysgol wedi ymuno â'r Cynulliad Ar-lein Cerdded Gaeaf** yng Nghymru

Ymwelodd Living Streets ag Ysgol Penybryn Tywyn i ddathlu eu hymrwymiad i arwain ffordd o fyw iach ac egnïol a **sicrhau safle rhif 4 yn y Deg Uchaf WOW**.

*Gwybodaeth ychwanegol:*
Gwynedd Walk to School Wales 23-25 end of project report.pdf

| Name | Baseline active travel % | Journeys logged active travel % | Active travel change from baseline (p.pts.) | Walk/wheel all the way change from baseline (p.pts.) | Driven all the way change from baseline (p.pts.) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Penybryn | 41.23% | 83.89% | 42.66 ↑ | 15.27 ↑ | -35.28 ↓ |
| Ysgol Cefn Coch | 43.67% | 69.19% | 25.52 ↑ | 12.92 ↑ | -25.07 ↓ |
| Ysgol Y Garnedd | 51.96% | 62.94% | 10.98 ↑ | 12.53 ↑ | -11.12 ↓ |
| Ysgol Gynradd Nefyn | 34.92% | 57.88% | 22.96 ↑ | 6.57 ↑ | -13.66 ↓ |
| Ysgol Bro Lleu | 47.19% | 53.12% | 5.93 ↑ | 4.75 ↑ | -4.98 ↓ |
| Ysgol y Traeth | 56.07% | 70.99% | 14.92 ↑ | 3.59 ↑ | -10.19 ↓ |
| Borth y Gest | 15.63% | 56.90% | 41.27 ↑ | 3.37 ↑ | -16.21 ↓ |
| Ysgol Gynradd Talysarn | 52.87% | 61.67% | 8.80 ↑ | 2.49 ↑ | -7.88 ↓ |
| Ysgol Yr Hendre | 51.63% | 63.76% | 12.13 ↑ | 1.76 ↑ | -11.45 ↓ |
| Ysgol Cae Top | 32.02% | 46.52% | 14.50 ↑ | 1.57 ↑ | -12.86 ↓ |

Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r prosiectau wedi gweld **cynnydd (o'r llinell sylfaen) o 19.4%** mewn cerdded/beicio i'r ysgol yn llwyr ac o **33.3% mewn teithiau llesol** i'r ysgol.

Trefnodd Ysgol Borth-y-Gest fys cerdded ar gyfer Parcio a Cherdded, a **chynyddodd teithio llesol o 16% i 59%**. Roedd **20% o'r teithiau ym mis Mehefin 2024 yn Parcio a Cherdded** gyda rhieni'n cymryd rhan hyd yn oed ar ddiwrnodau pan nad oedd Parcio a Cherdded wedi'i drefnu.

| | |
|---|---|
| | 2023-24<br><br>Living Streets Cymru (www.livingstreets.org.uk):<br><br>• **10 ysgol gynradd** wedi'u recriwtio a lansio WOW – yr her gerdded i'r ysgol (livingstreets.org.uk)<br>• **1,605 o ddisgyblion** wedi cofnodi 30,191 o deithiau (1/09/23 – 31/03/24)<br>• **2 ysgol** wedi'u recriwtio ar gyfer Cam Nesaf i'r Ysgolion Uwchradd<br>• **Pob ysgol** wedi derbyn cyfarfodydd sefydlu WOW<br>• **Pob ysgol WOW** wedi derbyn cynulliad 'Cerdded trwy'r Gaeaf'<br>• Yn yr ysgolion WOW bu **cynnydd o 22% mewn teithio llesol** a **gostyngiad o 16% mewn gyrru'r holl ffordd** i'r ysgolion WOW<br><br>Arolwg Dwylo i Fyny Teithio i'r Ysgol (Arolwg Dwylo i Fyny Teithio i'r Ysgol - Iechyd Cyhoeddus Cymru):<br><br>• **12 ysgolion** gymerodd ran yn yr arolwg<br>• **545 o ddisgyblion** yn cymryd rhan<br>• **327 (60%) o ddisgyblion** teithio llesol<br>• **218 (40%) o ddisgyblion** heb deithio llesol<br>• **45.8% yn cerdded** i'r ysgol<br>• **3.9% yn beicio** i'r ysgol<br>• **2.2%** yn mynd i'r ysgol **ar sgwter**<br>• **8.1% yn defnyddio modd cymysg** i gyrraedd yr ysgol |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD** | 22 Ionawr 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **AWDUR** | Sandra Thomas, Rheolwr Rhaglen,<br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Menna Trenholme, Dirprwy Arweinydd y Cyngor |

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Mae gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau rôl i fonitro cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran rhoi Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-28 ar waith.

Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi sut bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn diwallu ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Drwy graffu strwythur llywodraethu a threfniadau cyflawni'r Bwrdd yn ogystal â chraffu gweithrediad y cynllun bydd y Pwyllgor yn cael ei fodloni neu'n argymell er sicrhau gwelliant.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- Y strwythur llywodraethu
- Beth yw'r trefniadau monitro?
- Pa gynnydd sydd wedi ei wneud o ran gwireddu'r Cynllun Llesiant?

**3. Crynodeb a'r uchafbwyntiau allweddol am 2025 (gwelwch Atodiad 1 am fanylion pellach):**

3.1 Mae'r BGC ym mlwyddyn 3 o'r Cynllun Llesiant 5 mlynedd presennol, a mae'r rhan fwyaf o'r amcanion naill ai wedi'u cwblhau neu mae cynllun ar waith gydag amserlen arfaethedig ar gyfer eu cwblhau. Mae cyfarfodydd chwarterol wyneb yn wyneb yn cael eu mynychu'n dda iawn ac yn rhoi cyfle i aelodau rwydweithio a chydweithio ar nifer eang o faterion sy'n effeithio ar ein cymunedau. Mae agendâu'r cyfarfodydd yn canolbwyntio mwy ar wneud penderfyniadau a blaenoriaethu camau gweithredu yn hytrach na bod yn blatfform rhannu gwybodaeth. Er bod y BGC yn fforwm strategol, mae'n deg dweud bod BGC Gwynedd ac Ynys Môn wedi datblygu i gael persbectif gweithredol gyda llawer o

enghreifftiau o bartneriaid yn cydweithio ar y cyd, yn rhannu arfer da, yn dysgu gwersi ac yn symud ymlaen gyda'i gilydd.

3.2 Eleni, mae'r BGC wedi cydweithio yn agosach gyda Llywodraeth Cymru, gyda Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Comisiynydd y Iaith Gymraeg a'r Comisiynydd Plant i gyflawni ei amcanion. Esiamplau yn cynnwys:

3.2.1 Arwain ar gydweithio gyda'r Comisiynydd Plant i beilota darparu dosbarth-feistri ar **Hawliau Plant** i bob sefydliad BGC yng ngogledd Cymru. Mae'r sesiynau yma yn alunio gyda'r rheini sydd wedi eu cynllunio i aelodau Cyngor Gwynedd ym mis Chwefror. Mae dyddiadau wedi eu pennu ym mis Mawrth a'r lleoliad wedi ei gadarnhau yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor.

3.2.2 Yr Is-grŵp **iaith Gymraeg** wedi cwblhau'r Prosiect Ymarferion Recriwtio da ac wedi cychwyn ar y Prosiect o Chwalu'r Mythau am weithio yn Gymraeg – i'w lansio yn Eisteddfod yr Urdd mis Mai.

3.2.3 **Siarter Teithio Llesol:** BGC Gwynedd a Môn yw'r Bwrdd cyntaf drwy Gymru i fod yn cyd-arwyddo'r Siarter Teithio Llesol. 6 aelod o'r Bwrdd wedi cyd-arwyddo'r Siarter ym mhresenoldeb Ken Skates, Gweinidog Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth. 4 aelod arall yn y broses o ymrwymo i'r Siarter – yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, BIPBC a Grŵp Llandrillo Menai. Edrychir ar yr Is-Grŵp yng Ngwynedd a Môn fel enghraifft wych o ran cydweithio a'i ddatblygiad, ac arweinir y ffordd gyda'r grwpiau cyffelyb ar draws y gogledd. Mae aelodau'r grŵp wedi creu astudiaethau achos o fewn eu sefydliadau sy'n dangos esiamplau o arfer dda, gweithredu'r Siarter ac yn agored i rannu syniadau ac adnoddau er mwyn osgoi dyblygu.

3.2.4 **BGC sy'n Wybodus am Drawma:** Wedi cynnal sesiynau penodol gydag arbenigwyr ar Drawma o Cyngor Môn i holl Aelodau'r Bwrdd. Dilynwyd hyn gan holiadur sylfaenol a rennir i asesu dealltwriaeth ac arfer cyfredol. Rydym yn cydweithio ar ddarparu hyfforddiant tebyg i sefydliadau cyhoeddus ar draws y gogledd. Mae Jane Hutt, Ysgrifennydd Cabinet Llyw Cymru wedi cyflwyno'r datblygiad fel "*un arloesol sydd yn adlewyrchu newid diwylliannol a systemig, gan feithrin amgylcheddau sy'n ymatebol i drawma ac anffawd. Mae hefyd yn enghraifft o bwyslais y Ddeddf ar bartneriaeth, gyda chyrff cyhoeddus yn cydweithio i feithrin gwydnwch a gwella canlyniadau i gymunedau ledled Gwynedd ac Ynys Môn.*"

3.2.5 Mynychodd Derek Walker, **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru,** gyfarfod y BGC ym mis Medi mewn person ac roedd yn falch o lefel y cydweithio a'r arloesedd a ddangoswyd gan aelodau'r BGC yng Ngwynedd a Môn. Roedd hefyd yn frwdfrydig am yr enghreifftiau a gyflwynwyd o ymgysylltu â'n cymunedau ar faterion lles.

## 4. Cefndir / Cyd-destun:

4.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny.

Sefydlodd y Ddeddf hefyd Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chynrychiolaeth gan gyrff cyhoeddus a chyrff gwirfoddol allweddol ym mhob sir. Mae sefydliadau cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi ymuno i gydweithio ar un Bwrdd. Bob pum mlynedd, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant yn eu hardaloedd a defnyddio hyn fel sail i'r Cynllun Llesiant ar gyfer y pum mlynedd i ddod.

4.1.2 Un o'r prif heriau i'r Bwrdd yw sefydlu lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a gwneud gwahaniaeth gyda'n gilydd, gyda'r adnoddau a'r capasiti cyfyngedig sydd ar gael i ni. Wrth ddatblygu'r Cynllun Llesiant, cawsom sgyrsiau am ble y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf heb ddyblygu'r gwaith da sydd eisoes ar y gweill mewn partneriaethau a sefydliadau eraill. Mae'r Bwrdd wedi dysgu o brofiad ac wedi addasu ei strwythurau dros y cyfnod.

4.1.3 **Amcanion Cynllun Llesiant 2023-28:**

Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant 2023-28 Gwynedd a Môn ym mis Mai 2023. Mae **tri Amcan Llesiant penodol, sef**:


- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith* ***tlodi*** *ar lesiant ein cymunedau.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein* ***plant a phobl ifanc*** *er mwyn gwireddu eu llawn botensial.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at* ***Sero Net Carbon****.*

4.1.4 Mae'r **iaith Gymraeg** yn flaenoriaeth parhaol i'r Bwrdd ac rydym yn ei hyrwyddo ym mhob maes o'n gwaith.

4.1.5 Mae methodoleg **System Gyfan Pwysa Iach: Cymru Iach** wedi ei fabwysiadu fel ffordd o weithio drwy'r gwaith yma. Mae'r dull yma yn rhoi'r sylw pennaf ar arweinyddiaeth a galluogi newid drwy gydweithredu a chyfranogi lleol. Mae'n golygu gweithio ar y cyd â phawb a all ddylanwadu ar lif dewisiadau bwyd iach a fforddiadwy (fel gweithwyr proffesiynol a chymunedau lleol) a chreu cyfleoedd i alluogi pobl i symud mwy a chadw'n heini.

4.2.1 **Cynllun Cyflawni 2025:**

Mae'r Bwrdd wedi gosod eu hamcanion a chyfeiriad cyffredinol ar gyfer y gwaith dros gyfnod y Cynllun a mae cynllun manwl wedi ei osod ar gyfer y cyfnod cychwynnol, 2023-2025, sydd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Mae'r diagram yma yn dangos sut mae'r Bwrdd yn blaenoriaethu cyflawni'r amcanion yn ogystal â dangos y berthynas hefo Pwysau Iach a'r Iaith Gymraeg:




4.2.2 **Gweithdrefnau Darparu:**

Oherwydd llwyddiannau blaenorol a ffocws parhaus yr Is-grŵp Iaith Gymraeg, cytunodd y BGC y dylai barhau yn ei ffurf bresennol – dan gadeiryddiaeth Dr Lowri Hughes o Brifysgol Bangor. Yn dilyn asesiad academaidd annibynnol o effeithiolrwydd is-grwpiau BGC eraill, penderfynwyd bwrw ymlaen â'r argymhelliad i sefydlu grwpiau Tasg a Gorffen â mwy o ffocws gweithredol ar gyfer y camau gweithredu eraill.  Felly, mae pob un o'r camau gweithredu sydd wedi'u blaenoriaethu o dan y tri prif amcan yn cael eu rhoi ar waith gan Grŵp Tasg a

Gorffen gyda staff gweithredol o sefydliadau sy’n aelodau o’r BGC yn cydweithio i gyrraedd y nod tymor byr.

**4.2.3 Cefnogaeth a chydweithio rhanbarthol:**

Cefnogir y BGC yn rhanbarthol gan Bartneriaeth Mewnwelediad Gogledd Cymru / North Wales Insight Partnership (NWIP), sy'n cynnwys swyddogion o bob rhan o'r sector cyhoeddus ac yn cysylltu sefydliadau a chymunedau ar draws y rhanbarth. Mae NWIP yn annog gwaith partneriaeth rhanbarthol i alinio blaenoriaethau a nodi cyfleoedd ar draws y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu Grant Cymorth Rhanbarthol BGC Gogledd Cymru sy’n cael ei reoli gan Gyngor Gwynedd ar ran BGCau y rhanbarth. Diben y cymorth hwn yw annog cydweithio ag arloesi rhwng y tri BGC. Mae'r grant hwn yn cefnogi datblygiad rhai dulliau arloesol o ymgysylltu a chyd-gynhyrchu, sydd eisoes wedi helpu i gefnogi cyflawni’r amcanion llesiant lleol.

Mae Rhwydwaith Cynhyrchu Cymru yn darparu cefnogaeth hirdymor ar gyfer ymgysylltu a chyd-gynhyrchu ar draws Gogledd Cymru. Mae’r BGC yn defnyddio cefnogaeth y Rhwydwaith hwn i helpu i ymgysylltu’n lleol gyda chymunedau.

**4.2.4 Monitro:**

Mae’r Is-grŵp Iaith a’r grwpiau Tasg a Gorffen a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Maent yn diweddaru’r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod y cyfarfodydd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno. Mae gan dîm cefnogi’r Bwrdd hefyd rôl i’w chwarae rhwng cyfarfodydd i gefnogi a chynnal y gwaith. Hefyd cyhoeddir adroddiad blynyddol sy’n crynhoi cynnydd wrth i’r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio’n gyson gan Bwyllgorau Craffu Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae’r Ddeddf Llesiant a’r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau craffu’r Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu’r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a’r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu’r Cynllun Llesiant

**4.3 Gweithredu yn 2025: Gwelwch Atodiad 1**

**5. Ymgynghori**

Mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgynghori yn swyddogol gyda chymunedau ar yr Asesiadau Llesiant yn ogystal â’r Cynllun Llesiant. Rydym hefyd yn cynnal sesiynau ymgysylltu gyda grwpiau cymunedol ag ysgolion

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn gweithredu yn unol â saith egwyddor arweiniol. Mae pump o’r rhain yn cydymffurfio â’r **pum ffordd o**

**weithio** a amlinellir yn y Ddeddf (Tymor Hir, Atal, Cydweithio, Integreiddio a Chynnwys) a dau wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd yn lleol (Iaith Gymraeg a lleihau anghydraddoldeb). Bydd yr egwyddorion yma yn ein helpu i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol ac yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau yr ydym yn eu hwynebu i'r dyfodol.

6.1 A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?
Mae gan ein trigolion a'n cymunedau rôl bwysig i'w chwarae wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a byddwn yn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n ganolog i'r broses o gynllunio gwaith y Bwrdd. Byddwn yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer pob oedran ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio o fewn y safonau hynny. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu cyfathrebu â'r Bwrdd yn eu hiaith a'u cyfrwng o'u dewis.

6.2 A ydych wedi ystyried **cydweithio**?
Byddwn yn ceisio cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal cydweithio effeithiol. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda rhwng aelodau'r Bwrdd a'n trigolion am yr hyn sy'n cael ei wneud i wireddu amcanion a blaenoriaethau. Byddwn yn ystyried aelodaeth y Bwrdd yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y partneriaid cywir yn cael eu cynnwys er mwyn cyflawni ein hamcanion.

6.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?
Byddwn yn defnyddio data tueddiadau i adnabod y problemau fydd yn wynebu ein cymunedau yn y dyfodol ac yn datblygu a gweithredu cynlluniau i'w hatal. Byddwn yn cydweithio gyda chymunedau i'w galluogi i wneud mwy i atal problemau rhag datblygu a chefnogi rhaglenni all wneud gwahaniaeth go iawn yn y tymor hir.

6.4 Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?
Byddwn yn parhau i gasglu data i gael gwell dealltwriaeth o sut mae cymunedau yn edrych ar hyn o bryd, a sut y byddant yn edrych yn y dyfodol o ganlyniad i ffactorau fel newid demograffeg. Byddwn hefyd yn edrych i weld pa newidiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar y gorwel a cheisio dadansoddi'r effaith ar ein cymunedau ni. Drwy hyn gallwn gydweithio fel partneriaid a thrigolion i gynllunio'r gwasanaethau fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

6.5 Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?
Byddwn yn gweithredu mewn ffordd fydd yn cyfrannu at fwy nag un amcan ble bo'n briodol ac yn unol ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ceisio integreiddio gwasanaethau os bydd tystiolaeth yn dangos y byddai hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. Byddwn yn ystyried strategaethau a

chynlluniau lleol a rhanbarthol eraill sy'n gweithio tuag at yr un amcanion neu amcanion tebyg ac yn cydweithio er mwyn eu cyflawni.

**7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

Cynhaliwyd asesiad effaith gynhwysfawr wrth fabwysiadu'r Cynllun Llesiant yn 2023. Roedd yn cynnwys effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Iaith Gymraeg a'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol (Deddf Cydraddoldeb 2010). Rydym yn cefnogi partneriaid y Bwrdd gyda Asesiadau Effaith fel bo'r angen.

**8. Camau Nesaf**

Yn dilyn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gydag Aelodau'r Bwrdd gydag unrhyw argymhellion. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei graffu gan Phwyllgor Sgrwtini Cyngor Sir Ynys Môn.

## Atodiad 1: Gweithredu yn 2025

**1. Yr Iaith Gymraeg:**

| **Prosiect Chwalu a Herio'r Mythau:**<br>Comisiynwyd Tylwyth i greu adnodd cefnogol a defnyddiol a fyddai'n chwalu a herio'r mythau ynglŷn â gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol ac o fewn y sector cyhoeddus. Yn aml clywir sylwadau fel 'Dydi fy Nghymraeg i ddim digon da i weithio o fewn sefydliad cyhoeddus' neu 'Dydi'r gallu i weithio yn y Gymraeg ddim yn fanteisiol' wrth drafod cyfleoedd swyddi o fewn y sefydliadau. Drwy gynnal y sesiynau a thyrchu'n ddyfnach i'r mythau a'u gwreiddiau, bydd yr adnodd gweledol a digidol yn fodd i chwalu'r mythau gan ddangos y gwir darlun o weithio o fewn sefydliad cyhoeddus yng ngogledd Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Dangosir y gefnogaeth sydd ar gael a'r strwythurau sydd mewn lle o fewn y sefydliadau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gael, beth bynnag yw gallu Cymraeg y cyflogai. Mae'r prosiect hwn yn archwilio ac adnabod y mythau sy'n bodoli ynglŷn â'r Iaith Gymraeg, boed hynny yn y gweithle neu o fewn y gymuned, ac yn ceisio mynd ati i'w herio gan adnabod prosesau y gellir eu rhoi mewn lle i chwalu'r mythau yma. Mae pwyslais hefyd ar brofiadau gweithwyr a'r cyhoedd yn rhanbarthol, a chesglir eu syniadau, sylwadau a'u barn yn ystod grwpiau ffocws, cyfweliadau a sesiynau gyda'r bwriad o'u defnyddio fel sail i'r allbwn digidol/gweledol.<br>Mae grwpiau ffocws eisoes wedi'u cynnal gyda'r hyfforddeion a'r prentisiaid cyn y Nadolig er mwyn cael eu barn, sylwadau a'u hargraffiadau o fod yn dysgu'r Gymraeg a gweithio mewn lleoliad gwaith cyfrwng Cymraeg. Bu'r Uned Iaith hefyd yn rhannu'r 12 Myth am y Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol dros y Nadolig fel ffordd o godi ymwybyddiaeth am y prosiect. Mae sesiwn hefyd wedi'i gynnal â disgyblion Ysgol Brynrefail a hynny mewn cyd-weithrediad â Gyrfa Cymru eto, er mwyn casglu barn, argraffiadau a'u syniadau ynglŷn â gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Is-Grŵp Iaith |
| Aelodaeth o'r Is-grŵp: | Prifysgol Bangor (Cadeirydd); Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, BIPBC |
| Cydweithio gyda: | ARFOR, Comisiynydd y Gymraeg |
| Nawdd ariannol | £22k gan y Gronfa BGC Rhanbarthol |
| Cwblhawyd | I'w gwblhau diwedd Ebrill 2026 a'i lansio yn Eisteddfod yr Urdd ym Môn (Mai 2026) |
| Deilliannau: | • Deall materion allweddol ynghylch recriwtio siaradwyr Cymraeg gan chwalu'r mythau sy'n bodoli o ran gweithio o fewn y sefydliadau cyhoeddus.<br>• Argyhoeddi gweithwyr presennol, darpar gweithwyr a'r gymuned bod cyfle am swyddi o safon i'w cael o fewn y sefydliadau cyhoeddus yn |

| | |
|---|---|
| | lleol a bod eu gallu yn y Gymraeg yn eu gwneud yn gymwys i weithio yno, os ydynt yn rhugl neu'n ddysgwyr.<br>• Adnodd digidol, aml-ddefnydd sy'n ddefnyddiol i'r sefydliadau cyhoeddus ei ddefnyddio wrth recriwtio a hyrwyddo cyfleoedd.<br>• Llyfrgell o asedau cyfryngau cymdeithasol ar ffurf clipiau fideo, postiadau ayb. |
| Camau nesaf: | • Cynnal ymgyrch marchnata yn defnyddio'r adnoddau digidol a gweledol.<br>• Lansio'r adnodd yn Eisteddfod yr Urdd ym Môn, Mai 2026.<br>• Rhannu'r adnoddau gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus tu hwnt i ogledd Cymru.<br>• Sicrhau defnydd o'r adnodd yn ystod proses recriwtio, hyrwyddo cyfleoedd a chasglu adborth. |
| Prosiect nesaf | Bydd prosiect nesaf yr Is-Grŵp Iaith yn ddibynnol ar arian y Grant Rhanbarthol. |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | • Bydd sefydliadau yn defnyddio'r adnodd wrth hysbysebu a recriwtio ar gyfer swyddi.<br>• Bydd sefydliadau yn nodi cynnydd yn y nifer o weithwyr lleol sydd yn ymgeisio am swyddi .<br>• Bydd yr Iaith Gymraeg yn fwy gweledol o fewn gwasanaethau a chymunedau.<br>• Bydd gwell dealltwriaeth gan y sefydliadau i ddeall y materion allweddol ynghylch recriwtio siaradwyr Cymraeg.<br>• Bydd yr adnodd yn chwalu'r mythau sy'n bodoli mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. |

**2. Pwysau Iach:**

**Pwysau Iach:**

Mae aelodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen Pwysau Iach yn parhau i gynyddu, gyda'r sefydliadau blaenllaw yn cael eu cynrychioli.

Mae'r Tîm Pwysau Iach System Gyfan wedi comisiynu 'Food Active' a maent yn cydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn i gyd-gynhyrchu'r canllaw a'r rhestr wirio ar gyfer y peilot: Hyrwyddo Amgylcheddau Actif a Bwyd Iachach: Canllaw arfer dda a rhestr wirio. Nod y rhestr wirio yw

- Darparu adnodd i sefydliadau allu adolygu eu polisïau a gweithgareddau mewnol er mwyn hyrwyddo pwysau iachach ac arddangos arferion da.
- Cynnig awgrymiadau am lefydd i wella a blaenoriaethu eu hymdrechion.
- Arwain ar ddatblygiad a chytuno ar weithredoedd ychwanegol posibl i'r sefydliad allu cefnogi Dull System Gyfan tuag at pwysau iach.
- Darparu cyfleoedd i sefydliadau ystyried su mae modd gweithio â phartneriaid o fewn y system leol drwy gymryd Dull System Gyfan.

Mae llawer o adnoddau eisoes wedi'u datblygu gyda rhagor yn cael eu datblygu er mwyn cefnogi'r peilot. Y nod yw cyflwyno'r peilot hwn i weddill gogledd Cymru a Chymru.

Mae cyswllt wedi'i wneud gyda'r Is-Grŵp Siarter Teithio Llesol gan bod agweddau o waith y ddau grŵp yn gor-gyffwrdd, a bydd aelodau'r grŵp Pwysau Iach yn derbyn cyflwyniad gan aelod o staff Cyngor Sir Ynys Môn sydd wedi bod yn allweddol wrth fapio llwybrau cerdded i staff yn ystod amser cinio, sy'n hyrwyddo llesiant a chadw'n iach. Fe'i rhennir fel esiampl o arfer dda. Yn yr un modd, bydd aelod o'r Grŵp Pwysau Iach yn rhoi cyflwyniad i'r Is-Grŵp Siarter Teithio Llesol ar y toolkit :Gweithle Actif – Actif North Wales, sy'n cynnwys polisi a fideos o weithgareddau gall staff ei wneud wrth y ddesg.

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen Pwysau Iach |
| Aelodaeth o'r Grŵp Tasg a Gorffen: | Cyngor Sir Ynys Môn; Tim Iechyd Cyhoeddus yn BIPBC, Cyngor Gwynedd, Grŵp Llandrillo-Menai, Byw'n Iach; Gogledd Cymru Actif, BIPBC |
| Cydweithio gyda: | Grŵp Partneriaeth Strategol Rhanbarthol Pwysau Iach |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Cyfnod y Cynllun Llesiant 2023-2028 |

| | |
|---|---|
| Deilliannau: | • Defnyddio'r Dangosyddion a'r Cerrig Milltir Cenedlaethol i greu dashfwrdd, gôl a ffocws i waith y grŵp.<br>• Casglu'r data sy'n bodoli yn barod o ran Pwysiau Iach ac adnabod lle gall y grŵp wneud gwahaniaeth.<br>• Y Tîm Iechyd Cyhoeddus i barhau i roi adborth ar geisiadau cynllunio yng Ngwynedd a Môn.<br>• Cynllun gweithredu manwl ar sut all sefydliadau'r Bwrdd ymrwymo a chydweithio ar faterion pwysau iach, yn cynnwys addasu trefniadau caffael, rhoi adborth ar geisiadau cynllunio, darparu gwasanaethau ayyb |
| Camau nesaf: | • Datblygu cynllun gweithredu manwl i'r grŵp sy'n canolbwyntio ar waith tymor byr a chanolig y gellir ei wneud o fewn y sefydliadau gyda camau mesur cyraeddadwy.<br>• Tîm Iechyd Cyhoeddus i echdynnu data ar gyfer Gwynedd a Môn o'r 'System Mapping & Change' a'r 'ripple effect' er mwyn casglu'r hyn sy'n digwydd o fewn y rhanbarth a'i ddefnyddio i rhag-gynllunio. |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | • Gweithio gyda'r Tîm Iechyd Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod modd gweld effaith gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen. |

**3. Amcan Newid Hinsawdd:**

**3.1 Gweithredu'r Siarter Teithio Llesol:**

Ers mis Mawrth 2025, mae 5 aelod o'r Bwrdd wedi arwyddo'r Siarter Teithio Llesol yn unigol, gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ymuno â'r 5 i gyd-arwyddo'r Siarter fel aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a hynny ym mhresenoldeb Ken Skates, Gweinidog Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru. Ni yw'r Bwrdd cyntaf drwy Gymru i fod yn cyd-arwyddo'r Siarter Teithio Llesol. Mae'r aelodau yn cydweithio, rhannu syniadau ac arferion da a gwelir bod cynnydd yn cael ei wneud o ran sgôr cyfunol yr aelodau ar yr asesiad gwaelodlin a gwblheir bob chwarter. Y sgôr ar ddiwedd chwarter 2 (mis Medi) oedd 20. Mae isafswm sgôr o 30 i basio Lefel 1 y Siarter, a rhoddir 2 flynedd i'w gwblhau.
Edrychir ar yr Is-Grŵp yng Ngwynedd a Môn fel enghraifft wych o ran cydweithio a'i ddatblygiad, ac arweinir y ffordd gyda'r grwpiau cyffelyb ar draws y gogledd. Mae aelodau'r grŵp wedi creu astudiaethau achos o fewn eu sefydliadau sy'n dangos esiamplau o arfer dda, gweithredu'r Siarter ac yn agored i rannu syniadau ac adnoddau er mwyn osgoi dyblygu. Bydd y cwbl yn cael eu rhoi ar wefan y Bwrdd, ac eisoes yn cael eu rhannu â sefydliadau cyhoeddus eraill ar draws gogledd Cymru. Mae cynrychiolaeth o Gyngor Sir Ynys Môn eisoes mewn trafodaethau â'r sefydliadau hynny sy'n lleol i Llangefni o ran sut mae modd rhannu'r adnodd mapio llwybrau cerdded i staff gyda'r sefydliadau er mwyn osgoi dyblygu a rhannu arfer dda.
Mae trefniadau ar y gweill i gynnal cyfarfod arbennig o'r Is-Grŵp Siarter Teithio Llesol ym mis Mawrth 2026 i ddathlu blwyddyn ers arwyddo'r Siarter, ond hefyd i longyfarch sefydliadau eraill o'r Bwrdd a fydd yn arwyddo'r Siarter yn unigol ac fel aelodau o'r Bwrdd. Estynnir gwahoddiad i Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i'r digwyddiad ac i dderbyn adborth o'r sesiwn Llais y Dysgwyr gyda myfyrwyr Grŵp Llandrillo-Menai a gynhaliwyd ddechrau fis Rhagfyr. Roedd hyn yn cynnwys myfyrwyr o Wynedd.

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen |
| Aelodaeth: | Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor, BIPBC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Grŵp Llandrillo-Menai, Medrwn Môn a Heddlu Gogledd Cymru |
| Cydweithio gyda: | Iechyd Cyhoeddus Cymru, Walk, Wheel, Cycle Trust (Sustrans gynt) |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Dwy flynedd (Medi 2024 – Awst 2026) |
| Deilliannau: | • Hyrwyddo a gweithredu Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru.<br>• Trafodaethau ac ymgynghoriad gyda Thrafnidiaeth Cymru am y newidiadau arfaethedig i gludiant cyhoeddus yn 2028.<br>• Cynnal dathliad i nodi blwyddyn ers arwyddo'r Siarter a chroesawu aelodau newydd i arwyddo a chyd-arwyddo. |
| Camau nesaf: | • Parhau i gydweithio fel sefydliadau'r Bwrdd i weithredu i gwblhau'r Siarter. Cefnogi sefydliadau newydd i arwyddo'r Siarter Teithio Llesol. |

| | |
|---|---|
| | • Sefydlu partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru i ymateb i'r heriau sy'n wynebu staff sefydliadau cyhoeddus gyda chymudo yn llesol i'r gweithle. |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | • Cynnydd amlwg yn y sgôr cyfunol y Bwrdd ar gyfer yr asesiadau gwaelodlin i'r Siarter Teithio Llesol.<br>• Adrodd ar nifer sefydliadau BGC newydd sydd wedi ymrwymo i'r Siarter ac yn ei roi ar waith.<br>• Cynnydd yn nifer staff sefydliadau sy'n cymudo mewn unrhyw fodd ar wahân i deithio mewn car (ddim yn drydan) i'r gweithle. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Rydym yn gweithredu ac yn ymrwymo i'r Siarter yn y Gymraeg. Mae'r holl adnoddau ar gael yn Gymraeg. |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Cefnogi a hyrwyddo staff holl sefydliadau'r Bwrdd i wneud dewisiadau mwy llesol wrth gymudo i gwaith, wrth deithio yn ystod gwaith ac yn eu oriau hamdden, drwy rannu arferion da a gwybodaeth gyfredol am gynlluniau megis Cynllun Beicio, ceir trydan a mapiau/llwybrau cerdded. |

| | |
|---|---|
| **3.2 Asesiad Risg Newid Hinsawdd:**<br>Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys yr argymhelliad, *y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu risgiau hinsawdd i'w cymunedau erbyn diwedd 2027, gan ddiweddaru eu canfyddiadau bob pum mlynedd fel rhan o'u hasesiadau llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus integreiddio'r canfyddiadau hyn i'w cynllunio corfforaethol a strategol.*<br>Mae tri bwrdd y gogledd wedi cytuno i gydweithio i ddarparu un asesiad ar y cyd a fydd gydag opsiynau i ddrilio lawr at lefel sirol. | |
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen |
| Aelodaeth: | 6 x Cyngor Sir y gogledd, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, BIPBC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cydweithio gyda: | Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus y gogledd |
| Nawdd ariannol | Cronfa BGC Rhanbarthol (£35k dros dwy flynedd) |
| Amserlen | 2 flynedd Medi 2024 – Awst 2026 |
| Deilliannau: | • Cydymffurfio gyda'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol i gynnal Asesiad Risg Newid Hinsawdd<br>• Dadansoddiad bylchau yn cymharu ARNH newydd Gogledd Cymru â ARNH Cymru<br>• ARNH cynhwysfawr Gogledd Cymru ar lefelau rhanbarthol a sirol<br>• Adroddiad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn crynhoi risgiau ac argymhellion ar gyfer cynllunio tymor byr, canolig a hir<br>• Mewnbynnu i'r Asesiadau Llesiant nesaf yn 2026/27. |
| Camau nesaf: | Rydym yn y broses o gomisiynu'r gwaith o goladu a chydlynu'r holl wybodaeth ag adroddiadau sydd eisoes yn bodoli yn y maes.<br>Nid yw Prifysgol Wrecsam wedi gallu gweithredu ar benodi'r ymchwilwyr graddedig heb ddiwygio'r briff, y cymwysterau a'r briff ymchwil. Mae Prifysgol Bangor wedi camu i'r bwlch a mae caffael ar y gweill ar gyfer yr elfen Awdur Arweiniol. Mae hyn wedi gwthio'r amserlen yn ôl gyda'r adroddiad terfynol i'w gyflwyno ym mis Mehefin 2026. Bydd hyn yn dal i sicrhau y gall yr adroddiad terfynol fwydo i mewn i'r Asesiadau Llesiant yn 2026.<br><br>****Rydym wedi dysgu bod cydweithio yn rhanbarthol ar faterion gweithredol yn gosod nifer o rwystrau o'n blaen. Serch hynny, mae'r awydd gan swyddogion ar draws y partneriaid i ddyfalbarhau a sicrhau llwyddiant y prosiect yn amlwg.** |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | • Bydd asesiad cyflawn o effaith newid hinsawdd a llesiant ac oblygiadau hynny, gyda chamau ymateb ac wedi'i hadnabod i liniaru effaith ac ymateb yn rhagweithiol.<br>• Asesiad risg wedi'i gwblhau |

| | |
|---|---|
| | • Cynlluniau llesiant yn ymateb i'r risgiau ac yn adnabod allbynnau a deilliannau. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Pob allbwn yn gwbl ddwyieithog yn Saesneg a Chymraeg. |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Bydd yr asesiad yn dadansoddi adborth a data gan drigolion yn tynnu sylw at sut mae materion hinsawdd hefyd yn cael effaith ar eu llesiant. |

**3.3 Prosiect Niwbwrch:**
Peilot yw hwn a'r bwriad yw datblygu model neu ymarfer da y gellid ei ddefnyddio ar draws yr ardal o weithio mewn partneriaeth er mwyn ymateb i broblem. Rydym yn treialu dull gwahanol, cydweithredol o fynd i'r afael â phroblemau mynediad a thraffig yn ardal Niwbwrch a Llanddwyn ar Ynys Môn. Mae'n ffordd newydd o weithio ar y cyd, lle mae'r sefydliadau o gwmpas y bwrdd yn rhannu heriau a datrysiadau, yn cydweithio ar un cynllun, yn rhannu adnoddau ac yn cyfathrebu fel un llais gyda'r rhanddeiliaid.

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Grŵp Tasg a Gorffen |
| Aelodaeth: | Cyngor Sir Ynys Môn, Cyfoeth Naturiol Cymru, Medrwn Môn, Heddlu Gogledd Cymru |
| Cydweithio gyda: | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, Menter Môn, Cynghrair Bro Aberffraw |
| Nawdd ariannol | £8.5k gan y Gronfa BGC Rhanbarthol yn 2023/24<br>£15k gan y Gronfa BGC Rhanbarthol yn 2024/25 |
| Amserlen | Peilot: 2 flynedd (Mawrth 2024 – Ebrill 2026) |
| Deilliannau: | • Wrth gymryd pryderon a syniadau am ddatrysiadau gan y gymuned leol, mae swyddogion eisoes wedi cyflawni rhai mesurau dros dro ac yn gweithio ar gynllun prosiect sydd yn cynnwys gweithrediadau tymor byr, canolig a thymor hir.<br>• Cydweithio agosach rhwng yr asiantaethau ar faterion diogelwch cymunedol fel parcio, mynediad, tanau traeth, a gweithredu datrysiadau ynghynt o ganlyniad.<br>• Llinellau cyfathrebu agored gyda'r gymuned gan osgoi protestiadau.<br>• Wedi cynnal adolygiad o'r peilot hyd yma a'i rannu yn rhanbarthol fel datrysiad posib i broblemau llesiant cymunedol ag esiampl prin o gydymffurfio gyda'r Pum Ffordd o Weithio. |
| Camau nesaf: | • Adrodd yn ôl ar gynnydd i'r gymuned leol gyda'r gobaith y byddent yn gweld gwir wahaniaeth mor fuan â Phasg 2026.<br>• Nawdd ariannol rhanbarthol yn cyllido'r gwaith yma. Mae swyddogion o'r Cyngor Sir yn asesu'r datrysiadau sydd angen gwariant cyfalaf ac yn ymchwilio i ffynonellau ariannu penodol.<br>• Cynnal adolygiad o'r peilot hyd yma gyda'r bwriad o'i rannu yn rhanbarthol a'i gynnig fel datrysiad posib i broblemau llesiant cymunedol. |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | • Mesurau fel data ar draffig ac ymwelwyr yn yr ardal<br>• Holiadur i bobl lleol yn mesur bodlonrwydd a gwelliannau llesiant |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | Wedi sicrhau arbenigwyr a hwyluswyr dwyieithog yn y sesiynau cyhoeddus ac wedi ymdrechu yn benodol i sicrhau bod pobl lleol yn cymryd rhan ac yn medru mynegi eu pryderon a'u syniadau yn y Gymraeg. Mae'r holl gyfathrebu yn ddwyieithog. |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | Mae pobl lleol wedi adrodd nad ydynt yn defnyddio'r goedwig na'r traeth dros fisoedd yr Haf oherwydd y prysurdeb a gor-dwristiaeth. Mae'r sefyllfa yn cael effaith andwyol ar eu bywydau dydd i ddydd a'u llesiant. Mae'r prosiect yn cyfarch y diffyg mynediad i adnoddau naturiol fel traeth a choedwig Llanddwyn i bobl leol. |

4. **Amcan Plant a phobl Ifanc:**

| **4.1 Wedi ymrwymo i fod yn FGC sy'n Wybodus am Drawma:**<br>Mae fframwaith yng Nghymru mewn lle i helpu sicrhau:<br>● Bod swyddogion mewn sefydliadau yn gwybod am adfyd a thrawma ac yn deall sut maen nhw'n effeithio ar blant a phobl ifanc.<br>● Bod sefydliadau yn gwybod sut i gamu mewn ac atal adfyd a thrawma rhag digwydd.<br>● Bod sefydliadau yn gwybod sut i gefnogi rhywun sydd wedi'i effeithio gan drawma.<br><br>Dyma enghraifft o un partner, Cyngor Môn, sy'n arloesi yn y maes, yn defnyddio'u profiadau a'u harbenigedd i gefnogi a grymuso partneriaid i wella eu gwasanaethau I gymunedau Gwynedd a Môn. Dyma esiamplau o'r adborth gan y partneriaid:<br>✓ *"Sesiwn arbennig. Diolch! Doeddwn i ddim yn meddwl bod hwn yn berthnasol i'n sefydliad ni, ond mae wir wedi gwneud imi feddwl"*<br>✓ *"Byddai'n wych cydweithio ar y camau nesaf i wireddu hyn yn ein sefydliadau"*<br>✓ *"Sesiwn wych, byddai cwrs dilyniant yn fuddiol iawn at y dyfodol"*<br>✓ *"Gofyn wrthym ni ein hunain os ydyn ni'n cefnogi'n staff yn ddigonol. Os na be fedrwn ni wneud yn well neu gwahanol?"*<br><br>Mae trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus â Chyngor Gwynedd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei wneud o ran bod yn Wybodus am Drawma, drwy ymateb i ddeilliannau'r asesiad gwaelodlin a gynhyrchwyd ar gyfer Cyngor Gwynedd. | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Cynnal sesiynau penodol gydag arbenigwyr ar Drawma i holl Aelodau'r Bwrdd |
| Cydweithio gyda: | Cyngor Sir Ynys Môn a Trauma Informed UK |
| Nawdd ariannol | Sesiwn gyntaf – wedi ei gefnogi gan staff ac adnoddau Cyngor Môn.<br>Mae swm o arian wedi'i glustnodi o Gronfa Arian Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i gomisiynu Trauma Informed Wales i gynnal sesiynau pellach (£5k). |
| Amserlen | Sesiynau hyfforddiant cychwynnol wedi eu darparu ym mis Mehefin 2025. Aelodau yn cydweithio ar Asesiad Gwaelodlin cyn penderfynu ar raglen hyfforddiant pellach penodol. |
| Deilliannau: | • Bydd holl aelodau'r Bwrdd yn wybodus am drawma a'r effaith y mae trawma yn ei gael ar fywydau plant a phobl ifanc.<br>• Sefydliadau'r BGC yn ymwybodol o ofidiau a thrawma ac yn deall sut yr effeithir pobl.<br>• Bod sefydliadau'r BGC yn ymwybodol o sut i ymyrryd er mwyn sicrhau nad yw gofidiau a thrawma yn digwydd.<br>• Bod sefydliadau'r BGC yn gwybod sut i gefnogi unigolyn sydd wedi'i heffeithio gan drawma.<br>• Bod aelodau yn cael profiad uniongyrchol o'r datblygiad proffesiynol mae modd ei gyflwyno o fewn y gweithle.<br>• Bydd y sesiynau yma ar agor i bartneriaid o'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyda lle i gynrychiolwyr ychwanegol o bob sefydliad. Mae'n bosibl cynnal sesiwn sy'n ddilyniant i'r rhai fynychodd y sesiwn cyntaf. |
| Camau nesaf: | • Cadarnhau y brîff a'r deilliannau i'r sesiynau hyfforddi ychwanegol. Trefnu a chynnal y Gweithdai erbyn mis Mai 2026.<br>• Agor y sesiynau i gydweithwyr sector gyhoeddus ar draws y rhanbarth. |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | • Bydd pob aelod y Bwrdd yn wybodus am drawma ac effaith trawma, gan sicrhau bod y Byrddau yn ymateb yn rhagweithiol yn y Cynlluniau Llesiant.<br>• Bydd sefydliadau BGC ar draws y gogledd yn wybodus am drawma.<br>• Byddwn yn gwybod hyn drwy fonitro aelodau sydd wedi mynychu'r hyfforddiant. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | *Yr holl adnoddau a sesiynau yn ddwyieithog* |

**Datblygiad arwyddocaol cenedlaethol:**
Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (CSSJTCW) yn rhoi tystiolaeth i ymchwiliad Ôl-ddeddfwriaethol y Bwrdd Cyfiawnder Cymdeithasol a Chyffredinol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar ddiwedd y flwyddyn. Thema allweddol i'r ymchwiliad yw gweithredu'r Ddeddf yn ymarferol a chyflwynwyd yr astudiaeth achos ganlynol gan staff Llywodraeth Cymru:

***Astudiaeth Achos: Taith Gydweithredol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn i Ddod yn Wybodus am Drawma***
*Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd ac Ynys Môn yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn weithredol trwy ei ymrwymiad i ddod yn BGC sy'n wybodus am drawma. Mae'r cyfeiriad strategol hwn yn adlewyrchu amcanion llesiant y BGC o amgylch atal, meddwl hirdymor ac integreiddio. Mae'r dull yn cael ei ddatblygu ar y cyd ar draws sefydliadau aelod, gan ddechrau gyda gweithdy pwrpasol a* ***gyflwynir gan arbenigwyr sy'n wybodus am drawma o Gyngor Sir Ynys Môn a'u partneriaid yn Trawma-Wybodus Cymru.*** *Dilynwyd hyn gan holiadur sylfaenol a rennir i asesu dealltwriaeth ac arfer cyfredol. Bydd mewnwelediadau o'r ymarfer hwn yn llywio cynllun gwaith a gynhyrchir ar y cyd, a gyflwynir yn ddiweddarach eleni, gan sicrhau bod camau gweithredu yn y dyfodol yn cael eu llunio gan dystiolaeth gyfunol a phrofiad byw. Mae'r fenter hon yn dangos sut gall cynllunio lles sbarduno newid diwylliannol a systemig, gan feithrin amgylcheddau sy'n ymatebol i drawma ac anffawd. Mae hefyd yn enghraifft o bwyslais y Ddeddf ar bartneriaeth, gyda chyrff cyhoeddus yn cydweithio i feithrin gwydnwch a gwella canlyniadau i gymunedau ledled Gwynedd ac Ynys Môn.*

**4.2 Hawliau Plant:**
Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd Plant wedi datgan bod gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rôl hanfodol wrth ymgorffori hawliau plant ledled Cymru. Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn nod penodol yn y Cynllun Llesiant presennol mewn perthynas â hawliau plant. Mae'r Comisiynydd Plant, mewn cydweithrediad gyda Llywodraeth Cymru wedi cynnig peilota cynnal sesiynau penodol i sefydliadau'r BGCau ar y Fframwaith Hawliau Plant, i gynnwys:

**Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant sydd yn golygu:**
- Bydd sefydliadau'n rhoi blaenoriaeth i hawliau plant yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd i wella bywydau plant.
- Bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i wneud yn fawr o'u doniau a'u potensial.
- Bod plant yn cael mynediad i wybodaeth ac adnoddau i'w galluogi i fanteisio'n llawn ar eu hawliau.
- Bod plant yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch eu bywydau.
- Bod awdurdodau ac unigolion yn atebol i blant am eu penderfyniadau, ac am ganlyniadau sy'n effeithio ar fywydau plant

Cynhelir y sesiwn arbennig Hawliau Plant yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor ar Fawrth 16eg a hynny ar gyfer aelodau'r BGCau ar draws gogledd Cymru. Mae'r Tîm Cefnogi yn cyd-weithio â Chyngor Gwynedd i sicrhau bod y sesiwn hyn yn alinio gyda'r sesiwn a gynhelir o fewn Cyngor Gwynedd ar Chwefror 2il.

***Y Ffordd Cywir-Dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant:*** www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant-2

| | |
|---|---|
| Ffurf Cyflawni: | Treialu sesiynau newydd mewn cydweithrediad â'r Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru |
| Cydweithio gyda: | Comisiynydd Plant Cymru a Llywodraeth Cymru. Sefydliadau BGC ledled gogledd Cymru |
| Nawdd ariannol | Wedi ei ariannu gan Comisiynydd Plant Cymru |
| Amserlen | Erbyn Mai 2026 |

| | |
|---|---|
| Deilliannau: | • Deall sut y gellir defnyddio'r dull hawliau plant trwy addysg, trwy ofal cymdeithasol a sut mae'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru fel fframwaith wrth weithio gyda phlant.<br>• Dyfnhau dealltwriaeth o'r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a hawliau plant yng Nghymru.<br>• Archwilio dyletswyddau statudol ac egwyddorion dull sy'n seiliedig ar hawliau.<br>• Galluogi BGCau i hunanasesu arfer cyfredol yn erbyn y pum egwyddor (Gwreiddio, Pheidio a Chamwahaniaethu, Grymuso, Cyfranogiad, Atebolrwydd).<br>• Cytuno ar gamau gweithredu allweddol a'r camau nesaf ar gyfer ymgorffori hawliau plant. |
| Camau nesaf: | • Cadarnhau y brîff a'r deilliannau trefnu a chynnal gweithdai yn ardal Gwynedd a Môn<br>• Cytuno'r camau gweithredu ac adnabod cyfleon i gyd-weithio yn dilyn y gweithdai |
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | • Bydd pob aelod y Bwrdd yn wybodus am hawliau plant, gan sicrhau bod y Byrddau yn ymateb yn rhagweithiol yn y Cynlluniau Llesiant.<br>• Byddwn yn gwybod hyn drwy fonitro aelodau sydd wedi mynychu'r hyfforddiant. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | *Darpariaeth yn ddwyieithog* |
| **Datblygiad arwyddocaol cenedlaethol:**<br>Mae hwn yn gyfle unigryw i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn arwain y ffordd yng ngogledd Cymru i gydweithio â Chomisiynydd Plant i gyflwyno'r gweithdy hwn. Mae'n amserol oherwydd ei fod yn dilyn cyfres o gyfarfodydd y mae'r Comisiynydd Plant wedi'u cynnal gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru. | |

5. **Amcan Lliniaru Effaith Tlodi:**

| | |
|---|---|
| **Bwriad: I ddeall mwy am beth mae tlodi yn edrych fel yng nghymunedau Gwynedd a Môn.**<br>Rydym yn gweithio gyda'r sefydliadau sy'n arbenigo yn y maes tlodi yng Ngwynedd a Môn i sicrhau bod gan gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal ddealltwriaeth gyffredin o dlodi ac i helpu sefydliadau i feddwl yn fwy strategol am eu rôl wrth ddarparu datrysiadau. | |
| Ffurf Cyflawni: | Dashfyrddau gwybodaeth ar dlodi fel rhan o'r asesiadau llesiant.<br>Gweithdai i Aelodau'r Bwrdd a swyddogion maes tlodi yn eu sefydliadau |
| Cydweithio gyda: | Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, CAB, ADRA, Medrwn Môn, Mantell Gwynedd |
| Nawdd ariannol | Dim arian ychwanegol tu hwnt i gyllidebau cyfredol yr aelodau |
| Amserlen | Wedi llithro i Haf 2026 |
| Deilliannau: | • Gwybodaeth dashfwrdd diweddaraf gan y partneriaid<br>• Erbyn diwedd y sesiynau bydd gan gyfranogwyr:<br>  o Dealltwriaeth ddyfnach o ba rai o'u defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw mewn tlodi a goblygiadau hyn ar gyfer penderfyniadau rheoli a gweithredol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.<br>  o Y sgiliau i wneud eu dadansoddiad eu hunain o ba rai o'u defnyddwyr gwasanaeth sy'n byw mewn tlodi.<br>• Wedi datblygu syniadau am y ffordd orau o reoli eu gwasanaethau mewn ffordd sy'n darparu atebion i dlodi yn ardaloedd Gwynedd a Môn. |
| Camau nesaf: | • Cadarnhau y brîff a'r deilliannau sydd eu angen<br>• Trefnu a chynnal Gweithdai<br>• Cytuno'r camau gweithredu ac adnabod cyfleon i gyd-weithio yn dilyn y Gweithdai |

| | |
|---|---|
| Sut byddwn yn mesur cynnydd: | • Bydd aelodau'r Bwrdd a swyddogion yn deall effaith tlodi ar drigolion a chymunedau.<br>• Bydd aelodau'r Bwrdd a swyddogion yn cynllunio ar sail tystiolaeth ac ymchwil, er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau fod gwasanaethau yn rhagweithiol er mwyn arbed a lliniaru effaith tlodi. |
| Gweithredu ar y Gymraeg: | *I'w gytuno* |
| Gweithredu ar y Dull Pwysau Iach | *I'w gytuno* |

**Diwedd**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 22 Ionawr 2026 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2025/26 |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd blaenraglen diwygiedig ar gyfer 2025/26 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2025.

2. Roedd yr eitemau 'Gweithrediad Cyfarwyddyd Erthygl 4' a 'Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion' wedi eu rhaglennu i'w trafod yn y cyfarfod yma.

3. Cadarnhaodd yr Ustus Eyre orchymyn i ddiddymu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 mewn gwrandawiad yn yr Uchel Lys ar 27 Tachwedd 2025. Gwrthodwyd cais llafar y Cyngor am ganiatâd i apelio'r penderfyniad. Cyflwynir cais ysgrifenedig i apelio'r penderfyniad. Os rhoddir caniatâd i apelio'r penderfyniad, bydd yr achos yn cael ei glywed yn y Llys Apêl. Gan fod yr achos cyfreithiol yn parhau, ni fyddai'n briodol i'r Pwyllgor graffu'r mater yma felly argymhellir cadw golwg ar y sefyllfa gan ei nodi fel mater i'w graffu pan yn amserol.

4. Derbyniwyd cais i lithro'r eitem 'Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion' a'i nodi fel eitem i'w raglennu yn ystod 2026/27. Mae'r rhaglen waith ar gyfer yr eitem yma wedi llithro am resymau tu hwnt i reolaeth yr Adran Amgylchedd gan gynnwys disgwyl am ddata cyfredol megis rhagamcanion twf aelwydydd gan Lywodraeth Cymru.

5. O ganlyniad i'r uchod, daethpwyd a'r eitem 'Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn' ymlaen i'r cyfarfod yma o gyfarfod 19 Mawrth 2026.

6. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2025/26.

7. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2025/26.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2025/26

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **5/6/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd<br>• Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a Ymgynghoriaeth Gwynedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **18/9/25** | • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2024/25 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Trefniadau Graeanu a Biniau Halen | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 28 Medi 2022 |
| | | |
| **6/11/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a Ymgynghoriaeth Gwynedd<br>• Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **22/1/26** | • Cais i graffu gan aelod o'r cyhoedd – Materion Ariannu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur | Sicrwydd o ran trefniadau ariannu |
| | • Adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Teithio Llesol | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | | |
| **19/3/26** | • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn |
| | • Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Llwybrau Cyhoeddus | Sicrwydd o ran gweithrediad |

**Eitem i'w raglennu yn 2026/27 -** Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Dewisiadau Strategol, Gweledigaeth ag Amcanion

**Eitemau i'w rhaglennu pan yn amserol i'w craffu -** Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Hoff Strategaeth, Cyfarwyddyd Erthygl 4